Adroddiad gan Teresa Tinsley and Kathryn Board, OBE

# Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2015/16: Cyflwr dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru



BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

Education Development Trust

# Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2015/16: Cyflwr dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru

Education Development Trust

**Education Development Trust** Highbridge House, 16–18 Duke Street, Reading, Berkshire RG1 4RU

**T** +44 (0) 118 902 1000 **E** enquiries@educationdevelopmenttrust.com **W** www.educationdevelopmenttrust.com

© COPYRIGHT EDUCATION DEVELOPMENT TRUST 2016. THE VIEWS AND OPINIONS EXPRESSED IN THIS PUBLICATION
ARE THOSE OF THE AUTHORS AND DO NOT NECESSARILY REPRESENT THE VIEWS OF EDUCATION DEVELOPMENT TRUST.

978-1-909437-85-2

# Contents


**Croeso i'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg** 4
**Gair am y Cyngor Prydeinig** 4
**Am yr awduron** 5
**Diolchiadau** 5

**Crynodeb gweithredol** 6
Canfyddiadau allweddol 8
Ieithoedd mewn ysgolion uwchradd 10
Ieithoedd mewn ysgolion cynradd 12
Casgliadau 13

**Pennod 1: Cyflwyniad** 16
Y cyd-destun polisi 17
Data newydd ar yr angen am ieithoedd 18
Ieithoedd yn y cwricwlwm 18
Dyfodol Byd-eang 19
ITM yng Nghyfnod Allweddol 3 20
Cyrsiau newydd TGAU a Safon Uwch 20
Tueddiadau Ieithoedd 2015/2016 21

**Pennod 2: Y dull o ymchwilio a chasglu data** 22
Dadansoddi data arholiadau 23
Llunio'r holiaduron 23
Casglu data 25
Dadansoddi'r data 25
Ymweliadau a chyfweliadau'r astudiaethau achos 26

**Pennod 3: Data arholiadau ysgolion yng Nghymru** 28
TGAU 29
Safon Uwch 32

**Pennod 4: Canfyddiadau o'r arolwg o ysgolion uwchradd** 34
Cyfnod Allweddol 3 35
Cyfnod Allweddol 4 37
Prif bwyntiau 60

**Pennod 5: Astudiaethau achos a chyfweliadau â disgyblion, athrawon a phenaethiaid** 62
Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg, y Barri 64
Astudiaeth Achos 2: Ysgol Gyfun Trefynwy, Sir Fynwy 65
Astudiaeth Achos 3: Ysgol Alun, yr Wyddgrug, Sir y Fflinte 66
Astudiaeth Achos 4: Ysgol Bro Dinefwr, Llandeilo 68
Tystiolaeth o gyfweliadau a grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion 69
Pwyntiau Allweddol 72

**Pennod 6: Canfyddiadau'r arolwg o ysgolion cynradd** 74
Pwyntiau Allweddol 85

**Pennod 7: Casgliadau** 86
Uwchradd 87
Cynradd 89
Edrych tua'r dyfodol 90

**Cyfeiriadau** 92

**Atodiadb 1** 93
**Atodiadb 2** 94

## Croeso i'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg

Mae'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg, a sefydlwyd dros 40 mlynedd yn ôl fel Canolfan Addysgu Prydain ac a alwyd yn ddiweddarach yn Ymddiriedolaeth Addysg CfBT, yn sefydliad addysgol mawr sy'n darparu gwasanaethau addysg er budd y cyhoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Ein nod ydy bod yn brif ddarparwr gwasanaethau addysg y byd, gyda diddordeb arbennig mewn effeithiolrwydd ysgolion.

Mae ein gwaith yn cynnwys gwella ysgolion drwy arolygu, datblygu'r gweithlu ysgolion a dylunio cwricwlwm ar gyfer Adran Addysg y DU, awdurdodau lleol a nifer gynyddol o ysgolion annibynnol ac ysgolion y wladwriaeth, academïau ac ysgolion rhydd. Rydym yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i ddysgwyr yn ein hysgolion.

Yn rhyngwladol rydym wedi gweithredu rhaglenni addysg yn llwyddiannus i lywodraethau yn y Dwyrain Canol, Affrica Is-Sahara a De-ddwyrain Asia, ac rydym yn gweithio ar brosiectau a ariennir gan roddwyr megis yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, y Comisiwn Ewropeaidd, Adran Materion Tramor a Masnach Awstralia, Banc y Byd ac Asiantaeth yr Unol Daleithiau ar gyfer Datblygu Rhyngwladol, mewn gwledydd incwm isel a chanolig.

Mae unrhyw elw a gynhyrchir gan ein gweithrediadau yn cael ei ail-fuddsoddi yn ein rhaglen ymchwil addysgol. Ewch i **www.educationdevelopmenttrust.com** i gael rhagor o wybodaeth.

## Gair am y Cyngor Prydeinig

Y Cyngor Prydeinig yw sefydliad rhyngwladol y DU dros gysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill ac yn meithrin ymddiriedaeth rhyngddynt yn fyd-eang.

Rydym yn gweithio mewn mwy na 100 o wledydd ac mae ein 8,000 o staff - gan gynnwys 2,000 o athrawon - yn gweithio gyda miloedd o weithwyr proffesiynol a llunwyr polisïau ynghyd â miliynau o bobl ifanc bob blwyddyn drwy addysgu Saesneg, rhannu'r celfyddydau a darparu rhaglenni cymdeithas ac addysg.

Rydym yn elusen yn y DU sy'n cael ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol. Mae grant craidd a ariennir drwy arian cyhoeddus yn darparu 16 y cant o'n trosiant a oedd y llynedd yn £973 miliwn. Daw gweddill ein refeniw o'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid o bob cwr o'r byd yn talu amdanynt, megis dosbarthiadau Saesneg a sefyll arholiadau yn y DU, a hefyd drwy gontractau addysg a datblygu a drwy bartneriaethau gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Mae ein holl waith yn cyflawni ein diben elusennol ac yn cefnogi ffyniant a diogelwch i'r DU ac yn fyd-eang.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.britishcouncil.org**

## Am yr awduron



Teresa Tinsley

**Teresa Tinsley** wedi sefydlu a datblygu'r gyfres Tueddiadau Ieithoedd o arolygon sydd wedi olrhain cyflwr ieithoedd mewn gwahanol sectorau addysg er 2002. Yn ogystal â chynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am sefyllfa ieithoedd mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr, mae'r arolygon hefyd wedi rhoi sylw i'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd cymunedol ar draws y DU, a dysgu iaith ym maes Addysg bellach ac Addysg i Oedolion. Arferai Teresa fod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu yn CILT, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol, a sefydlodd Alcantara Communications yn 2011 ac ers hynny mae wedi gwneud gwaith ymchwil i ieithoedd gan ganolbwyntio ar bolisi ar gyfer yr Academi Brydeinig a'r Cyngor Prydeinig, yn ogystal ag i Ymddiriedolaeth Addysg CfBT. Mae ei gwaith ar gyfer CfBT yn cynnwys adolygiad rhyngwladol o ieithoedd cynradd, Gwersi o dramor, yn ogystal â'r adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd o 2011 i 2015, gan gynnwys arolwg Tueddiadau Ieithoedd y llynedd yng Nghymru.



Kathryn Board, OBE

Roedd **Kathryn Board** yn Brif Weithredwr CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd o 2008 ac yn y swydd honno bu'n gweithio gydag arbenigwyr ac amrywiaeth eang o sefydliadau addysgol i gynnig cyngor ar bolisi addysgol a oedd yn gysylltiedig ag addysgu ieithoedd a hefyd ar fentrau er mwyn cynyddu dysgu ieithoedd ar draws y DU. Cyn ymuno â CILT, treuliodd 30 mlynedd yn gweithio dros y British Council mewn nifer o swyddi rhyngwladol a rheoli. Hefyd bu'n arwain ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg CfBT ar ddatblygu Strategaeth ieithoedd ac ar gyflawni nifer o brosiectau cenedlaethol i gynorthwyo addysgu ieithoedd yn ysgolion Lloegr. Mae hi bellach wedi lled-ymddeol, ac yn parhau i weithio ar brosiectau ymchwil lle gall gyflwyno ei harbenigedd. Mae Kathryn yn siarad Sbaeneg, Almaeneg ac Iseldireg ac ar hyn o bryd mae'n gweithio'n galed i wella ei Harabeg.

## Diolchiadau

Mae'r awduron yn ddiolchgar iawn i Claire Gorrara o Brifysgol Caerdydd, i Arweinyddion ITM yn y consortia rhanbarthol Anna Vivian Jones, Amy Walters-Bresner a Sioned Harold, i Ceri James ac i staff Cyngor Prydeinig Cymru am eu cefnogaeth i annog ysgolion i ymateb i'r arolwg a dewis ysgolion ar gyfer yr astudiaethau achos. Hoffem yn arbennig gydnabod amser ac ymdrech yr holl athrawon a gwblhaodd arolwg eleni a darparu cymaint o dystiolaeth a sylwadau cyfoethog i'r ymchwilwyr. Mae'r wybodaeth y mae'r ymatebwyr wedi'i rhoi yn hanfodol wrth ddeall y darlun cenedlaethol ac wrth ddatblygu ein gallu ni i gyd i wella'r ddarpariaeth.

# Crynodeb gweithredol



# *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2015/16 yw'r ail mewn cyfres o adroddiadau blynyddol ar addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion yng Nghymru, a gomisiynwyd mewn ymateb i bryderon cynyddol ynglŷn â statws gostyngol Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yn ysgolion uwchradd Cymru.

Mae'r ymchwil yn seiliedig ar arolygon ar-lein a gwblhawyd gan athrawon mewn samplau cynrychioliadol o ysgolion ar draws y wlad, yn ogystal â nifer ddethol o ymweliadau astudiaethau achos ag ysgolion sy'n dangos ymrwymiad gwirioneddol i addysgu ITM a chanfod ffyrdd diddorol ac arloesol o oresgyn amrywiol heriau gan gynnwys gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 ac agweddau disgyblion at ITM. Eleni mae arolwg o ysgolion cynradd yng Nghymru hefyd wedi cael ei gynnwys am y tro cyntaf er mwyn archwilio'r potensial i addysgu iaith dramor i blant iau.

Gwelwyd cwymp aruthrol o 44 y cant yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n astudio iaith dramor i TGAU rhwng 2002 a 2015. Yn erbyn y cefndir hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud diwygiadau addysgol helaeth gan gynnwys datblygu cwricwlwm newydd yn seiliedig ar ganfyddiadau adolygiad Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, cyflwyno cyrsiau TGAU a Safon Uwch newydd, a chryfhau Bagloriaeth Cymru. Ym Mehefin 2015 lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun *Dyfodol Byd-eang* i wella a hyrwyddo Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru; mae hefyd yn hybu'r uchelgais i Gymru ddod yn wlad 'ddwyieithog a mwy'.[1] Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2015/16* yn edrych yn fanwl ar yr hyn sy'n digwydd i ddarpariaeth addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion ledled Cymru ac yn archwilio'r effaith y mae'r diwygiadau a'r cynlluniau niferus yn ei chael ar athrawon ITM a'u disgyblion, ynghyd â'r potensial ar gyfer datblygiadau mewn ysgolion cynradd. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio i ba raddau y mae'r Canolfannau Rhagoriaeth a sefydlwyd yn ddiweddar fel rhan o'r cynllun Dyfodol Byd-eang, yn dechrau ennyn diddordeb athrawon ITM, ac yn mesur ymatebion athrawon i'r newidiadau arfaethedig mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch mewn ieithoedd tramor.

Cafodd yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ei wneud ar y cyd gan y Cyngor Prydeinig a'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016 ac mae'n seiliedig ar ymatebion gan 124 o ysgolion uwchradd a 190 o ysgolion cynradd, gyda chyfraddau ymateb o 58 y cant a 15 y cant, yn y drefn honno.

Gwelwyd cwymp aruthrol o 44 y cant yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n astudio iaith dramor i TGAU rhwng 2002 a 2015

[1] Llywodraeth Cymru (2015)

## Canfyddiadau allweddol

### Uwchradd

- Dim ond ychydig o amser sy'n cael ei neilltuo i addysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 3 – yr unig gyfnod lle mae'r pwnc yn orfodol. Mae oddeutu 40 y cant o ysgolion yn cynnig llai na'r lleiafswm o ddwy awr yr wythnos sy'n cael ei argymell gan Estyn.[2]
- Yn y mwyafrif o ysgolion, mae llai na chwarter y disgyblion yn dysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, ac mae 60 y cant o ysgolion yn adrodd am ostyngiadau.
- Bagloriaeth Cymru a'r gostyngiad yn nifer y slotiau dewisiadau yw'r prif resymau dros y gostyngiad mwyaf diweddar yn y nifer sy'n astudio ITM hyd at TGAU.
- Mae athrawon yn credu mai gwella'r cyngor gyrfaoedd, newid y dulliau o asesu a marcio'r arholiad TGAU, cynyddu nifer y dewisiadau rhydd, a sicrhau bod ITM yn ymddangos ym mhob bloc dewisiadau fyddai'r ffyrdd gorau o gael mwy o fyfyrwyr i ddewis ITM.
- Mae llawer wedi bod yn rhan o ymdrechion i hyrwyddo ITM, ond er bod y rhain wedi cael effaith dda ar agweddau, nid ydynt wedi gwella llawer ar y niferoedd sy'n dewis astudio ITM.
- Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud nad yw disgyblion yn gwerthfawrogi gwerth dysgu iaith dramor ac yn fwy tebygol o gael niferoedd isel iawn yn dewis ITM.
- Mae nifer fawr yn ymwybodol o'r Canolfannau Rhagoriaeth newydd, ac mae athrawon yn gobeithio y byddant yn darparu cyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion ac adnoddau addysgu.
- Mae nifer fawr yn cyfranogi yn y cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (DPP) a ddarperir gan fyrddau arholi ac yn y digwyddiadau rhwydweithio a ddarperir gan awdurdodau lleol.
- Er nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn derbyn disgyblion sydd eisoes wedi astudio iaith yn yr ysgol gynradd, mae nifer gymharol uchel yn cysylltu ag ysgolion cynradd lleol ynglŷn ag ITM.
- Mae'r grwpiau ar gyfer ITM ôl-16 yn fach iawn, ac mae'r niferoedd yn gostwng. O ganlyniad, mae ITM ôl-16 yn dod yn fwyfwy anymarferol yn ariannol.
- Mae ITM ar eu colled yn yr ymgyrch i hybu'r Gymraeg, rhifedd, STEM, ac oherwydd golwg rhy gul ar lythrennedd.

### Cynradd

- Mae ychydig dros chwarter o'r ysgolion cynradd wnaeth ymateb eisoes yn darparu rhywfaint o fynediad at ddarpariaeth addysgu iaith dramor, er bod hyn yn amlach yn allgyrsiol neu'n anffurfiol yn hytrach nag yn addysgu strwythuredig systematig.
- Ffrangeg yw'r iaith a addysgir amlaf mewn ysgolion cynradd, ac yna Sbaeneg.
- Caiff ieithoedd yn amlach eu dysgu i ddisgyblion hŷn yn yr ysgol gynradd, er bod nifer fach o ysgolion yn cynnig Ffrangeg neu Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 1.

Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud nad yw disgyblion yn gwerthfawrogi gwerth dysgu iaith dramor ac yn fwy tebygol o gael niferoedd isel iawn yn dewis ITM

[2] Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru



- Mae ysgolion sy'n addysgu ieithoedd yn tueddu i ddefnyddio'r aelodau staff presennol sydd â'r sgiliau angenrheidiol.
- Mae ysgolion cynradd yn troi'n bennaf at eu hysgolion uwchradd lleol fel ffynhonnell gymorth bosibl ar gyfer addysgu ITM.
- Er bod mwy na thri chwarter yr ysgolion cynradd a arolygwyd yn gefnogol, o leiaf mewn egwyddor, i gyflwyno darpariaeth addysgu ITM, mae'r ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am gyllid a hyfforddiant ychwanegol. Mae llawer o benaethiaid cynradd eisoes yn teimlo dan bwysau gan gwricwlwm gorlawn a gwelant ITM fel mater a allai gystadlu â'r blaenoriaethau i wella'r ddarpariaeth addysgu Cymraeg.

## Ieithoedd mewn ysgolion uwchradd

Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n astudio iaith i lefel TGAU wedi bod yn gostwng er 2002. Wrth ymateb i arolwg Tueddiadau Ieithoedd 2015/16 eleni, mae tua 60 y cant o ysgolion yn adrodd eu bod wedi gweld gostyngiad dros y tair blynedd diwethaf yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith i lefel TGAU. Mae mwyafrif yr ysgolion - mwy na dwy ran o dair – yn adrodd bod y niferoedd sy'n dewis ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn llai na 25 y cant o'r garfan. Cyflwyno Bagloriaeth Cymru a'r angen i leihau nifer y slotiau dewisiadau ar gyfer ieithoedd tramor yw'r prif resymau y mae ysgolion yn eu rhoi am y gostyngiadau mwyaf diweddar yn y niferoedd sy'n dewis eu hastudio ar gyfer TGAU.

Yn erbyn y cefndir hwn o ostyngiad amlwg yng Nghyfnod Allweddol 4 a TGAU, Cyfnod Allweddol 3 o hyd yw'r unig gyfnod lle mae ITM yn orfodol mewn ysgolion yng Nghymru. Cyfnod Allweddol 3 yw'r cyfle craidd i ddisgyblion ymgyfarwyddo â dysgu ieithoedd tramor cyn penderfynu parhau â'r pwnc i Gyfnod Allweddol 4 ai peidio. Fodd bynnag, canfu'r arolwg fod tua 40 y cant o ysgolion yn cynnig llai na'r isafswm dwy awr o hyfforddiant ITM yr wythnos a argymhellir gan Estyn.

> Cyfnod Allweddol 3 yw'r cyfle craidd i ddisgyblion ymgyfarwyddo â dysgu ieithoedd tramor cyn penderfynu parhau â'r pwnc i Gyfnod Allweddol 4 ai peidio

Mewn ymdrech i atal y gostyngiad yn niddordeb disgyblion mewn iaith, mae athrawon wedi bod yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymgyrchoedd i hyrwyddo ITM yn yr ysgol. Yn benodol, mae'r fenter Llwybrau at Ieithoedd dan arweiniad prifysgolion wedi cyrraedd 69 y cant o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg. Ceir tystiolaeth bendant o'r ymchwil Tueddiadau Ieithoedd fod y rhain yn cael effaith dda ar agweddau, ond nid ydynt wedi gwella'n sylweddol y niferoedd sy'n dewis astudio ITM.

Mae athrawon yn credu bod tri cham a fyddai'n fwyaf tebygol o wella'r niferoedd sy'n dewis astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4. Y cyntaf o'r rhain yw gwella'r cyngor gyrfaol gan ddangos manteision sgiliau iaith yn y gweithle. Yr ail yw gwneud newidiadau i'r dulliau o asesu a marcio'r arholiad TGAU, sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel dulliau llym ac anghyson, a'r trydydd yw sicrhau bod iaith yn ymddangos ym mhob un o'r blociau dewisiadau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9. Mae athrawon hefyd yn credu y byddai cynyddu nifer y dewisiadau rhydd sydd ar gael i ddisgyblion yn cael effaith dda ar y niferoedd sy'n dewis astudio iaith. Ceir dimensiwn economaidd-gymdeithasol amlwg i'r niferoedd isel sy'n dewis astudio ITM. Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy

difreintiedig yn fwy tebygol o adrodd am niferoedd isel iawn yn dewis ITM ynghyd â diffyg gwerthfawrogiad ymysg disgyblion o werth dysgu ieithoedd. Mae ysgolion o'r fath hefyd yn llai tebygol o fod wedi bod yn rhan o ymdrechion i hyrwyddo ITM i ddisgyblion.

Ar yr un pryd ag y cyhoeddwyd adroddiad ymchwil cyntaf Tueddiadau Ieithoedd ar gyfer Cymru ym mis Mai 2015, lansiodd y llywodraeth ei chynllun *Dyfodol Byd-eang* gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ITM mewn ysgolion uwchradd ar draws Cymru a meithrin gallu yn y gweithlu i addysgu ITM o Flwyddyn 5 i fyny. Fel rhan o'r cynllun hwn mae nifer o Ganolfannau Rhagoriaeth rhanbarthol wedi cael eu creu i weithredu fel canolbwyntiau ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau, ac i rannu arferion da. Mae ymchwil Tueddiadau Ieithoedd 2015/16 wedi ceisio olrhain y Canolfannau Rhagoriaeth newydd ac asesu eu cynnydd tuag at gyrraedd nodau'r cynllun *Dyfodol Byd-eang*. Dengys yr ymatebion gan athrawon i arolwg 2015/16 fod yna lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Canolfannau Rhagoriaeth newydd, a bod 62 y cant o'r ysgolion wnaeth ymateb eisoes wedi bod mewn cysylltiad â'u canolfan leol. Mae athrawon yn gobeithio y bydd y canolfannau hyn yn darparu'r cyfleoedd i rwydweithio a rhannu arferion ac adnoddau addysgu. Mae athrawon ITM hefyd yn adrodd bod nifer dda yn manteisio ar y cyfleoedd DPP a ddarperir gan fyrddau arholi (82 y cant) ac ar y digwyddiadau rhwydweithio a ddarperir gan awdurdodau lleol (67 y cant). Fodd bynnag, mae yna hefyd arwyddion bod ysgolion yn dechrau ei chael yn anodd rhyddhau athrawon ar gyfer cyfleoedd hyfforddi o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol a llwythi gwaith trwm.

Er nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn derbyn disgyblion sydd eisoes wedi astudio iaith yn yr ysgol gynradd, mae cymaint â 78 y cant o athrawon uwchradd yn credu y byddai addysgu ieithoedd i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn debygol o wella'r niferoedd sy'n dewis eu hastudio yn ddiweddarach yn yr ysgol uwchradd. Mae lefel galonogol o gysylltiadau eisoes yn bodoli: mae gan bron i hanner yr ysgolion wnaeth ymateb o leiaf rywfaint o gysylltiad gydag un neu fwy o ysgolion cynradd lleol o safbwynt materion ITM. Mae'r ffocws fel arfer ar ddisgyblion Blwyddyn 6 ac ar gydweithio ar raglenni pontio i'w gwneud yn haws i ddisgyblion drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae rhaglenni pontio yn aml yn cynnwys cyflwyniad i ITM ar ffurf bloc byr, dwys o wersi neu nifer o wersi wedi'u gwasgaru ar draws un neu nifer o dymhorau.

Bach yw nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ITM ar lefel TGAU, ac mae'r niferoedd sy'n parhau i Safon Uwch hyd yn oed yn llai ac yn parhau i ostwng i'r pwynt lle mae arlwy ITM ôl-16 yn dod yn anymarferol yn ariannol i lawer o ysgolion. Mae ysgolion wedi defnyddio'u dychymyg i geisio parhau i ddarparu ITM yn y sector ôl-16, gan gynnwys creu partneriaethau neu gonsortia ag ysgolion eraill (e.e. mae un ysgol yn y grŵp yn cynnig ieithoedd, a chaiff disgyblion o ysgolion eraill eu cludo yn ôl ac ymlaen o'r ysgol ar gyfer gwersi ITM). Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r ateb hwn yn boblogaidd gyda disgyblion a'i fod yn annog dirywiad pellach ymysg y niferoedd sy'n dewis ITM ôl-16. Yn yr arolwg eleni, nid yw un o bob pump o ysgolion sydd â disgyblion ôl-16 yn cynnig Safon Uwch iaith - cyfran uwch na'r llynedd.

Bach yw nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ITM ar lefel TGAU, ac mae'r niferoedd sy'n parhau i Safon Uwch hyd yn oed yn llai ac yn parhau i ostwng i'r pwynt lle mae arlwy ITM ôl-16 yn dod yn anymarferol yn ariannol i lawer o ysgolion

Mewn cwricwlwm gorlawn mae ysgolion yn gywir ddigon yn gorfod rhoi adnoddau ac amser i ymateb i gynlluniau canolog i wella cyrhaeddiad yn y Gymraeg yn ogystal â rhifedd a llythrennedd. Mae'r ymgyrch cenedlaethol tymor hir i gynyddu nifer y disgyblion sy'n canolbwyntio ar bynciau STEM hefyd wedi bod yn llwyddiannus iawn: mae disgyblion a'u rhieni bellach yn ymwybodol o fanteision gyrfaol meithrin sgiliau mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Fodd bynnag, gyda chystadleuaeth mor ffyrnig am sylw ac adnoddau gwerthfawr gan yr ysgol, mae ITM ar eu colled. Nid oes digon o ymwybyddiaeth o'r cyfraniad y mae ieithoedd yn ei wneud i ddatblygu llythrennedd yn gyffredinol nac o'r ffaith bod sgiliau ieithoedd tramor yn ddefnyddiol ochr yn ochr â sgiliau STEM mewn economi gystadleuol.

## Ieithoedd mewn ysgolion cynradd

Er nad yw addysgu iaith dramor yn statudol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, mae'r cynllun *Dyfodol Byd-eang* yn ceisio meithrin gallu i addysgu ITM o Flwyddyn 5 ymlaen, a drwy hynny helpu i ddatblygu uchelgais y llywodraeth i Gymru fod yn wlad ddwyieithog a mwy. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer o brosiectau peilot yn y gorffennol, ychydig iawn o dystiolaeth a geir o fynediad neu gysylltiad plant ysgolion cynradd yng Nghymru â darpariaeth addysgu iaith dramor ar hyn o bryd. Credwyd felly y byddai'n ddiddorol canolbwyntio elfen o'r gwaith ymchwil hwn ar sefydlu darlun cliriach o'r hyn sydd eisoes yn digwydd ym maes ITM yng Nghyfnod Allweddol 2.

Dywed ychydig dros chwarter o'r ysgolion a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn darparu rhywfaint o ITM ar gyfer eu disgyblion, er hynny, anaml iawn y mae'n addysgu strwythuredig, systematig. Mae'n llawer mwy cyffredin i ysgolion addysgu iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2 ar ffurf clybiau allgyrsiol neu ddosbarthiadau anffurfiol. Yn amlach na pheidio, y plant hŷn yn yr ysgol (fel arfer rhai Blwyddyn 6) sy'n cael dosbarthiadau achlysurol neu floc byr o hyfforddiant i'w cyflwyno i ITM fel rhan o raglen bontio wrth iddynt baratoi i symud i'r ysgol uwchradd.

> Mae'n llawer mwy cyffredin i ysgolion addysgu iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2 ar ffurf clybiau allgyrsiol neu ddosbarthiadau anffurfiol

Mae mwyafrif yr ysgolion sy'n cynnig ITM ar ryw adeg yng Nghyfnod Allweddol 2 yn addysgu Ffrangeg, a Sbaeneg ydy'r iaith a addysgir ail amlaf mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Yr ieithoedd y mae'r staff addysgu eu hunain wedi'u dysgu sy'n debygol o ddylanwadu ar ba iaith dramor a ddewisir, gan fod y gwaith ymchwil yn dangos bod ysgolion sy'n addysgu ieithoedd yn tueddu i ddefnyddio'r aelodau staff presennol sydd â'r sgiliau angenrheidiol. Ceir tystiolaeth hefyd gan athrawon cynradd ac uwchradd fod ysgolion cynradd yn troi at eu hysgolion uwchradd lleol fel ffynhonnell gymorth bosibl ar gyfer addysgu ITM.

Mae'r arolwg hefyd yn pwyso a mesur y diddordeb tebygol pe byddai ITM yn cael eu cyflwyno ar ryw adeg yn y dyfodol fel y gwnaed yn Lloegr a'r Alban, a pha adnoddau ac arbenigedd fyddai ar gael i ysgolion cynradd eu defnyddio. Er bod y mwyafrif llethol o'r ysgolion wnaeth ymateb yn adrodd eu bod o blaid ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn egwyddor, maent hefyd yn ei gwneud yn glir iawn bod y farn ffafriol hon yn amodol ar fod cyllideb ddigonol ar gael ar gyfer hyfforddiant ac adnoddau. Mae penaethiaid cynradd yn adrodd eu bod eisoes yn

teimlo bod ganddynt lwyth gwaith gormodol gyda chwricwlwm gorlawn a gormod o gynlluniau a yrrir yn ganolog. Mae llawer yn ystyried ITM fel pwnc a allai gystadlu â'r blaenoriaethau i wella'r ddarpariaeth addysgu Cymraeg.

## Casgliadau

Mae prif gasgliadau ymarferiad ymchwil Tueddiadau Ieithoedd 2015/16 ar gyfer Cymru wedi'u nodi isod, ynghyd â chynnig ar gyfer gweithredu i'r dyfodol a fydd yn helpu i gryfhau lle ITM mewn ysgolion a sicrhau llwyddiant y cynllun *Dyfodol Byd-eang*.

**Uwchradd**

**1.** Mae ysgolion uwchradd yn gweithio'n galed iawn i geisio newid agweddau eu disgyblion at ieithoedd tramor er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n dewis eu hastudio yng Nghyfnod Allweddol 4, ond mae hyn yn her aruthrol iddynt. Er bod rhai cynlluniau wedi llwyddo i newid agweddau, ychydig iawn o effaith a gânt ar y niferoedd adeg dewis pynciau, yn enwedig ar ôl cyflwyno Bagloriaeth Cymru a mwy o ffocws ar bynciau craidd. Mae'n amlwg na fydd canolbwyntio ar agweddau disgyblion ar ei ben ei hun yn ddigon i wella'r niferoedd, tra bydd ITM yn dal i fod yn un dewis ymhlith llawer a tra bod ganddynt yr enw o fod yn fwy anodd na llawer o ddewisiadau eraill.

**2.** Mae Estyn wedi datgan mai dwy awr o hyfforddiant ITM yr wythnos yw'r lleiafswm er mwyn i ddisgyblion wneud cynnydd boddhaol yn y pwnc, ac eto mae cymaint â 40 y cant o ysgolion yn neilltuo llai o amser na hyn ar gyfer ITM. Mae'n bosibl y gall y niferoedd isel sy'n dewis ITM ar lefel TGAU fod yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith nad yw disgyblion yn teimlo'n ddigon parod i ddechrau cwrs TGAU nac yn hyderus y byddant yn llwyddiannus.

**3.** Fel gydag arolwg Tueddiadau Ieithoedd y llynedd, canfu gwaith ymchwilio yn yr ysgolion eleni dystiolaeth bellach o amgyffredion bod ITM a Chymraeg yn cystadlu â'i gilydd yn hytrach na'u bod yn ategu ei gilydd. Mewn rhai achosion, mae profiad gwael disgyblion o'r Gymraeg fel ail iaith yn yr ysgol gynradd yn effeithio'n negyddol ar eu profiad diweddarach o ITM oherwydd nad ydynt yn dechrau'r iaith newydd gyda gwybodaeth generig am ddysgu iaith a sgiliau dysgu iaith trosglwyddadwy y gallent eu defnyddio i roi hwb i'w cynnydd gyda'r iaith newydd.

**4.** Ceir tystiolaeth glir bod arweinyddiaeth yr ysgol yn ffactor hanfodol i symbylu cynnydd yn y niferoedd sy'n dewis astudio ITM. Mae angen i lunwyr polisïau ddarparu cymhellion i annog arweinyddion ysgolion i ysgogi mwy o ddisgyblion i ddewis ITM drwy fentro mwy a dwyn ysgolion i gyfrif am wella dysgu plant Cymru yn y maes cwricwlwm hwn sydd wedi cael ei esgeuluso. Dylid rhoi sylw arbennig i ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol mwy heriol, gan mai disgyblion mewn ardaloedd o'r fath sydd leiaf tebygol o gydnabod gwerth dysgu iaith, a hwy sydd leiaf tebygol o fod yn rhan o gynlluniau cyfredol i hyrwyddo ITM.

> Ceir tystiolaeth glir bod arweinyddiaeth yr ysgol yn ffactor hanfodol i symbylu cynnydd yn y niferoedd sy'n dewis astudio ITM

**Cynradd**

**5.** Mae tua chwarter yr ysgolion cynradd yng Nghymru eisoes yn darparu o leiaf rhyw gymaint o fynediad at ddarpariaeth addysgu iaith dramor ar gyfer eu

disgyblion – ym Mlwyddyn 6 fel arfer fel rhan o raglen bontio ehangach â'r ysgol uwchradd. Anaml y caiff ei strwythuro'n systematig ac mae'n dibynnu ar sgiliau'r athrawon presennol neu ar gymorth achlysurol gan ysgolion uwchradd lleol. Er mwyn cyflwyno darpariaeth addysgu iaith dramor systematig mewn ysgolion cynradd yng Nghymru byddai angen cael gweledigaeth a gweithredu cynllun clir gan gynnwys cyllideb, hyfforddiant a chefnogaeth, gyda blaenoriaethu ac adnoddau.

**6.** Mae'r rhan fwyaf o athrawon ysgolion cynradd yn cefnogi'r syniad o gyflwyno darpariaeth addysgu iaith dramor mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, ond mae llawer yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol, neu'n credu y dylai'r Gymraeg gael blaenoriaeth yn y cyfnod cynradd. Tra bod ysgolion cynradd yn troi at eu hysgol uwchradd leol am y cymorth y byddai arnynt ei angen i addysgu ieithoedd tramor, mae'r gwaith ymchwil hwn yn dangos na fyddai llawer o ysgolion uwchradd mewn sefyllfa i weithredu fel asgwrn cefn i gynllun cenedlaethol blaenllaw. Mae'r rhan fwyaf o athrawon ysgolion uwchradd (bron 80 y cant) yn credu bod dechrau addysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd 'yn bendant' neu 'yn debygol' o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis ITM ym Mlwyddyn 9.

**Edrych tuag at y dyfodol**

Mae athrawon mewn ysgolion cynradd yn pryderu am yr hyn maent yn ei ystyried yn gwricwlwm gorlawn ac ni fyddent o reidrwydd yn croesawu gosod ITM fel pwnc arall ar y cwricwlwm, yn enwedig heb gyllid ac adnoddau ychwanegol digonol. Fodd bynnag, byddai datblygu cwricwlwm newydd lle byddai'r Gymraeg, y Saesneg ac ITM yn cael eu gosod mewn maes dysgu cyffredin (fel yr argymhellwyd gan yr Athro Donaldson)[3] yn rhoi cyfle unigryw a holl bwysig i oresgyn y pryderon hyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at amryfal gymwyseddau mewn llythrennedd ac iaith.

Drwy ddatblygu llythrennedd mewn ffordd driphlyg ar gyfer ysgolion cynradd, gan adeiladu ar y profiadau cyfredol a'r argymhellion sy'n deillio o brosiectau arian cyhoeddus blaenorol, gallai'r llywodraeth ail greu'r cysyniad o'r hyn y mae dysgu iaith dramor yn ei olygu yng Nghymru. Byddai defnyddio gwersi Cymraeg a Saesneg i roi i blant wybodaeth fwy eglur am sgiliau dysgu iaith a sgiliau iaith generig, a chyfuno hyn gyda chyflwyniad i ieithoedd a diwylliannau tramor, yn rhoi i ddisgyblion sylfeini mwy cadarn er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd cyflymach mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 3. Lle bo'n berthnasol, dylid hefyd ddatblygu'r wybodaeth sydd gan ddisgyblion eisoes am ieithoedd eraill a siaredir yn eu cartrefi a'u cymunedau. Gyda'r dull hwn byddai angen buddsoddi llawer llai mewn datblygu a hyfforddi na phe byddai ITM yn cael ei gyflwyno fel pwnc newydd sy'n sefyll ar ei ben ei hun yn y cwricwlwm cynradd.

Ar y lefel uwchradd, drwy gyfuno gwersi ITM, Cymraeg a Saesneg mewn un maes cwricwlwm gellid creu mwy o gyfleoedd ar gyfer ymyriadau sy'n fanteisiol i'r holl bynciau iaith – a drwy hynny leihau'r amgyffredion eu bod mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Ar yr un pryd, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser addysgu/dysgu ar gyfer ITM ar gael yng Nghyfnod Allweddol 3, a bod cymhellion ychwanegol i'w cael ar gyfer ysgolion a disgyblion i annog mwy o ddisgyblion i ddewis astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4. Byddai'r camau hyn yn darparu neges sydd gwir angen ei chyfleu am werth pob iaith i'r llywodraeth a chyrff cenedlaethol dylanwadol eraill, gan helpu i'r pwnc gael ei gymryd yn fwy o ddifrif pan fydd disgyblion yn gwneud eu dewisiadau ym Mlwyddyn 9.

Ar y lefel uwchradd, drwy gyfuno gwersi ITM, Cymraeg a Saesneg mewn un maes cwricwlwm gellid creu mwy o gyfleoedd ar gyfer ymyriadau sy'n fanteisiol i'r holl bynciau iaith

[3] Donaldson (2015)


Task-based
Language Learning
and Teaching

Pennod 1

# Cyflwyniad



# Nod yr ail arolwg blynyddol hwn ar Dueddiadau Iaith yng Nghymru yw cyflwyno gwybodaeth i gefnogi'r broses o roi Cynllun *Dyfodol Byd-eang* Llywodraeth Cymru ar waith.

Flwyddyn yn ôl, cyhoeddwyd *Tueddiadau Ieithoedd 2014/15*[4] ar adeg o newid pwysig i'r polisi addysg yng Nghymru, gyda chyflwyniad Bagloriaeth Cymru, datblygiad TGAU a Safon Uwch newydd, a chyhoeddiad adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm.[5]

> Gosododd Dyfodol Byd-eang (Global Futures) dair gweithred strategol allan wedi'u cysylltu â chyflawni'r nodau hyn, a'r pwysicaf ohonynt oedd creu Canolfannau Rhagoriaeth ysgol ym mhob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol

## Y cyd-destun polisi

Cafodd yr ymchwil Tueddiadau Ieithoedd ei gomisiynu mewn ymateb i bryderon cynyddol ynglŷn â statws gostyngol ITM yn ysgolion Cymru o ganlyniad i ostyngiad difrifol yn nifer y disgyblion sy'n cymryd y pwnc i lefel TGAU a Safon Uwch. Oherwydd i'r adroddiad gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2015, fe wnaeth Llywodraeth Cymru roi gwybod am ei chynllun *Dyfodol Byd-eang* 'i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015-2020',[6] ac fe'i cyhoeddwyd yn y diwedd ym mis Hydref 2015.

Nod *Dyfodol Byd-eang* ydy annog dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am ddiwylliannau eraill drwy fod yn 'ddwyieithog a mwy', mewn geiriau eraill, astudio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un ITM o oedran cynradd i lefel arholiadau. Mae i'r cynllun dri nod:

- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio pynciau ITM ar lefel TGAU a Safon Uwch (neu gymwysterau cyfwerth) ac mewn addysg uwch
- Gwella'r profiad addysgu a dysgu ITM i ddysgwyr 7 i 19 oed, gan ddatblygu tuag at system 'dwyieithog a mwy' lle mae addysgu ITM yn ffurfiol yn dechrau ym Mlwyddyn 5
- Gwella lefelau cyrhaeddiad ym maes ITM

Roedd *Dyfodol Byd-eang* yn nodi tri cham strategol ar gyfer cyrraedd y nodau hyn, a'r pwysicaf o'r rhain oedd creu Canolfannau Rhagoriaeth i ysgolion ym mhob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol i helpu gweithwyr proffesiynol addysgu a galluogi ITM i gael eu haddysgu yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen.

Cafodd arolwg eleni, felly, ei lansio gyda'r nod o gefnogi datblygiad polisi *Dyfodol Byd-eang* drwy gasglu gwybodaeth a fyddai'n:

- Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r prosesau mewn ysgolion uwchradd sydd naill ai'n annog neu'n atal niferoedd mwy o ddisgyblion rhag astudio ieithoedd ar lefel TGAU a Safon Uwch
- Casglu gwybodaeth am y ddarpariaeth bresennol ar gyfer ITM mewn ysgolion cynradd, a'r adnoddau y byddai ysgolion yn gallu eu defnyddio i'w datblygu

[4] Board and Tinsley (2015) [5] Donaldson (2015) [6] Llywodraeth Cymru (2015)

- Archwilio anghenion athrawon ITM a'r mathau o gefnogaeth yr hoffent ei chael fwyaf gan y Canolfannau Rhagoriaeth

## Data newydd ar yr angen am ieithoedd

Cyfeiria adroddiad 2014/15 at ystadegau ac ymchwil allweddol ar werth cymhwysedd mewn iaith dramor i unigolion, busnesau a'r economi a'r gymdeithas ehangach, gan gyplysu hyn â dyheadau Cymru i fod yn gystadleuol a ffynnu yn yr economi fyd-eang.[7] Nid yw'r rhain yn cael eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, mae dau adroddiad a gyhoeddwyd yn y flwyddyn ddiwethaf yn cyflwyno darlun llwm o sut caiff pobl ifanc Cymru eu gadael ar ôl yn yr economi fyd-eang oni ellir gwneud mwy i sicrhau bod iaith dramor yn ffurfio rhan o'u haddysg graidd.

Caiff pobl ifainc Cymreig eu gadael ar ôl yn yr economi byd-eang oni bai y gellir gwneud mwy i sicrhau fod iaith dramor yn ffurfio rhan o'u haddysg graidd

Cyhoeddodd yr Academi Brydeinig lawer iawn o ddata a gasglwyd yn ystod ei phrosiect *Born Global*, a oedd yn cyfeirio at farn mwy na 600 o gyflogwyr.[8] Canfu'r astudiaeth dystiolaeth newydd o alw mawr am bobl ifanc gyda'r sgiliau cyfathrebu ieithyddol, dadansoddol a rhyng-ddiwylliannol ynghyd â'r meddylfryd byd-eang a geir o astudio iaith dramor. Mae'n tynnu sylw at y camddealltwriaeth, y problemau gweithredol, anfodlonrwydd cleientiaid ac anawsterau gyda'r gadwyn gyflenwi y mae cwmnïau sydd heb ddigon o allu ieithoedd yn eu hwynebu, ac yn amlygu prinder ieithyddion difrifol i lenwi swyddi mewn sefydliadau rhyngwladol a rolau arbenigol ym maes cyfieithu, dehongli ac addysgu. Disgrifiodd awdur y prosiect nodweddion y genhedlaeth '*Born Global*' a fydd yn gyrru llwyddiant economaidd i'r dyfodol:

> *'The Born Global Generation will be even more internationally mobile, tech savvy, cosmopolitan and hyper-connected. It is from this generation that we will source future leaders of local and global companies, building the social fabric of our communities and networks worldwide. The key to success will come from cultural and intellectual agility, arising from international experience and the ability to speak more than one language.'*

Fe wnaeth astudiaeth Ewropeaidd Foreign Language Proficiency and Employability dynnu sylw at y fantais gystadleuol sydd gan unigolion sydd â sgiliau iaith ynghyd â gwerth ychwanegol y cyfryw sgiliau i fusnesau ar draws y sbectrwm economaidd. Cyfeiriwyd yn benodol at y manteision gan gyflogwyr yn y gwasanaethau lletyau a bwyd, a'r sector cludo a storio.[9] Roedd yr astudiaeth yn argymell:

> *'National governments, career guidance services and public employment services should inform employees, job-seekers and new entrants about the distinct advantage foreign language skills provide in the labour market.'*[10]

Mae'r dystiolaeth hon yn llwyr gymeradwyo nodau'r polisi Dyfodol Byd-eang ac yn amlygu pwysigrwydd ei lwyddiant.

## Ieithoedd yn y cwricwlwm

Darparai adroddiad Tueddiadau Ieithoedd 2014/15 drosolwg hanesyddol manwl ar ddatblygiad polisïau ar ITM yng Nghymru.[11] Mae nifer o newidiadau wedi digwydd

[7] Board and Tinsley (2015) [8] Holmes (2016) [9] Beadle et al. (2015) [10] Ibid. p. xviii [11] Gweler Board and Tinsley (2015)

ers adroddiad y llynedd. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus*,cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn datblygu cwricwlwm newydd, a fydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf erbyn mis Medi 2018 ac y byddai *Bargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg* yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon. Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad i ddisgyblion 3 i 16 oed; un o'r rhain fydd Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd Cymraeg yn parhau i fod yn orfodol i bob disgybl hyd at 16 oed.

Canfu adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd 2014/15* fod Cymraeg, Saesneg ac ITM yn cael eu hystyried yn y rhan fwyaf o ysgolion fel pynciau cwbl ar wahân, a bod y cyfleoedd i ddysgu un iaith i gefnogi rhai eraill yn cael eu colli. Nid oedd manteision sylweddol dwyieithrwydd felly'n cael eu datblygu'n llawn er mwyn hwyluso dysgu trydedd a phedwaredd iaith.

Canfu adolygiad yn 2013 o'r Gymraeg fel ail iaith gan Lywodraeth Cymru fod hyn, i lawer o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd, yn brofiad diflas iawn ac anogai'r adolygiad newid hanfodol i roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru fwynhau'r holl fanteision o geir o fod yn rhugl a datblygu gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol.[12]

Er mwyn dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r datgysylltiad ymddangosiadol rhwng dysgu Cymraeg ac ITM, fe wnaeth arolwg Tueddiadau Ieithoedd eleni gynnwys nifer o ymweliadau ag ysgolion uwchradd, lle cafodd yr ymchwilwyr gyfle i siarad yn uniongyrchol â disgyblion am eu hamrywiol brofiadau yn dysgu iaith a chasglu barn athrawon a phenaethiaid.

> Canfu adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd 2014/15* fod Cymraeg, Saesneg ac ITM yn cael eu hystyried yn y rhan fwyaf o ysgolion fel pynciau cwbl ar wahân, a bod y cyfleoedd i ddysgu un iaith i gefnogi rhai eraill yn cael eu colli

## Dyfodol Byd-eang

Mae'r cynllun *Dyfodol Byd-eang* yn nodi cyfres glir o gamau i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu cymryd i hybu proffil ITM mewn ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys ymgyrch farchnata a chyfathrebu, darparu rôl-fodelau gyrfa ac iaith fel siaradwyr mewn ysgolion ynghyd â chynllun mentora gan ddefnyddio myfyrwyr iaith israddedig. Mae hefyd yn ymrwymo i adolygu'r dull a ddefnyddia ysgolion o lunio blociau dewisiadau TGAU, ac i edrych ar y ffordd y caiff meysydd llafur arholiadau eu brandio a'u cyflwyno. Drwy'r Canolfannau Rhagoriaeth, bydd yn sicrhau y gall athrawon ITM rwydweithio a rhannu arferion gorau gyda'i gilydd a gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo, a bydd yn defnyddio adnoddau'r Cyngor Prydeinig a sefydliadau iaith megis y Goethe-Institut i ddarparu mwy o ymweliadau a theithiau cyfnewid diwylliannol, sy'n hybu cyfleoedd i ddysgu ac yn ysgogi dysgwyr.

Bydd cydlynu ac arwain camau gweithredu'r rhanddeiliaid allweddol a all helpu i ysgogi newid yn gryn ymdrech. Mae Gweinidogion yn y gorffennol wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r niferoedd isel sy'n dewis astudio ITM yn fater sy'n unigryw i Gymru, ond yn hytrach mae'n ffenomen sy'n effeithio ar y DU gyfan.[13] Er hynny, mae'r cynllun Dyfodol Byd-eang yn wahanol iawn mewn rhai ffyrdd i'r polisïau yn Lloegr a'r Alban sydd wedi cael eu llunio i roi sylw i broblemau tebyg lle mae'r niferoedd sy'n dewis astudio ITM yn lleihau.

Un gwahaniaeth allweddol ydy diffyg adnoddau newydd sylweddol. Fe wnaeth Llywodraeth yr Alban wario £9 miliwn ar ei model 'One plus two' rhwng 2013 a

[12] Llywodraeth Cymru (2013) [13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) p. 14 [14] Denholm (2015)

2015, a £9 miliwn arall yn 2015/16.[14] Fel rhan o'i Strategaeth Iaith Genedlaethol, fe wnaeth Lloegr neilltuo mwy na £35 miliwn y flwyddyn i hyfforddi athrawon, datblygu'r gweithlu a darparu cymorth rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd, gan alluogi'r llywodraeth ddiwethaf ers hynny i wneud addysgu iaith yn orfodol o 7 oed ymlaen.[15] Er mwyn rhoi hwb i'r niferoedd sy'n dewis astudio'r pwnc ar lefel TGAU, mae wedi mabwysiadu dull arall: cymell disgyblion i'w astudio drwy Fagloriaeth Lloegr (EBacc). Mae'r cymhwyster EBacc yn gasgliad o bynciau academaidd traddodiadol, gan gynnwys iaith, sy'n cael ei ddefnyddio fel mesur perfformiad i ysgolion. Ar ôl i'r pwnc gael ei gyflwyno gyntaf, fe wnaeth nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pynciau iaith ar lefel TGAU godi o 40 y cant o'r garfan yn 2011 i 49 y cant yn 2014. Ers hynny, mae'r gyfran hon wedi llithro'n ôl i 48 y cant (ond mae'n dal yn llawer uwch na'r amcangyfrif o 20-25 y cant o ddisgyblion yng Nghymru sy'n cymryd ITM i lefel TGAU), ond mae'r polisi yn awr wedi cael ei gryfhau ymhellach a bydd disgwyl fwyfwy i ysgolion gofrestru o leiaf 90 y cant o'r grŵp oedran ar gyfer TGAU ieithoedd.[16]

Mae arolwg Tueddiadau Ieithoedd Cymru eleni yn canolbwyntio ar y mesurau y mae athrawon yn teimlo a fyddai'n debygol o gynyddu nifer y disgyblion sy'n cymryd ieithoedd – a'r rhwystrau sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n eu hastudio sydd y tu hwnt i ddewis disgyblion neu'u hanwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd gyrfa – er mwyn tynnu sylw at beth arall y gellid ei wneud i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

> Mae arolwg Tueddiadau Iaith eleni ar gyfer Cymru'n canolbwyntio ar... y rhwystrau sy'n effeithio ar ddewis astudio iaith sy'n mynd tu hwnt i hoffterau disgyblion neu anwybodaeth ynghylch cyfleoedd gyrfa – er mwyn amlygu beth mwy gellid ei wneud er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru

## ITM yng Nghyfnod Allweddol 3

Mae asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 wedi dangos ers tro mai cyrraedd y lefel disgwyliedig mewn ITM a Chymraeg Ail Iaith y mae disgyblion yn ei chael anoddaf. Er bod y cyfrannau wedi bod yn cynyddu, yn 2015, fe wnaeth 21 y cant o fechgyn a 10.4 y cant o ferched fethu â chyrraedd y lefel 5 neu uwch ddisgwyliedig mewn ITM. Mae'r cyfrannau ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yn is fyth, sy'n awgrymu bod y methiannau i feithrin sgiliau dysgu iaith yn gysylltiedig.

Canfu Tueddiadau Ieithoedd 2014/15 fod 43 y cant o ysgolion uwchradd yn ddiweddar yn neilltuo llai o amser i addysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, gan ddatgelu tystiolaeth fod nifer amhenodol o ysgolion yn methu â bodloni argymhelliad Estyn i ddarparu o leiaf ddwy awr yr wythnos o ITM.[17] Roedd hyn yn peri pryder, gan fod disgyblion yn debygol o beidio â dewis ITM ar lefel TGAU gan nad oedd ganddynt ond profiad elfennol o ddysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 3. Gofynnodd arolwg 2015/16, felly, faint o amser mae ysgolion yn ei neilltuo ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3, ac a yw hyn yn debygol o ddarparu sylfeini digonol ar gyfer cwrs TGAU.

## Cyrsiau newydd TGAU a Safon Uwch

Mae CBAC bellach wedi cyhoeddi manylebau drafft ar gyfer TGAU a Safon Uwch/UG Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg i'w haddysgu o fis Medi 2016 ymlaen. Mae manylebau gwahanol wedi cael eu cyhoeddi dan frand Eduquas sy'n cydymffurfio

[14] Denholm (2015) [15] Mae'r Cwmni Ieithoedd (2003) [16] Board and Tinsley (2016) [17] Board and Tinsley (2015) p. 23

â'r gofynion newydd ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch yn Lloegr. Er eu bod yn debyg iawn, mae manylebau Cymru yn wahanol i rai Lloegr fel a ganlyn:

- Bydd cymwysterau TGAU Cymru yn parhau i ddefnyddio'r raddfa 8 pwynt A*-G, tra bydd y rhai yn Lloegr yn defnyddio graddfa 9 pwynt o 1-9.
- Mae 'blas' Cymreig ar gynnwys TGAU Cymru a bwriedir iddynt fodloni gofynion Bagloriaeth Cymru.
- Mae cymwysterau Safon UG Cymru yn parhau i fod wedi'u cyplysu â Safon Uwch a gellir eu cymryd mewn camau, tra bod Lloegr yn awr yn mynnu 'datgyplu' Safon UG oddi wrth Safon Uwch, gan fod yr olaf yn arholiad ar wahân a gymerir i gyd ar unwaith ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd. Fel arall, mae'r cynnwys a'r strwythur yn adlewyrchu'r cyrsiau Safon Uwch newydd yn Lloegr.

Mae'r ymchwil Tueddiadau Ieithoedd yn edrych ar effaith y gyfundrefn arholiadau ar y niferoedd sy'n dewis ITM, ac yn ceisio darparu golwg fanylach ar sefyllfa ieithoedd ar ôl-16.

Mae arolwg eleni'n cynnwys data o ymweliadau astudiaeth achos a chyfweliadau gyda disgyblion, athrawon a phenaethiaid

## Tueddiadau Ieithoedd 2015/2016

Mae arolwg eleni yn ychwanegu at y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddarperir yn 2014/15 mewn tair ffordd:

- Mae'n pwyso a mesur gwahanol faterion sy'n effeithio ar addysg uwchradd, gan gynnwys agweddau disgyblion a'r rhesymau pam bod cyn lleied yn dewis astudio ITM
- Mae'n cynnwys data o ymweliadau a chyfweliadau'r astudiaethau achos gyda disgyblion, athrawon a phenaethiaid
- Mae'n cynnwys canfyddiadau o ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae canlyniadau'r arolygon yn cael eu rhagflaenu gan ddadansoddiad o'r ffigurau diweddaraf ar gyfer ymgeiswyr arholiadau TGAU a Safon Uwch, gan amlygu tueddiadau mewn niferoedd er 2002/2003. Mae'r canfyddiadau o'r arolygon gwahanol ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn cael eu cyfuno mewn nifer o gasgliadau ac argymhellion cyffredinol a, gyda lwc, bydd y rhain o ddiddordeb i lunwyr polisïau, arweinyddion ysgolion a sefydliadau cenedlaethol yn ogystal ag athrawon – heb gyfraniad gwerthfawr yr unigolion hyn ni fyddai'r gwaith ymchwil hwn wedi bod yn bosibl.

Pennod 2

# Y dull o ymchwilio a chasglu data



# Hwn yw'r ail rifyn o'r arolwg Tueddiadau Ieithoedd o ysgolion yng Nghymru.

Hwn yw'r ail rifyn o'r arolwg Tueddiadau Ieithoedd o ysgolion yng Nghymru. Cynhaliwyd arolygon tebyg yn Lloegr yn flynyddol er 2002. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf o ysgolion yng Nghymru yn 2014/15, gan ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ysgolion uwchradd. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i wneud Cymru yn 'ddwyieithog a mwy', ac wedi argymell cyflwyno darpariaeth addysgu ITM mewn ysgolion cynradd. Felly, aeth yr ail ymarferiad ymchwilio hwn ati nid yn unig i geisio dyfnhau'r ddealltwriaeth o ffactorau sy'n effeithio ar addysgu ITM mewn ysgolion uwchradd, ond hefyd i gasglu gwybodaeth gan ysgolion cynradd am y ddarpariaeth addysgu ITM bresennol ar y lefel honno, a chlywed eu barn ar ddatblygiadau posibl i'r dyfodol.

Nod yr arolygon yw darparu tystiolaeth i lywio'r gwaith o lunio polisïau drwy weithredu fel sianel ddwyffordd rhwng ysgolion a'r llywodraeth, gan olrhain ar y naill law effaith polisïau'r llywodraeth ar ysgolion ac adlewyrchu ar y llaw arall farn a phrofiadau athrawon iaith wrth iddynt addasu i gyd-destunau newidiol ar gyfer addysgu iaith dramor mewn ysgolion.

Ymdrechodd yr ail ymarfer ymchwil hwn nid yn unig i ddyfnhau dealltwriaeth o ffactorau sy'n effeithio ar addysgu ITM mewn ysgolion uwchradd ond hefyd i gasglu gwybodaeth o ysgolion cynradd ar faint o addysgu Ieithoedd Tramor Modern a wneir ar hyn o bryd ar y lefel honno

## Dadansoddi data arholiadau

Ffigurau ymgeisio a chyflawni ar gyfer arholiadau cyhoeddus megis TGAU a Safon Uwch yw un o'r ychydig ffynonellau data cenedlaethol cynhwysfawr sydd i'w cael ar sefyllfa addysg iaith mewn ysgolion uwchradd. Mae canfyddiadau'r arolwg felly yn cael eu rhagflaenu gan ddata arholiadau ar gyfer ieithoedd er mwyn gosod ymatebion yr ysgolion mewn cyd-destun ehangach a'n galluogi i ddehongli'n fwy manwl. Mae'r data, a ddarperir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), yn cynnwys ymgeiswyr o bob oedran ac o bob math o sefydliadau gan gynnwys ysgolion, colegau addysg bellach (AB) a chanolfannau i oedolion.

## Llunio'r holiaduron

Gwnaed yr holiaduron yn ystod hydref 2015 gan yr ymchwilwyr mewn ymgynghoriad â grŵp ymgynghorol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau sefydliad comisiynu, y Cyngor Prydeinig (Cymru) ac Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg, Estyn, a Phrifysgol Caerdydd/Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Ymgynghorwyd hefyd gyda Llywodraeth Cymru. Cafodd y cwestiynau eu llwytho'n ddwyieithog i'r llwyfan arolwg ar-lein Survey Monkey a chawsant eu treialu ddechrau mis Ionawr 2016. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r meysydd canlynol:

**Holiadur uwchradd**
Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau a oedd yn gyson â'r rhai a ofynnwyd yn 2014/15 at ddibenion dadansoddi hydredol, ac roedd ynddo nifer o gwestiynau newydd y'u bwriedir i edrych yn fanwl ar egin dueddiadau neu gyfeiriadau polisi ac ar y rhai cyfredol.

Mae hefyd yn pwyso a mesur agweddau disgyblion at ITM, camau a gymerwyd i hyrwyddo'r pwnc ac i ba raddau y bu'r cyfryw ymdrechion yn llwyddiannus. Rhoddwyd sylw i'r meysydd canlynol – i gyd yn newydd ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi â seren:

- A yw pob disgybl (neu bron pob un) yn astudio iaith dramor drwy gydol Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7 i 9)*
- Faint o amser y cwricwlwm sy'n cael ei neilltuo ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3
- Pa gyfrannau o ddisgyblion, mewn ysgolion sydd â gwahanol broffiliau, sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4, ac a yw hyn wedi newid dros y tair blynedd diwethaf
- Faint o slotiau dewis pynciau sydd gan ddisgyblion ar gyfer cyrsiau TGAU, heb gyfrif pynciau gorfodol
- A oes unrhyw ddisgyblion yn cael eu hatal rhag astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4*
- Ym marn yr athrawon pa gamau sy'n debygol o gynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd yn eu hysgol
- A yw'r ysgolion eisoes wedi cymryd camau i hyrwyddo ITM, ac os felly, pa mor effeithiol fu'r rhain
- Agweddau disgyblion at ITM
- I ba raddau y mae ysgolion uwchradd yn ymwybodol o'r Canolfannau Rhagoriaeth a grëwyd fel rhan o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru, a beth maent yn gobeithio ei gael oddi wrthynt
- I ba raddau y mae athrawon iaith yn cyfranogi mewn DPP*
- I ba raddau y mae ysgolion uwchradd yn derbyn disgyblion sydd wedi dysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd*
- A oes gan ysgolion uwchradd gysylltiadau gyda'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ynglŷn â dysgu ITM
- Tueddiadau presennol yr ysgol o ran y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd ar ôl-16*
- Rhesymau pam bod niferoedd ITM yn cynyddu/gostwng ar ôl-16

**Holiadur cynradd**

- I ba raddau y mae ysgolion cynradd yn addysgu iaith dramor i ddisgyblion (h.y. yn ogystal â Chymraeg a Saesneg)
- Os ydynt, pa ieithoedd a grwpiau blwyddyn ydynt, pwy sy'n darparu'r addysgu, a pha mor systematig neu strwythuredig ydyw
- Os nad yw ITM yn cael eu haddysgu, beth yw'r prif reswm pam
- I ba raddau y mae ysgolion cynradd yn ymwybodol o gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru
- A fyddai ysgolion cynradd yn croesawu camau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno addysgu ITM mewn ysgolion cynradd
- Pa adnoddau y byddai ysgolion cynradd yn gallu eu defnyddio er mwyn datblygu darpariaeth ar gyfer addysgu ITM

Mae hefyd yn pwyso a mesur agweddau disgyblion at ITM, camau a gymerwyd i hyrwyddo'r pwnc ac i ba raddau y bu'r cyfryw ymdrechion yn llwyddiannus

## Casglu data

Ym mis Ionawr 2016 cafodd gwahoddiad i lenwi'r holiadur ar-lein ei anfon yn Saesneg ac yn Gymraeg i'r 212 o ysgolion uwchradd a'r 1,278 o ysgolion cynradd yng Nghymru, wedi'i gyfeirio at y pennaeth ieithoedd yn achos ysgolion uwchradd a'r pennaeth mewn ysgolion cynradd. Roedd y llythyrau wedi cael eu llofnodi gan brif weithredwyr yr Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg a'r Cyngor Prydeinig.

Anfonwyd llythyrau atgoffa at benaethiaid ieithoedd/penaethiaid i gyrraedd yr ysgolion yr wythnos ar ôl hanner tymor, gyda dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Anfonwyd nodyn atgoffa arall drwy e-bost at yr ysgolion nad oeddent wedi ymateb a chawsant hefyd alwad ffôn gan staff dwyieithog a oedd yn gallu egluro dibenion a phwysigrwydd yr arolwg, a threfnu i fersiynau PDF o'r holiadur gael eu hanfon at rai oedd yn well ganddynt ymateb drwy e-bost neu ar gopi caled. Cafodd yr ymatebion hyn wedyn eu trosglwyddo i gronfa ddata Survey Monkey.

Ymatebodd cyfanswm o 124 o ysgolion uwchradd a 190 o ysgolion cynradd i'r arolwg, gan gynhyrchu cyfraddau ymateb o 58 y cant a 15 y cant, yn y drefn honno. Roedd y gyfradd ymateb gan ysgolion uwchradd ychydig yn is na'r gyfradd yn 2014/15 ond roedd yn dal yn ddigon i fod yn gynrychioliadol o broffil cenedlaethol o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd disgwyl i'r gyfradd ymateb gan ysgolion cynradd fod yn is, o ystyried nad yw ITM yn bwnc cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 2.

Cymharwyd y sampl a gafwyd gyda'r boblogaeth ysgolion genedlaethol (gweler yr Atodiad) ac mae hyn yn dangos bod proffiliau'r ysgolion a ymatebodd yn cyfateb yn dda i ysgolion ledled Cymru o ran y math o ysgol a chyfrwng yr addysgu, er bod tuedd bychan iawn yn yr ymatebion uwchradd at ysgolion cyfrwng Cymraeg. O'u dadansoddi yn ôl ardal consortiwm rhanbarthol, ceir yn gyfatebol fwy o ymatebion uwchradd o ardal ERW (De-orllewin a Chanolbarth Cymru), ac yn gyfatebol lai o Ganol De Cymru a De Ddwyrain Cymru nag a ddisgwylid o ystyried y dosbarthiad cenedlaethol. Mae'r ymatebion gan ysgolion cynradd yn dangos tuedd bychan at ymatebion o Ogledd Cymru, a chynrychiolaeth ychydig yn is o ysgolion cynradd yn ardal ERW.

> Mae proffiliau'r ysgolion a atebodd yn cydweddu'n dda ag ysgolion ledled Cymru

## Dadansoddi'r data

Roedd gan ymchwilwyr ddiddordeb mewn archwilio unrhyw batrymau yn yr ymatebion i'r arolwg yn ôl dangosydd economaidd-gymdeithasol neu fath o ysgol. Mae'r sampl gymharol fach yn golygu, pan gaiff ei dadansoddi ymhellach, fod nifer yr ysgolion ym mhob is-sampl braidd yn fach ac mae'r data ar amrywiant ymatebion, felly, yn llai dibynadwy. Serch hynny, cafodd yr ymatebion i nifer o gwestiynau eu dadansoddi yn ôl dangosydd economaidd-gymdeithasol (chwarteli prydau ysgol am ddim) ac yn ôl y math o ysgol, ac fe'u cynhwyswyd fel siartiau neu sylwebaeth yn y testun lle gellid gweld unrhyw batrymau.

## Ymweliadau a chyfweliadau'r astudiaethau achos

Er mwyn dangos rhai o ganfyddiadau meintiol ac ansoddol yr arolwg, a deall y problemau'n well, mae nifer fechan o astudiaethau achos yn cael eu cynnwys yn yr ymarfer ymchwil eleni. Y nod oedd darparu i athrawon ac eraill sy'n darllen yr adroddiad nifer o enghreifftiau o ysgolion sydd wedi ymrwymo i ddarparu i'w disgyblion brofiadau dysgu ieithoedd cadarnhaol, a chael cyfle i gasglu tystiolaeth ychwanegol gan ddisgyblion a phenaethiaid yn ogystal ag athrawon iaith a oedd yn ymateb i'r arolwg. Dewisodd yr ymchwilwyr bedair ysgol uwchradd i ymweld â nhw, un ym mhob un o'r consortia rhanbarthol.

Y nod oedd darparu i athrawon ac eraill sy'n darllen yr adroddiad nifer o enghreifftiau o ysgolion sydd wedi ymrwymo i ddarparu i'w disgyblion brofiadau dysgu ieithoedd cadarnhaol

**Dethol ysgolion**
Defnyddiwyd y meini prawf canlynol i ddethol ysgolion ar gyfer ymweliadau'r astudiaethau achos:

- Canlyniadau uwch na'r cyfartaledd mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 3
- Niferoedd uwch na'r cyfartaledd yn astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4
- Cyrhaeddiad cyffredinol uwch na'r cyfartaledd yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4, yn ôl mesur trothwy Llywodraeth Cymru ar gyfer Lefel 2, gan gynnwys mathemateg a Saesneg/Cymraeg
- Yng nghategori Gwyrdd neu Ambr Estyn

Y nod oedd cynnwys cymysgedd o ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg ac, os yn bosibl, ysgolion dwyieithog fel astudiaethau achos. Roedd yn anodd canfod ysgolion oedd yn bodloni'r meini prawf hyn oherwydd nad yw'r holl ddata hyn ar gael yn hawdd, ac mae rhai data – er enghraifft, nifer sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 – nad ydynt ar gael yn gyhoeddus o gwbl. Fe wnaeth aelodau o'r grŵp cynghori ddarparu'n garedig i ymchwilwyr restrau o ysgolion a fu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau Llwybrau at Ieithoedd; defnyddiwyd y rhain i lunio rhestr fer o ysgolion i ymweld â nhw. Cafodd y cysylltiadau â'r ysgolion eu cefnogi'n garedig gan y cydlynwyr ITM yn y consortia rhanbarthol. Mewn un achos, cysylltwyd ag ysgol gan iddi ennill gwobr fawreddog gan yr Academi Brydeinig am ei gwaith arloesol gydag ieithoedd.

**Cynnal yr ymweliadau**
Dim ond tair o'r pedair ysgol a enwyd oedd yn gallu cynnal ymweliad yn ystod y cyfnod ymchwilio; felly, mae'r bedwaredd astudiaeth achos yn seiliedig ar gyfweliad ffôn. Cynhaliodd yr ymchwilwyr ymweliad hanner diwrnod â'r tair ysgol arall, lle gwnaethant gyfweld athrawon a chynnal grwpiau ffocws gyda disgyblion. Cawsant hefyd arsylwi gwersi iaith a chyfweld aelod o'r uwch dîm arwain (UDA). Canolbwyntiwyd ar y ddarpariaeth ieithoedd a'r niferoedd oedd yn eu hastudio ym mhob cyfnod allweddol, agweddau disgyblion at ddysgu iaith, a'r rhan yr oedd ieithoedd a chymwysterau iaith yn ei chwarae yn nyheadau disgyblion o safbwynt eu gyrfaoedd i'r dyfodol. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau ei hategu gan ddata a gyhoeddwyd ar wefan Fy Ysgol Leol.[18]

[18] www.fyysgolleol.cymru.gov.uk



Pennod 3

# Data arholiadau ysgolion yng Nghymru



# Cymerwyd y ffigurau isod o ystadegau CGC a gyhoeddir bob mis Awst am y niferoedd sy'n sefyll arholiadau.

Mae'r ffigurau'n cynnwys yr holl ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch yng Nghymru, gan gynnwys ymgeiswyr darparwyr addysg bellach, oedolion a gwirfoddol. Ar gyfer 2001 y mae'r ffigurau cynharaf sydd ar gael o safbwynt Safon Uwch ac ar gyfer 2002 o safbwynt TGAU, a ffigurau ar gyfer 2015 yw'r rhai diweddaraf sydd ar gael.

> O ddadansoddi'r tueddiadau yn nifer yr ymgeiswyr er 2002 gwelir bod nifer yr ymgeiswyr ITM ar lefel TGAU wedi syrthio 44 y cant rhwng 2002 a 2015

## TGAU

Pan gyhoeddwyd canlyniadau Cymru ar gyfer haf 2015, adroddodd y CGC fod nifer yr ymgeiswyr wedi parhau i syrthio ar gyfer Ffrangeg ac Almaeneg, ond y bu cynnydd ar gyfer Sbaeneg. Syrthiodd nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Ffrangeg 4.1 y cant rhwng 2014 a 2015, tra bod nifer yr ymgeiswyr ar gyfer Almaeneg wedi gostwng 17.5 y cant. Dangosodd Sbaeneg gynnydd o 7.2 y cant sy'n gwrth-droi gostyngiad tebyg iawn yn y flwyddyn flaenorol. Adroddodd y CGC hefyd fod canlyniadau wedi syrthio 1.5 pwynt canran yng ngraddau A*-C ar gyfer Ffrangeg, 0.6 pwynt canran ar gyfer Almaeneg a 1.2 pwynt canran ar gyfer Sbaeneg. Fodd bynnag, ym mhob un o'r ieithoedd fe wnaeth ymhell dros 70 y cant o'r ymgeiswyr ennill graddau A*-C o hyd.

O ddadansoddi'r tueddiadau yn nifer yr ymgeiswyr er 2002 gwelir bod nifer yr ymgeiswyr ITM ar lefel TGAU wedi syrthio 44 y cant rhwng 2002 a 2015 – er bod yr ymgeiswyr ar gyfer pob pwnc hefyd wedi gostwng 10 y cant yn ystod yr un cyfnod. Mae'r gostyngiadau mwyaf i'w gweld mewn Ffrangeg ac Almaeneg sef, yn draddodiadol, yr ieithoedd tramor a addysgir yn fwyaf cyffredin mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r ymgeiswyr ar gyfer Ffrangeg bellach yn llai na hanner (47 y cant) o'r hyn yr oeddent yn 2002 ac nid yw'r ymgeiswyr ar gyfer Almaeneg yn ddim ond tua thraean (36 y cant) o'r ffigur a gofnodwyd yn 2002. Fodd bynnag, fel y mae Ffigur 1 yn dangos, mae'r ymgeiswyr ar gyfer Sbaeneg wedi cynyddu, er yn afreolaidd, o sylfaen isel.

Fe wnaeth y gymhareb ymgeiswyr Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg cyfun i ymgeiswyr ar draws pob pwnc ostwng 5 y cant yn 2002 i ychydig dan 3 y cant yn 2015, gan gwympo 0.1 y cant rhwng 2014 a 2015.

FFIGUR 1: YMGEISWYR ITM TGAU YNG NGHYMRU, 2002–2015




| | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 10,178 | 10,100 | 9,605 | 8,997 | 8,851 | 8,343 | 7,944 | 7,303 | 7,092 | 6,102 | 5,990 | 5,911 | 5,015 | 4,810 |
| Almaeneg | 2,836 | 2,706 | 2,699 | 2,467 | 2,346 | 2,144 | 2,133 | 2,025 | 1,809 | 1,433 | 1,326 | 1,266 | 1,220 | 1,007 |
| Sbaeneg | 1,119 | 1,327 | 1,411 | 1,431 | 1,544 | 1,684 | 1,630 | 1,802 | 1,831 | 1,774 | 1,535 | 1,793 | 1,702 | 1,831 |
| Arall | 497 | 432 | 489 | 474 | 456 | 498 | 435 | 545 | 577 | 311 | 488 | 483 | 556 | 570 |

## Ymgeiswyr TGAU ar gyfer ITM yn ôl rhyw

Ceir llawer mwy o ymgeiswyr benywaidd nag ymgeiswyr gwrywaidd ym mhob pwnc iaith, a menywod sydd i gyfrif am 62 y cant o'r ymgeiswyr. Mae'r ymgeiswyr ar gyfer Sbaeneg yn dangos y tuedd mwyaf at ymgeiswyr benywaidd, er mai ymgeiswyr benywaidd yw'r lleiafrif ar gyfer 'Ieithoedd Eraill' (gweler Ffigur 2). Nid yw'r tuedd at ymgeiswyr benywaidd wedi newid yn sylweddol er 2002, pan oedd y gymhareb yn 61 cant o fenywod i 39 y cant o fechgyn.

## Ieithoedd eraill

Yn y categori 'Ieithoedd eraill' ceir 16 o ieithoedd tramor modern pellach posibl, yn ychwanegol at y Wyddeleg, Lladin a Groeg Hynafol, sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ar lefel TGAU; fodd bynnag, nid yw'r CGC yn gallu cyflwyno dadansoddiad o'r rhain ar gyfer Cymru oherwydd bod y niferoedd yn fach iawn. Mae'n debygol bod llawer o'r ymgeiswyr yn y categori 'Ieithoedd eraill' wedi dod o'r sectorau addysg bellach, gwirfoddol neu oedolion oherwydd bod canlyniadau'r arolwg hwn yn dangos mai ychydig iawn o ieithoedd eraill ar wahân i Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg sy'n cael eu haddysgu yn ysgolion Cymru.

## Data gan Ystadegau Cymru

Yn wahanol i'r Adran Addysg yn Lloegr, nid yw Ystadegau Cymru yn cyhoeddi data ar y gyfran o'r garfan 15 oed sy'n cymryd gwahanol bynciau. Fodd bynnag, maent yn cyhoeddi niferoedd crai (gweler Tabl 1). Dengys y data hwn nad yw nifer y bobl ifanc 15 oed sy'n cymryd pob pwnc ITM yn gyfunol ond yn ddwy ran o dair o'r nifer sy'n cymryd hanes neu wyddoniaeth ychwanegol, ac nid yw ond yn 23 y cant o'r nifer sy'n cymryd mathemateg.

Mae'r nifer cyfunol o ddisgyblion 15 oed sy'n cymryd pob pwnc ITM yn dod i ddim ond dwy ran o dair o'r nifer sy'n cymryd hanes neu wyddoniaeth ychwanegol, ac yn ddim ond 23 y cant o'r nifer sy'n cymryd mathemateg

FFIGUR 2: TGAU CYMHAREB YMGEISWYR BENYWAIDD I YMGEISWYR GWRYWAIDD, PYNCIAU ITM, 2015




TABL 1: NIFER YR YMGEISWYR 15 OED SY'N CYMRYD PYNCIAU DETHOL, 2015

| Pwnc | Nifer yr ymgeiswyr 15 oed, 2015 |
|---|---|
| Ffrangeg | 4,793 |
| Almaeneg | 1,024 |
| Sbaeneg | 1,745 |
| Ieithoedd eraill | 394 |
| Pob ITM | 7,956 |
| Hanes | 11,667 |
| Ychwanegol gwyddoniaeth | 11,927 |
| Mathemateg | 34,871 |

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup

## Safon Uwch

Fel yr adroddwyd yn yr arolwg Tueddiadau Ieithoedd 2014, roedd yr ymgeiswyr ar gyfer pynciau ITM ar lefel Safon Uwch wedi aros yn sefydlog rhwng 2001 a 2006, ond ers hynny mae'r prif ieithoedd wedi gweld gostyngiadau mawr (gweler Ffigur 3). Tra bod ymgeiswyr ar gyfer pynciau Safon Uwch yn gyffredinol wedi cynyddu 8 y cant er 2001, mae'r ymgeiswyr ar gyfer ITM wedi gostwng 38 y cant. Mae'r ymgeiswyr ar gyfer Ffrangeg yn awr yn 45 y cant o'r lefel yn 2001, gostyngiad o fwy na hanner, tra bod Almaeneg wedi colli mwy na dwy ran o dair o'r ymgeiswyr dros yr un cyfnod (-68 y cant). Er i Sbaeneg gynyddu ei niferoedd ar lefel TGAU mae wedi colli 4 y cant o'r ymgeiswyr ar lefel Safon Uwch er 2001. Dim ond 'Ieithoedd Eraill' sy'n dangos cynnydd, gyda niferoedd yn codi o 47 yn unig yn 2001 i 239 y llynedd (mwy na naill ai Almaeneg neu Sbaeneg). Mae hyn yn fwyaf tebygol yn adlewyrchu presenoldeb cynyddol disgyblion yn ysgolion Cymru sydd ag ieithoedd cartref ar wahân i Saesneg a Chymraeg.

FFIGUR 3: YMGEISWYR ITM AR LEFEL SAFON UWCH YNG NGHYMRU, 2001–2015




| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 1,029 | 978 | 1,014 | 1,041 | 1,021 | 1,055 | 987 | 937 | 866 | 711 | 641 | 612 | 473 | 468 | 460 |
| Almaeneg | 376 | 337 | 320 | 333 | 288 | 283 | 298 | 252 | 244 | 209 | 179 | 170 | 144 | 114 | 121 |
| Sbaeneg | 228 | 228 | 226 | 211 | 214 | 253 | 262 | 220 | 268 | 220 | 244 | 216 | 215 | 167 | 219 |
| Arall | 47 | 83 | 120 | 149 | 110 | 151 | 133 | 160 | 143 | 172 | 191 | 232 | 196 | 221 | 239 |

Un arwydd cadarnhaol yw bod nifer yr ymgeiswyr ar gyfer ITM Safon Uwch yn 2015, ar wahân i'r rhai ar gyfer Ffrangeg, wedi cynyddu, gyda Sbaeneg yn dangos 'sbonc' o 31 cant. Mae'r cynnydd hwn yn gwneud iawn yn rhannol am ostyngiad amlwg iawn mewn Sbaeneg ac Almaeneg rhwng 2013 a 2014. Fodd bynnag, ychydig o le i fod yn optimistaidd a geir o'r tuedd tymor hwy a ddangosa'r ffigurau.

Un arwydd cadarnhaol yw bod nifer yr ymgeiswyr ar gyfer ITM Safon Uwch yn 2015, ar wahân i'r rhai ar gyfer Ffrangeg, wedi cynyddu, gyda Sbaeneg yn dangos 'sbonc' o 31 cant

**Ymgeiswyr Safon Uwch mewn ITM yn ôl rhyw**

Mae'r tuedd ar sail rhyw ar lefel Safon Uwch yn fwy amlwg nag ydyw ar lefel TGAU: benywod yw 67 y cant o'r ymgeiswyr ar gyfer pynciau ITM. Fel gydag ymgeiswyr

TGAU, Sbaeneg yw'r iaith fwyaf nodedig o ran y rhywiau, gyda mwy na thri chwarter (76 y cant) o'r ymgeiswyr yn fenywaidd, wedyn Ffrangeg gyda 72 y cant o'r ymgeiswyr yn fenywaidd. Mae gan Almaeneg gymhareb uwch o fechgyn (38 y cant) ac mae 'Ieithoedd Eraill' yn dangos patrwm mwy cyfartal o ymgeiswyr rhwng y ddau ryw (48 y cant o fechgyn, 52 y cant o ferched).

FFIGUR 4: SAFON UWCH CYMHAREB YR YMGEISWYR BENYWAIDD I YMGEISWYR GWRYWAIDD, PYNCIAU ITM, 2015




**Ieithoedd eraill**

Fel y gwelir uchod, nid yw 'Ieithoedd Eraill' yn gyffredinol yn cael eu dysgu fel pynciau prif ffrwd mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n bosibl y dônt o'r sector AB neu addysg i oedolion, neu gan ddisgyblion sydd â mynediad i'r ieithoedd hynny yn eu cartrefi a'u cymunedau, ac sy'n paratoi ar gyfer arholiadau y tu allan i'r prif ddiwrnod ysgol. Mae cyfanswm o 17 o ieithoedd eraill yn ychwanegol at y tair prif iaith Ewropeaidd yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ar lefel Safon Uwch, ond nid yw'r CGC yn darparu dadansoddiad o'r ymgeiswyr hyn ar gyfer Cymru yn unig, heblaw am nodi nad oedd unrhyw ymgeiswyr ar gyfer Gwyddeleg.

Pennod 4

# Canfyddiadau o'r arolwg o ysgolion uwchradd



# Roedd arolwg eleni o ysgolion uwchradd yn edrych ar y ddarpariaeth ac ar y niferoedd sy'n astudio ITM yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, ac ôl-16 oed.

Er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd 2014/15*, ac i greu darlun mwy manwl o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ddarpariaeth ac ar y niferoedd sy'n astudio ITM, roedd rhai o gwestiynau arolwg eleni'n wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd y llynedd tra bod eraill yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd yn 2014/15 er mwyn hwyluso dadansoddiad hydredol. Ymhlith y meysydd newydd a astudiwyd roedd agweddau disgyblion tuag at ITM, mesurau a gymerwyd i hyrwyddo'r pwnc ac i ba raddau y mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus.

Ymhlith y meysydd newydd a astudiwyd roedd agweddau disgyblion tuag at ITM, mesurau a gymerwyd i hyrwyddo'r pwnc ac i ba raddau y mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus

## Cyfnod Allweddol 3

**A yw pob (neu bron pob) disgybl yn astudio iaith dramor trwy gydol Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7 i 9)?**

Dywedodd bron pob ysgol yn yr arolwg, ac eithrio pedair yn unig, fod pob disgybl yn astudio iaith dramor trwy gydol Cyfnod Allweddol 3. Yn y rhai lle nad oedd hyn yn digwydd, dywed yr ysgolion fod nifer cymharol fach o ddisgyblion wedi eu 'datgymhwyso' am fod ganddynt anawsterau dysgu penodol a bod angen cymorth ychwanegol arnynt:

> *'mae 14 y cant ym Mlwyddyn 9 yn cael eu tynnu'n ôl ar gyfer llythrennedd.'*
>
> *'Mae disgyblion sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith yn aml yn cael eu datgymhwyso o Ffrangeg. Gall hyn amrywio rhwng 3–5 y cant o'r garfan ym mhob blwyddyn ysgol.'*
>
> *'5%, weithiau heb drafodaeth gyda mi fel pennaeth adran.'*

Yn arolwg 2014/15, roedd y gyfran a ddywedodd nad oedd pob / bron pob disgybl yn astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 fymryn yn uwch na 5 y cant, er bod 29 y cant yn dweud bod rhai disgyblion gallu is wedi cael eu 'datgymhwyso' (tybir fod hynny'n cyfeirio at unigolion, yn hytrach na grwpiau o ddisgyblion).

**Faint o amser y cwricwlwm sy'n cael ei neilltuo mewn wythnos i ITM yng Nghyfnod Allweddol 3?**

Roedd mwyafrif yr ysgolion, dros ddau draean ym mhob achos, yn neilltuo 1–2 awr yr wythnos ar gyfer ITM ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 (gweler Ffigur 5). Er ei bod yn anghyffredin i ysgolion neilltuo llai nag un awr yr wythnos, nid oedd tua 40 y cant o ysgolion yn cyrraedd argymhelliad Estyn isafswm o ddwy awr yr wythnos.[19] Dim ond tua chwarter yr ysgolion (ychydig yn fwy ym Mlynyddoedd 7 a 9) sy'n neilltuo mwy na dwy awr yr wythnos. Yn arolwg 2014/15, dywedodd 43 y cant o ysgolion bod amser gwersi ar gyfer ITM yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi lleihau, gyda 7 y cant yn dweud ei fod wedi cynyddu.

[19] Mae hyn yn cyferbynnu â Lloegr lle, yn 2013/14, dim ond 10 y cant o ysgolion a oedd yn neilltuo llai na dwy awr ac roedd mwyafrif yr ysgolion (52 y cant) yn neilltuo 2.5 –3 awr. Board a Tinsley (2014), tud 70.

FFIGUR 5: AMSER CWRICWLWM WYTHNOSOL AR GYFER ITM




Ceir rhagor o fanylion ar drefnu amser y cwricwlwm ar gyfer ITM yn y sylwadau canlynol gan ymatebwyr i arolwg eleni:

> *'Mae ein setiau uchaf ym Mlwyddyn 9 yn cael dwy awr yr wythnos. Mae dosbarthiadau eraill Blwyddyn 9 yn cael dwy neu dair awr pob pythefnos. Mae pob grŵp ym Mlynyddoedd 7 ac 8 yn cael dwy neu dair awr pob pythefnos.'*

> *'Mae Blwyddyn 7 yn cael pedair awr o Ffrangeg pob pythefnos. Mae setiau uchaf Blynyddoedd 8 a 9 yn cael tair awr o Ffrangeg pob pythefnos a dwy awr o Sbaeneg pob pythefnos. Mae setiau is Blynyddoedd 8 a 9 yn cael tair awr o Ffrangeg pob pythefnos.'*

Lle mae rhai ysgolion wedi lleihau Cyfnod Allweddol 3 i ddwy flynedd, mae hyn wedi golygu bod astudiaethau ITM yn cael eu cwtogi ar ôl dim ond dwy flynedd:

> *'Yn ystod y pedair blynedd diwethaf mae'r ysgol wedi cwtogi nifer y gwersi (50 munud) sy'n cael eu dysgu ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9. Rydym wedi torri'n ôl o bum gwers pob pythefnos i dair gwers pob pythefnos.'*

Er mwyn ymchwilio i unrhyw gydberthynas rhwng statws economaidd gymdeithasol poblogaeth yr ysgol (sy'n cael ei ddangos gan gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) a faint o amser a neilltuir i ITM yng Nghyfnod Allweddol 3, cafodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn eu dadansoddi'n ôl cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob ysgol, wedi'u grwpio mewn chwartelau. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod ysgolion sy'n neilltuo llai na dwy awr i ieithoedd yn fwy tebygol o fod yn y chwartel prydau ysgol am ddim uchel (52 y cant ar draws pob grŵp Blwyddyn 8, o'i gymharu â 43 y cant ar draws pob ysgol).

Mae ysgolion sy'n neilltuo llai na dwy awr i ieithoedd yn fwy tebygol o fod yn y chwartel Prydau Ysgol am Ddim (FSM) uchel

Canfu'r arolwg Tueddiadau Ieithoedd cyntaf a gynhaliwyd yn 2014/15 fod 43 y cant o ysgolion wedi dweud eu bod wedi cwtogi'r amser a neilltuir i wersi ITM. Er na ofynnwyd y cwestiwn hwn yn arolwg eleni, cafodd y mater ei godi mewn nifer o sylwadau rhydd gan ymatebwyr.

## Cyfnod Allweddol 4

**Pa ganran o ddisgyblion sy'n astudio ITM yng Nghyfnod Allweddol 4?**
Mae'n eithriadol o brin i ysgol yng Nghymru fod â mwy na hanner ei disgyblion yn astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 – dim ond tair ysgol yn yr arolwg a nododd fod mwy na 50 y cant yn astudio iaith ym Mlwyddyn 10. Fel y mae Ffigur 6 yn ei ddangos, llai na thraean yr ysgolion sydd â mwy na 25 y cant o'u disgyblion yn dilyn iaith y tu hwnt i'r cyfnod gorfodol, gyda bron i hanner yr ysgolion yn dweud bod y nifer rhwng 11 a 24 y cant. Mewn bron i chwarter yr ysgolion (24 y cant), mae'r niferoedd sy'n astudio ITM yn llai nag un o bob deg disgybl ym Mlwyddyn 10. Dywedodd 60 y cant o ysgolion fod nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi gostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf, gyda dim ond 15 y cant yn dweud eu bod wedi cynyddu (gweler Ffigur 7).

llai na thraean yr ysgolion sydd â mwy na 25 y cant o'u disgyblion yn dilyn iaith y tu hwnt i'r cyfnod gorfodol

FFIGUR 6: CYFRAN Y DISGYBLION SY'N ASTUDIO ITM YM MLYNYDDOEDD 10 AC 11




FFIGUR 7: YSGOLION SY'N ADRODD SUT Y MAE CYFRAN Y DISGYBLION SY'N ASTUDIO IAITH DRAMOR YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4 WEDI NEWID YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DIWETHAF



Mae cyfuno ymatebion i'r ddau gwestiwn uchod yn dangos bod 11 o'r 19 o ysgolion lle mae disgyblion yn awr yn astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4, bod y niferoedd yn dal o dan 25 y cant, ac mewn un achos mae o dan 10 y cant. Yn y tair ysgol lle mae'r ganran yn fwy na 50 y cant bu'r niferoedd yn weddol gyson (gweler Tabl 2).

TABL 2: NEWIDIADAU YN Y NIFEROEDD SY'N ASTUDIO ITM YN ÔL Y CANRANNAU CYFREDOL O DDISGYBLION SY'N ASTUDIO'R PWNC YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4

| | Pa ganran o'r disgyblion yn eich ysgol sydd ar hyn o bryd yn astudio iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 4? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 10% neu'n llai | 11-24% | 25-49% | 50-75% | Cyfanswn |
| Mae mwy o ddisgyblion yn astudio iaith | 1 | 10 | 8 | 0 | **19** |
| Mae'r niferoedd wedi aros yn weddol gyson | 9 | 7 | 11 | 3 | **30** |
| Mai llai o ddisgyblion yn astudio iaith dramor fodern yng Ngham Allweddol 4 | 19 | 39 | 16 | 0 | **74** |
| Cyfanswn | **29** | **56** | **35** | **3** | **123** |

Er mwyn ymchwilio i unrhyw gydberthynas rhwng statws economaidd gymdeithasol poblogaeth yr ysgol (fel y dangosir gan gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) ag ysgolion â niferoedd isel iawn sy'n astudio ITM, cafodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn eu dadansoddi'n ôl cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob ysgol, wedi'u grwpio'n chwartelau. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos tuedd amlwg bod ysgolion sydd â nifer uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynnwys cyfrannau isel o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 (gweler Ffigur 8).

Mae gan ysgolion â niferoedd uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn FSM gyfrannau isel o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4

FFIGUR 8: YSGOLION GYDA 10 Y CANT NEU LAI O DDISGYBLION YN ASTUDIO ITM YM MLWYDDYN 10, YN ÔL CHWARTEL PRYDAU YSGOL AM DDIM



Roedd patrwm tebyg i'w weld ym Mlwyddyn 11 hefyd. Ceir tystiolaeth bellach o gydberthynas rhwng niferoedd sy'n astudio ieithoedd a ffactorau economaidd gymdeithasol gan y tair ysgol yn yr ymchwil sydd â mwy na 50 y cant yn astudio ITM ym Mlwyddyn 10, gyda phob un ohonynt yn y chwartel isaf o ran nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid oes patrwm mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl math o ysgol, cyfrwng eu dysgu na rhanbarth. Yn yr un modd, nid yw nodweddion ysgol yn effeithio ar y tebygolrwydd y byddant yn adrodd cynnydd neu ostyngiad yn y niferoedd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae'r dystiolaeth ansoddol gan ddau ymatebwr sy'n egluro'r rhesymau am eu llwyddiant i gynyddu niferoedd y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn awgrymu rhai gwersi pwysig ar sut y gellid cyflawni hyn yn fwy cyffredinol:

> *'Addysgu o safon uchel trwy gydol Cyfnod Allweddol 3. Digon o amser yn y cwricwlwm. Mewn blociau dewisiadau mae ITM yn cystadlu yn erbyn tri phwnc arall yn unig. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth – teithiau cyfnewid, siaradwyr. Mae gennym glybiau ar ôl ysgol, llysgenhadon iaith hyfforddedig ar gyfer disgyblion (PLA), Diwrnod Dysgu Estynedig (EDL) – mae pob un o'r rhain yn codi proffil ITM yn yr ysgol. Rydym wedi cael canlyniadau ardderchog mewn TGAU a Lefel A.'*

> *'Gwaith caled gan yr adran, manteisio ar help gan CILT Cymru,*[20] *Llwybrau at Ieithoedd, sgyrsiau gan hyrwyddwyr iaith busnes, tripiau i Baris, rhoi pwyslais ar fanteision ITM o ran gwneud cais i brifysgolion, sgiliau cyfathrebu, cynllun Erasmus+, dysgu sut i ddysgu ITM fel y gallant ddysgu mwy'n ddiweddarach. Perswadio'r uwch dîm arwain i roi'r gorau i'r arfer o ddysgu rhai gwersi llythrennedd yn lle ITM yng Nghyfnod Allweddol S3.'*

Mae ymatebwyr sy'n sôn am ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 yn y tair blynedd diwethaf yn tynnu sylw at Fagloriaeth Cymru a'r pwysau ar opsiynau dewis fel y rhesymau am hyn:

> *'Y prif resymau yw datblygiad y Bac newydd sydd wedi lleihau faint o amser sydd ar gael i bynciau opsiwn yn ogystal a'r arholiadau TGAU newydd yn y pynciau craidd sydd angen mwy o amser hefyd. Cyflwyno pynciau TGAU newydd megis seicoleg ac economeg. Gormod o ddysgwyr set 1 yn astudio pynciau ymarferol.'*

> *'Mae mwy o bwysau ar opsiynau dewis; mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru wedi cyfyngu'r dewis ymhellach ac mae wedi cael effaith ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer pynciau di-graidd; mae cyflwyno gwersi llythrennedd annibynnol ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 3 ar draul amser pynciau di-graidd yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion weithio'n galetach i wneud cynnydd digonol i allu ymdopi â dechrau TGAU, sy'n ychwanegu at yr argraff bod ITM yn anodd.'*

> *'Mae'r ganran sy'n astudio iaith ym Mlwyddyn 10 yn llai erbyn hyn. Mae'r Bac wedi cyfyngu ar ddewisiadau'r plant felly mae llai wedi penderfynu parhau ag iaith.'*

> *'Opsiwn gwyddoniaeth Triphlyg wedi'i ddechrau felly teimlad ein bod yn colli disgyblion galluog fyddai'n flaenorol wedi gwneud gwyddoniaeth dwbl gyda iaith fodern'.'*

Mae ymatebwyr sy'n sôn am ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 yn y tair blynedd diwethaf yn tynnu sylw at Fagloriaeth Cymru a'r pwysau ar opsiynau dewis fel y rhesymau am hyn

[20] Daeth CILT Cymru i ben yng Ngorffennaf 2015.

*'Mae opsiynau dewis yn gyfyngedig iawn. Mae Ffrangeg yn cael ei ystyried fel TGAU anodd. Maent yn gwneud Cymraeg yn barod felly nid ydynt yn gweld pam bod angen ail iaith arnynt'*

**Faint o slotiau ar gyfer opsiynau dewis rhydd sydd gan ddisgyblion ar gyfer TGAU?**

Dywed mwyafrif yr ysgolion fod ganddynt dri opsiwn dewis rhydd, ac mae sylwadau'n dangos bod nifer yr opsiynau 'rhydd' yn gostwng:

*'4, ond mae hyn yn gostwng i 3 ar gyfer y Flwyddyn 9 bresennol ac yn y blynyddoedd dilynol.'*

*'2–5, gan ddibynnu faint o bynciau gwyddoniaeth maent yn eu hastudio.'*

*'5 colofn opsiynau – mae ieithoedd yn ymddangos mewn 2 yn unig.'*

*'O'r flwyddyn yma ymlaen bydd tair colofn a rhaid i fyfyrwyr ddewis un o bob un gan ein bod yn cyflwyno Bagloriaeth Cymru.'*

**A oes myfyrwyr yn cael eu hatal rhag astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 4?**

Mae ymatebion yn dangos bod ITM yn ddewis rhydd yn y rhan fwyaf o ysgolion, gyda llai na chwarter yr ysgolion yn cyfyngu ar y dewis (mae'r darlun hwn yn debyg iawn i Loegr). Gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd yn arolwg 2014/15 (gweler Ffigur 9). Mae'r amrywiadau rhwng y ddwy set o ymatebion yn fwy tebygol o fod yn ganlyniad y sampl o ysgolion a ymatebodd yn hytrach nag adlewyrchiad o newidiadau ym mholisïau ysgolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae caniatáu pob disgybl i ddewis astudio ITM yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, ond nid yw ITM yn gwneud yn dda os oes cyn lleied o slotiau ar gael a chymaint o gystadleuaeth o gyfeiriad pynciau eraill.

Nid yw ITM yn gwneud yn dda pan fod cyn lleied o slotiau amser ar gael a chymaint o gystadleuaeth oddi wrth bynciau eraill

FFIGUR 9: P'RUN AI A ALL POB UN DISGYBL A FO'N DYMUNO ASTUDIO IAITH DRAMOR FODERN WNEUD HYNNY YNG NGHYFNOD ALLWEDDOL 4




Mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i arolwg eleni'n cynnig tystiolaeth o wrthdaro rhwng blociau dewisiadau, sydd weithiau'n gallu atal disgyblion rhag dewis astudio iaith:

*'Pob blwyddyn mae myfyrwyr yn cwyno am "wrthdaro" yn y colofnau dewisiadau. Mae Sbaeneg yn colli bechgyn, a rhai merched i Ymarfer Corff, er enghraifft. Eleni rydym yn yr un golofn â gwyddoniaeth driphlyg, sy'n eithriadol o boblogaidd yn ein hysgol ni.'*

*'Mae disgyblion sy'n dymuno astudio Ffrangeg yn aml yn cael eu rhwystro rhag gwneud hynny oherwydd y diffyg dewisiadau a gwrthdaro rhwng diddordebau yn y blociau dewisiadau.'*

Dywed eraill, er gwaethaf y polisi sy'n dweud y gall pwy bynnag sy'n dymuno astudio iaith wneud hynny, mae llawer o ddisgyblion y tybir nad ydynt yn debygol ennill gradd C yn eu TGAU yn cael eu hannog neu eu 'harwain' i astudio pwnc arall, haws:

*'Polisi'r adran ITM yw y byddwn yn derbyn pawb sydd â diddordeb. Polisi swyddogol yr ysgol yw y gall pob disgybl astudio pa bynnag bynciau y mynnant. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion wedi nodi achosion lle dywedwyd wrthynt gan yr uwch dîm arwain naill ai y byddai'n well pe byddent yn dewis pwnc gwahanol neu er bod ITM yn cael ei gynnig, mae'n bosibl na fydd digon yn dewis cyrsiau ITM i allu eu cynnal, ac felly efallai y dylai'r disgybl ystyried cwrs arall – ac felly mae'n amlwg beth fydd y canlyniad.'*

*'Nid oes arholiad hygyrch ar gyfer myfyrwyr gwannach sy'n awyddus i fwrw ymlaen â'u hastudiaethau. O ganlyniad, maent yn cael eu hannog i ddilyn pynciau eraill i sicrhau eu bod yn pasio – rhaid i ni / nhw ystyried eu dyfodol.'*

*'Yn ein hysgol ni, dywedir yn bendant wrth ddisgyblion o setiau is sy'n annhebygol o gyflawni C neu uwch i ystyried dewisiadau eraill. Maent felly'n dal i gael y dewis ond anabl iawn y byddant yn ei ddewis yn y diwedd.'*

Mae'r sylwadau hyn yn amlygu statws isel ITM mewn llawer o ysgolion. Pan fydd hyn yn arwain at niferoedd isel iawn sy'n dewis astudio iaith, yna mae'n fater o hyfywedd ariannol:

*'Caniateir i bob myfyriwr ddewis unrhyw bwnc y mynnant, ond ni fydd dosbarth yn cael ei gynnal os na fydd o leiaf 10 o fyfyrwyr yn dewis y pwnc. O ganlyniad, nid yw rhai disgyblion wedi gallu astudio'r pwnc o'u dewis am nad oes digon o fyfyrwyr i gynnal y dosbarth.'*

**Pa fesurau sy'n debygol o gynyddu'r niferoedd sy'n dewis ITM?**

Mae'r cwestiwn hwn wedi cynhyrchu data cyfoethog. Dywed bron pob un o'r ymatebwyr (98 y cant) y byddai gwella cyngor gyrfaoedd ar ieithoedd yn bendant neu fwy na thebyg yn cynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yn eu hysgol; dywed dau draean y byddai'n bendant o gael effaith. Y mesur hwn sy'n cael y gefnogaeth gryfaf gan ymatebwyr (gweler Ffigur 10). Dywed dros hanner yr ymatebwyr y byddai sicrhau bod ITM yn ymddangos ym mhob bloc dewisiadau a gwella asesu a marcio'r arholiad TGAU yn bendant yn cynyddu'r niferoedd, gydag oddeutu traean arall yn dweud y byddai'r mesurau hyn fwy na thebyg yn cael effaith. Mae mwyafrif llethol yr ymatebwyr (80/83 y cant) hefyd yn credu y byddai gwella cynnwys yr arholiad TGAU, neu gynyddu nifer y dewisiadau rhydd, yn cael effaith bositif ar y niferoedd. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr (92 y cant) o blaid cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio'r iaith maent yn ei dysgu y tu allan i'r ystafell dosbarth (er enghraifft, trwy dripiau tramor neu'r defnydd o Gynorthwywyr Ieithoedd Tramor (FLA)), ond llai na'u hanner sy'n dweud eu bod yn bendant y byddai hyn yn cael effaith – gyda mwy'n dweud y byddai'n debygol o gael effaith. Y mesur a ffefrir leiaf gan yr ymatebwyr yw cynyddu amser y cwricwlwm ar gyfer ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 (mae 18 y cant yn credu y byddai hyn yn

Dywed dros hanner yr ymatebwyr y byddai sicrhau bod ITM yn ymddangos ym mhob bloc dewisiadau a gwella asesu a marcio'r arholiad TGAU yn bendant yn cynyddu'r niferoedd, gydag oddeutu traean arall yn dweud y byddai'r mesurau hyn fwy na thebyg yn cael effaith

bendant yn cynyddu niferoedd, ac mae 27 y cant yn credu y byddai'n debygol). Mae hyn yn gwneud synnwyr, gan fod disgyblion yn gwneud eu dewisiadau cyn dechrau Cyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, mae dau draean yr ymatebwyr (66 y cant) yn credu y byddai cynyddu amser ar gyfer ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cael effaith bositif ar y niferoedd a fyddai'n astudio'r pwnc. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai sy'n credu y byddai'n bendant yn cynyddu niferoedd a rhai sy'n credu y byddai'n debygol o fod yn effeithiol.

Mae tua hanner yr ymatebwyr (49 y cant) yn credu y byddai cyflwyno dysgu ITM mewn ysgolion cynradd yn bendant yn cynyddu nifer y rhai a fyddai'n eu hastudio mewn ysgolion uwchradd, gyda bron i draean arall (29 y cant) yn dweud y byddai hynny'n debygol.

**FFIGUR 10: A FYDDAI AMRYWIOL FESURAU'N DEBYGOL O GYNYDDU'R NIFEROEDD A FYDDAI'N ASTUDIO ITM YN YSGOLION YR YMATEBWYR (CANIATEIR MWY NAG UN ATEB)**




Mae sylwadau rhydd a roddwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnig agweddau eraill ar y materion sy'n cyfuno i olygu bod y niferoedd sy'n astudio ITM hyd at TGAU mewn ysgolion yng Nghymru:

> *'Nid yw disgyblion yn teimlo'n ddigon hyderus yn yr iaith dramor ar ôl dim ond tair blynedd o astudio (un flwyddyn mewn Almaeneg) ac maent yn teimlo y byddant yn llwyddo'n well mewn pynciau eraill, ac felly byddai dechrau dysgu iaith yn gynharach h.y. yn yr ysgol gynradd, o fudd mawr iddynt.'*

> *'Mae'r diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff, cynghorwyr gyrfa yn yr ysgol, disgyblion a rhieni o bwysigrwydd ieithoedd i gyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol a mynediad i brifysgol yn frawychus.'*

> *'Mae'r tueddiadau presennol (TGAU newydd, lefel A newydd, bod yr arholiadau'n annheg o anodd a'r disgwyliadau afresymol a roddir ar ein disgyblion, y flaenoriaeth a roddir i bynciau STEM, dyraniad llai yn y cwricwlwm*

'Nid yw disgyblion yn teimlo'n ddigon hyderus yn yr iaith dramor ar ôl dim ond tair blynedd o astudio (un flwyddyn mewn Almaeneg) ac maent yn teimlo y byddant yn llwyddo'n well mewn pynciau eraill, ac felly byddai dechrau dysgu iaith yn gynharach h.y. yn yr ysgol gynradd, o fudd mawr iddynt.'

*(o lawer!) i ddibenion Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLLRh) ac ati) i gyd yn gweithio tuag at ddinistrio ITM. A dwi'n golygu dinistrio.'*

*'Byddai dros 60 y cant o ddisgyblion yn dewis Ffrangeg os na fyddai dewisiadau'n cyfyngu cymaint arnynt oherwydd Bagloriaeth Cymru sydd heb angen cymaint o amser cwricwlwm. Nid oes cwrs TGAU sy'n addas ar gyfer cyflawnwyr isel. Mae arweiniad ar yrfaoedd yn hanfodol.'*

**Pa gynlluniau mae ysgolion wedi bod yn gysylltiedig â hwy i hyrwyddo dysgu ITM?**
Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos lefel uchel o ymgysylltu â chynlluniau i hyrwyddo dysgu ITM, ac mae'n dangos llwyddiant y prosiect cydweithredol Llwybrau at Ieithoedd i gyrraedd niferoedd mawr o ysgolion (gweler Ffigur 11). Mae mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd (82 y cant) yn trefnu ymweliadau neu mae ganddynt gynlluniau cyfnewid ac mae dros ddau draean (69 y cant) wedi bod yn gysylltiedig â Llwybrau at Ieithoedd gyda phrifysgolion Cymru. Mae cymaint â 13 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn gysylltiedig ag Ystafelloedd Dosbarth Confucius.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos lefel uchel o ymgysylltu â chynlluniau i hyrwyddo dysgu ITM

FFIGUR 11: YSGOLION SY'N GYSYLLTIEDIG Â GWAHANOL GYNLLUNIAU I HYRWYDDO DYSGU ITM




Rhoddodd y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn doreth o dystiolaeth ansoddol am y gwahanol gynlluniau maent yn gysylltiedig â hwy i hyrwyddo diddordeb mewn ieithoedd yn eu hysgol ac i ymgysylltu / cymell eu disgyblion. Mae'r sylwadau canlynol yn tynnu sylw ar y cynlluniau 'Arall' a oedd yn cynnwys 38 y cant o'r ysgolion a ymatebodd, ac mae'n dangos yr ymdrechion glew a wnaethpwyd gan ysgolion eisoes i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio ITM:

*'Cawsom weithdai hefyd a oedd yn cynnwys STEM, CILT Cymru, y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg (GCA) a Chyfadran Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd.'*

*'Mae gennym gysylltiadau ag ysgolion yn Ffrainc a'r Eidal ac rydym yn trefnu ymweliadau cyfnewid â'r gwledydd hyn. Hefyd mae Llysgenhadon Myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi dod atom i siarad â myfyrwyr Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10, Tim Penn (hyrwyddwr busnes ) ac rydym wedi sefydlu'r cynllun PLA yn ein hysgol.'*

*'Gyrfa Cymru – mae dynion / menywod busnes wedi dod i'r ysgol i siarad â phobl am fanteision cael cymhwyster ITM. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc eleni a'r llynedd.'*

*'Athro Mandarin trwy'r British Council.'*

Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol mwy difreintiedig (gyda chyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim), yn llai tebygol o gymryd rhan mewn cynlluniau i hyrwyddo dysgu ITM. Mae Ffigur 12 yn dangos bod ysgolion â chyfraddau uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o fod wedi bod yn gysylltiedig â Llwybrau at Ieithoedd ac Ystafelloedd Dosbarth Confucius, ac maent yn llai tebygol o fod â chysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd tramor, er nad ydynt yn llawer llai tebygol o drefnu ymweliadau tramor a chynlluniau cyfnewid na'r cyfartaledd ar gyfer pob ysgol.

Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy difreintiedig yn gymdeithasol-economaidd ...yn llai tebygol o fod wedi bod yn gyfrannog mewn mentrau i hyrwyddo dysgu ITM

FFIGUR 12: CYSYLLTIAD Â MESURAU I HYRWYDDO ITM, YN ÔL CHWARTEL PRYDAU YSGOL AM DDIM




**Beth fu effaith y mesurau hyn?**

Mae'r holl gynlluniau uchod wedi cael mwy o effaith ar agweddau nag ar y niferoedd gwirioneddol sy'n astudio'r pwnc. Yn fwyaf penodol, mae cysylltiadau ag ysgolion tramor ac ymweliadau a chynlluniau cyfnewid tramor yn cael eu gweld fel athrawon a ymatebodd fel rhywbeth sydd wedi cael effaith bositif sylweddol ar agweddau, a dywed dros hanner yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cynllun Llwybrau at Ieithoedd ei fod wedi cael effaith bositif ar agweddau at ITM.

Fodd bynnag, dim ond nifer fach iawn o ysgolion sy'n dweud bod y mesurau wedi cael effaith ar y niferoedd sy'n astudio'r pwnc. Yn benodol, dywed un o bob pum ysgol sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r prosiect Llwybrau at Ieithoedd bod ei effaith wedi cael ei negyddu gan ffactorau eraill; dim ond un ysgol a ddywedodd nad yw wedi cael dim effaith o gwbl. O'r 42 o ysgolion a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan mewn cynlluniau 'Arall' i hyrwyddo ITM (fel y disgrifiwyd yn y sylwadau rhydd uchod), dywed 13 eu bod wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd, a dywed 18 eu bod wedi gwella agweddau. Er mai dim ond nifer fach o ysgolion sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun Ystafelloedd Dosbarth Confucius hyd yma, ymddengys mai hwn yw'r lleiaf effeithiol o'r mesurau a ddefnyddiwyd i hyrwyddo ITM, gyda bron i draean yr ysgolion yn dweud na chafodd ddim effaith.

FFIGUR 13: EFFAITH MESURAU I HYRWYDDO ITM




Ymhlith y cynlluniau eraill y mae ymatebwyr yn credu sydd wedi gweithio'n dda oedd siaradwyr o fyd busnes a llysgenhadon STEM-ITM:

> *'Mae'r niferoedd ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym wedi ymdrechu'n galed i hyrwyddo ieithoedd trwy gael siaradwyr o fyd busnes a diwydiant i ddod atom. Roedd Tim Penn yn ddylanwadol iawn.'*

> *'Mae disgyblion wedi dweud mai'r hyn a ddylanwadodd ar eu dewis oedd gwybodaeth o fyd gwaith, gyrfaoedd a chysylltiad â phobl fusnes.'*

> *'Mae'r llysgennad STEM–ITM wedi cynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yn y Flwyddyn 10 gyfredol, yn enwedig ymhlith disgyblion a oedd yn arfer credu nad oedd gwyddoniaeth ac ieithoedd yn gydnaws â'i gilydd.'*

Fodd bynnag, mynegwyd rhwystredigaeth hefyd nad yw gwaith caled yn dwyn ffrwyth yn ôl y disgwyl bob amser:

> *'Hyd yma rwyf wedi teimlo eu bod wedi cael effaith bositif, ond ar ôl gweld y niferoedd ar gyfer dosbarthiadau TGAU mis Medi nesaf, rwyf yn teimlo bod angen newid mwy sylfaenol yng Nghymru'n benodol.'*

> *'Y peth sylfaenol yw bod disgyblion yn dueddol o gasáu astudio'n galed ar gyfer iaith dramor os ydynt yn gallu cael gradd debyg mewn "pwnc haws". Mae'r holl system o ddewis ac opsiynau'n cyfyngu ar wybodaeth gyffredinol disgyblion ym Mhrydain. Dylid mabwysiadu system fel un Ffrainc neu'r Almaen neu byddwn yn parhau i weld disgyblion yn cefnu ar ITM. Bydd y TGAU newydd, gyda'i ofynion uchel, yn gyrru'r gweddill i ffwrdd oddi wrth ieithoedd.'*

**Sut mae athrawon yn disgrifio agweddau disgyblion tuag at ITM yn eu hysgol?**
Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio agweddau disgyblion tuag at ITM ar raddfa bedwar pwynt. Roedd ychydig llai na chwarter yr ymatebwyr yn rhoi agweddau eu disgyblion yn y categorïau uchaf ac isaf o ran agweddau, gyda nifer fwyaf yr ymatebwyr (38 y cant) yn rhoi agweddau eu disgyblion yn y categori ail isaf, gan ddweud eu bod yn 'llugoer' yn hytrach na brwd tuag at ddysgu ieithoedd.

Mae'r nifer mwyaf o atebwyr yn dweud eu bod yn 'llugoer' yn hytrach na'n frwdfrydig tuag at addysgu ieithoedd



FFIGUR 14: NODWEDDU AGWEDDAU DISGYBLION TUAG AT ITM




Mae'r dystiolaeth ansoddol a roddwyd gan ymatebwyr yn datgelu rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar agweddau disgyblion tuag at ieithoedd. Gellir rhannu'r rhain yn dri chategori. Mae'r grŵp cyntaf yn mwynhau dysgu iaith ond maent yn teimlo bod y gwaith sy'n rhaid ei wneud o'i gymharu â phynciau eraill yn drwm:

*'Nid agweddau'r disgyblion yn benodol ond pa mor anodd yw'r gwaith a lefel y gwaith yng Nghyfnod Allweddol 4 o'i gymharu â dewisiadau eraill.'*

*'Nid yw disgyblion yn casáu ieithoedd ar y cyfan ond maent yn teimlo eu bod yn anodd. Maent yn dweud bod yn rhaid iddynt weithio'n galed a meddwl llawer a dysgu lawer o eiriau newydd ar eu cof. Mae'r llwyth gwaith yn ddigon i wneud i lawer gefnu ar y pwnc. Nid ydynt yn credu eu bod yn ddigon da.'*

*'Mae disgyblion yn awyddus a brwd fel arfer, ond maent yn gwybod y bydd yn rhaid iddynt weithio deg gwaith yn galetach mewn ITM o'i gymharu â rhai pynciau i gael gradd is (fwy na thebyg) – a dyna sy'n digalonni llawer ohonyn nhw. Mae Cymraeg weithiau'n torri ar draws hefyd, ond yn fwy na dim y pwysigrwydd anghymesur a roddir i Fagloriaeth Cymru a phynciau STEM (ynghyd â nifer llai o golofnau dewisiadau) sy'n eu hatal rhag dewis ieithoedd.'*

Mae'r ail grŵp yn cynnwys y disgyblion sydd ag agweddau positif tuag at ieithoedd ar y cyfan, ond mae'r gystadleuaeth â Chymraeg a chyfyngiadau'r colofnau dewisiadau yn gwneud iddynt ollwng ieithoedd:

> Mae'r ail grŵp yn cynnwys y disgyblion sydd ag agweddau positif tuag at ieithoedd ar y cyfan, ond mae'r gystadleuaeth â Chymraeg a chyfyngiadau'r colofnau dewisiadau yn gwneud iddynt ollwng ieithoedd

*'Mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 ond maent yn teimlo bod y dewis o opsiynau'n rhy gyfyngedig iddynt i allu dewis parhau i astudio ieithoedd.'*

*'Mae agweddau cyffredinol yn weddol bositif. Problem i ni yw ein bod yn cystadlu â Chymraeg a Bagloriaeth Cymru, ac rydym wedi colli llawer o oriau oherwydd y pwyslais cynyddol ar rifedd a llythrennedd.'*

*'Mae fy nisgyblion yn mwynhau dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3 ac maent yn bositif ynghylch eu gwersi (ar y cyfan) ond maent yn teimlo bod ieithoedd yn anodd a bod pynciau eraill yn 'haws' - felly maent yn dewis y rhain ar draul ieithoedd wrth wneud eu dewisiadau. Nid yw ychwaith yn help bod yn "rhaid" iddynt wneud Cymraeg, felly mae rhai'n teimlo eu bod yn gwneud iaith yn barod, neu fod astudio dwy iaith yn rhoi gormod o bwysau arnynt.'*

Y trydydd grŵp a ddisgrifiwyd gan nifer o ymatebwyr yw'r rhai lle mae'r amgylchedd o'u cwmpas yn ei gwneud yn anodd iddynt edrych ar ieithoedd fel rhywbeth perthnasol:

*'Nid yw mwyafrif y disgyblion yn gweld fawr ddim gwerth mewn dysgu iaith. Mae eu dyheadau'n isel iawn yn aml ac ni allant weld bod dysgu iaith yn sgil cyfathrebu pwysig a all ehangu eu gorwelion. Yn yr un modd, mae'n amlwg wrth siarad â'n disgyblion nad yw eu rhieni /gofalwyr ychwaith yn gwerthfawrogi ITM ac mae hynny'n cyfrannu at eu hagweddau negyddol.'*

*'Mae disgyblion yn meddwl, ar y cyfan, bod Saesneg yn fyd-eang a dim ond weithiau y bydd angen iaith dramor arnynt os byddant yn mynd dramor. Maent hefyd yn credu bod dysgu Cymraeg yn bwysicach nag iaith dramor i'w rhagolygon i gael gwaith yn y dyfodol.'*

*'Nid yw myfyrwyr yn gweld rheswm dros ddysgu iaith gan nad yw llawer ohonynt wedi bod allan o'r wlad. Nid ydynt yn deall sut y gall dysgu iaith helpu eu rhagolygon o gael gwaith tan i ni ddweud wrthynt neu eu bod yn clywed hynny gan siaradwyr allanol. Mae llawer yn mwynhau'r wers ond maent yn teimlo na fyddant byth yn defnyddio'r iaith yn y dyfodol.'*

*'Mae gan ddalgylch yr ysgol gyfran uchel o brydau ysgol am ddim o'i gymharu â chyfartaleddau'r awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol: i'r rhan fwyaf o ddisgyblion mae'r syniad o deithio y tu allan i'w hardal yn ymddangos yn gwbl afrealistig; ni all llawer o ddisgyblion fforddio mynd ar dripiau ysgol, hyd yn oed rhai lleol, heb sôn am ystyried trip tramor. Mae astudio ITM felly'n ymddangos fel rhywbeth amherthnasol. Nid yw disgyblion / rhieni'n sylweddoli / deall gwerth gallu defnyddio iaith arall, hyd yn oed os yw hynny o fewn cyd-destun lleol yn unig.'*

Fodd bynnag, nid oes gan bawb agweddau negyddol a dywed rhai athrawon bod gan eu disgyblion agwedd bositif tuag at ieithoedd o ganlyniad i'r cynlluniau a'r prosiectau a ddatblygwyd gan staff rhagweithiol iawn yn yr adran Ieithoedd:

*'Mae gan ITM enw da yn yr ysgol ac mae'n hawdd cymryd rhan mewn digonedd o gyfleoedd cyffrous y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Rydym yn defnyddio llawer ar TGCh, sy'n helpu i gymell bechgyn hefyd.'*

*'Rydym yn ffodus bod gennym ddalgylch dosbarth canol lle mae llawer o ddisgyblion yn teithio llawer i Ffrainc a Sbaen ac sydd felly'n gweld buddiannau siarad iaith.'*

Mae cydberthynas amlwg rhwng amgylchiadau economaidd gymdeithasol ac agweddau disgyblion at ITM, fel y dywed athrawon. Mae Ffigur 15 yn dangos er bod perthynas rhwng y cymhelliad i astudio ieithoedd ac amgylchiadau mwy breintiedig, mae gwerthfawrogiad isel o werth dysgu ieithoedd i'w weld amlach mewn ysgolion â lefelau uwch o amddifadedd economaidd gymdeithasol.

Mae gwerthfawrogiad isel o werth dysgu ieithoedd i'w weld amlach mewn ysgolion â lefelau uwch o amddifadedd economaidd gymdeithasol

NID YW AGWEDDAU DISGYBLION YN BROBLEM. YN GYFFREDINOL MAE GANDDYNT GYMHELLIAD DA IAWN I DDYSGU IAITH

MAE GWERTHFAWROGIAD GWAEL O WERTH IEITHOEDD GAN DDISGYBLION YN RHWYSTR PWYSIG

FFIGUR 15: CYMHELLIAD DISGYBLION I DDYSGU IAITH (YN ÔL DANGOSYDD ECONOMAIDD GYMDEITHASOL)




**I ba raddau y mae ysgolion yn ymwybodol o'r Canolfannau Rhagoriaeth sydd newydd eu sefydlu i helpu i wella addysgu a dysgu ITM?**
Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos ymwybyddiaeth uchel o gynllun newydd Llywodraeth Cymru (88 y cant), gyda bron i ddau draean yr ymatebwyr eisoes mewn cysylltiad â'u Canolfan Ragoriaeth leol.

FFIGUR 16: YMWYBYDDIAETH O GANOLFANNAU RHAGORIAETH




**Beth mae ymatebwyr yn gobeithio'i gael o'u Canolfan Ragoriaeth o ran gwella addysgu a dysgu ITM?**
Mae llawer o ymatebwyr yn frwd ynghylch y canolfannau newydd ac maent yn gobeithio y byddant yn gallu darparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys cymorth i ddatblygu deunyddiau dysgu yn unol â manylebau'r TGAU / Lefelau A newydd, adnoddau, y cyfle i rannu arferion da ac i wynebu heriau gyda'i gilydd, a strategaethau i argyhoeddi uwch reolwyr o werth ieithoedd. Mae nifer fach o ymatebwyr yn gobeithio hefyd y bydd y Canolfannau Rhagoriaeth yn gallu helpu i godi proffil ieithoedd yn gyffredinol a newid agweddau'r cyhoedd:

> *'Creu rhaglen Gymru gyfan i gynyddu pwysigrwydd ieithoedd yn y wasg ac mewn hysbysebion.'*

> *'Argyhoeddi sir, rhieni a phlant o bwysicrwydd ieithoedd - eu codi ar 'par' efo pynciau craidd.'*

Mae nifer fach o ymatebwyr yn gobeithio hefyd y bydd y Canolfannau Rhagoriaeth yn gallu helpu i godi proffil ieithoedd yn gyffredinol a newid agweddau'r cyhoedd:

**Pa fathau o gymorth a fyddai ysgolion yn ei groesawu fwyaf gan y Canolfannau Rhagoriaeth?**
Mynegodd dros hanner yr athrawon a ymatebodd awydd i rwydweithio wyneb yn wyneb er mwyn rhannu arferion da ag athrawon eraill, cael gafael ar adnoddau a

deunyddiau, a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus mewn addysgu ITM. Nid oedd athrawon mor frwd ynglŷn â help i ddysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd na chael cymorth gan sefydliadau iaith; dim ond un o bob pump oedd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn rhwydweithiau digidol.

FFIGUR 17: MATHAU O GYMORTH Y BYDDAI YSGOLION YN EI GROESAWU GAN Y CANOLFANNAU RHAGORIAETH (GELLID RHOI SAWL YMATEB)




Mae rhai athrawon hefyd yn gobeithio y bydd y Canolfannau Rhagoriaeth yn cynnig mwy o help i hyrwyddo eu pwnc ymhlith disgyblion yn ogystal ag ymhlith rhieni a chydweithwyr:

> *'Help ag awgrymiadau ar sut i wneud yn siŵr bod pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd dysgu ieithoedd.'*

Roedd eraill yn mynegi gobaith y bydd y canolfannau'n chwarae rhan fwy strategol ar eu rhan, er enghraifft trwy lobio'r llywodraeth a byrddau arholi:

> *'pwyso ar benaethiaid / ysgolion, awdurdodau addysg lleol i gefnogi ITM. Naill ai mwy o oriau i addysgu disgyblion ac arholiadau lefel uchel neu lai o oriau ac arholiadau gallu isel YN UNIG. Gadael i arholiadau TGAU adlewyrchu nifer yr oriau addysgu yn hytrach na bod yn elitaidd!'*

**Pa fathau o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) mae athrawon ITM wedi'i fynychu yn y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae Ffigur 18 yn dangos lefelau cyfranogaeth uchel yn yr hyfforddiant a ddarparwyd gan fyrddau arholi: roedd 82 y cant o'r ysgolion a ymatebodd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad o'r fath yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – cynnydd o'r 61 y cant a nodwyd yn arolwg 2014/15. Efallai y gellid priodoli'r cynnydd i gyflwyno'r TGAUau newydd. Roedd cymaint â 67 y cant wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau rhwydweithio a oedd wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol, cynnydd o'r 50 y cant a nodwyd y llynedd. Mae cyfranogiad mewn mathau eraill o DPP yn llawer is, gyda mymryn dros draean yr ysgolion wedi cymryd rhan mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau cenedlaethol ar gyfer ieithoedd, a chyfarfodydd clwstwr ag ysgolion eraill. Roedd llai na chwarter yr

Mae lefel uchel o ymgyfranogi yn yr hyfforddiant a ddarperir gan y byrddau arholi.

ysgolion yn manteisio DPP ar gyfer ieithoedd trwy gymryd rhan mewn fforymau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer DPP, ac mae DPP wedi'i drefnu'n fewnol ar gyfer ieithoedd yn benodol yn llai cyffredin gydag 28 y cant yn ei ddefnyddio. Mae'r ffigurau hyn yn gymharol debyg i'r rhai a welwyd yn arolwg 2014/15. Dywedodd tair ysgol yn y sampl nad oeddent wedi cymryd rhan mewn dim un o'r mathau hyn o DPP ar gyfer ieithoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

FFIGUR 18: CYFRANOGIAD MEWN GWAHANOL FATHAU O DPP AR GYFER IEITHOEDD




Er bod mwyafrif yr ysgolion wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a ddarparwyd gan y byrddau arholi, roedd y farn a fynegwyd am yr hyfforddiant a gafwyd yn amrywio'n sylweddol:

> *'Roedd DPP CBAC ar y newidiadau arfaethedig i'r TGAU ar ôl 2016 a drefnwyd yn ddiweddar yn rhwystredig iawn. Nid yw'r newidiadau arfaethedig wedi cael eu pasio eto ac nid oes llawer o ddeunydd ar gael. Nid oeddwn yn teimlo fy mod yn gallu cynnig llawer o wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr TGAU am y noson ddewisiadau yn yr ysgol.'*

> *'HMS TGAU CBAC - defnyddiol i gael mwy o wybodaeth yn y fanyleb ddrafft.'*

> *'Mae'r cyrsiau a ddarperir gan CBAC yn ddiwerth fel arfer, gan nad yw'r prif arholwr byth yn bresennol a does neb yn gallu ateb ymholiadau. Yn ddiweddar, cafodd cyrsiau hyfforddi eu cynnal ar gyfer manylebau'r TGAU a Lefel A newydd er nad yw'r manylebau hyn wedi cael eu hachredu eto sy'n golygu eu bod yn debygol o gael eu newid.'*

> *'Roedd cyfarfodydd y bwrdd arholi'n ddefnyddiol fel ffordd o rannu gwybodaeth am y manylebau newydd. Fodd bynnag, gan nad yw'r fanyleb wedi cael ei chymeradwyo eto, roedd gan y cwrs ei gyfyngiadau.'*

Er bod mwyafrif yr ysgolion wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a ddarparwyd gan y byrddau arholi, roedd y farn a fynegwyd am yr hyfforddiant a gafwyd yn amrywio'n sylweddol

Roedd ymatebwyr yn canmol yn benodol y cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant neu gyfarfodydd rhwydweithio a drefnwyd yn lleol / rhanbarthol fel y rhai gan Rwydwaith Athrawon Almaeneg y De Ddwyrain ac, yn y gorffennol, gan CILT Cymru. Mae athro arall yn crynhoi gwerth cyfleoedd DPP, yn enwedig digwyddiadau rhwydweithio, fel hyn:

> *'Mae cyfarfodydd rhwydweithio wedi bod yn gyfle da i athrawon ITM i rannu arferion da, ac fel Canolfan Ragoriaeth mae wedi gweithredu fel man cychwyn i ni ar gyfer cymorth a digwyddiadau yn y dyfodol. Rydym yn teimlo bod grwpiau clwstwr / gweithgorau mewn meysydd pwnc yn rhywbeth hanfodol i helpu staff i ymdopi â heriau newydd mewn TGAU ac UG ym mis Medi.'*

Fodd bynnag, nid yw pob athro'n ddigon ffodus i gael y cyfle i gymryd rhan mewn DPP, fel y dengys y sylwadau canlynol:

> *'Mae unrhyw DPP yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, rydym fel arfer yn cael ein hannog i beidio â mynd i ddigwyddiadau DPP oherwydd pryderon am y gost.'*

> *'Nid oes llawer o arian ar gael mewn ysgolion ar gyfer DPP. Fodd bynnag, mae fy mhennaeth yn amharod i adael i staff fynychu digwyddiadau y tu allan i'r ysgol.'*

> *'Nid ydym yn cael mynychu DPP oni bai ei fod yn gysylltiedig â maes llafur newydd neu adolygu arholiadau.'*

**A yw ysgolion uwchradd yn cael disgyblion sydd wedi dysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd?**

Nid yw mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn arolwg eleni (61 y cant) yn cael disgyblion o ysgolion cynradd sy'n eu bwydo sy'n dysgu ieithoedd tramor; mae tua thraean (34 y cant) yn cael rhywfaint o ddisgyblion sydd eisoes â phrofiad o ddysgu ieithoedd heblaw Saesneg a Chymraeg, a dywed nifer fach fod mwyafrif y disgyblion maent yn eu cael ym Mlwyddyn 7 eisoes wedi dysgu trydedd iaith (gweler Ffigur 19). Mae'r gwahaniaethau rhwng canfyddiadau 2014/15 a 2015/12016 yn debygol o fod yn ganlyniad i'r sampl penodol o ysgolion sydd wedi ymateb, yn hytrach nag arwydd o dueddiadau. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i rai'r arolwg o ysgolion cynradd, sef bod tua chwarter yn amlygu'r plant ryw gymaint o ITM ond llai na 10 y cant sy'n darparu unrhyw addysgu strwythuredig.

Nid yw mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn arolwg eleni (61 y cant) yn cael disgyblion o ysgolion cynradd sy'n eu bwydo sy'n dysgu ieithoedd tramor

FFIGUR 19: PROFIAD BLAENOROL O DDYSGU IEITHOEDD GAN DDISGYBLION SY'N CYRRAEDD YM MLWYDDYN 7, 2016 A 2015




O'r chwe ysgol a ddywed fod mwyafrif eu disgyblion Blwyddyn 7 wedi astudio iaith dramor eisoes, mae pedair yn y chwartel isaf ar gyfer prydau ysgol am ddim, a does dim un ohonynt yn y chwartel uchaf, sy'n dangos cysylltiad arall rhwng dysgu ieithoedd a statws economaidd gymdeithasol. Ni chafwyd dim sylwadau rhydd gan

athrawon mewn ysgolion nad oedd yn cael disgyblion ag unrhyw brofiad blaenorol o ddysgu iaith. Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr a fu'n gysylltiedig â gweithio ag ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ar ieithoedd yn y gorffennol yn gofidio am ddiwedd y cydweithredu rhwng eu hysgol uwchradd a'r ysgolion bwydo:

> *'Mi ddechreuwyd cyflwyno gwersi Ffrangeg ac Almaeneg yn ein hysgolion cynradd ychydig flynyddoedd yn ôl ond bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r cynllun hynod lwyddiannus hwn oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud ag arian a'r cwricwlwm. Dyfeisiodd ein hathro Cyswllt Cynradd Gynlluniau Gwaith a phecynnau o adnoddau ond nid ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.'*

> *'Roeddem yn arfer ei wneud ond daeth y cynllun peilot i ben am fod yr arian wedi darfod.'*

> *'Roeddwn yn arfer mynd i'n hysgolion bwydo bob wythnos. Roedd hwn yn llwyddiant mawr. Daeth popeth i ben ar ôl i ni uno, a doedd y pennaeth yn gweld dim gwerth ynddo am nad oedd yn cael effaith ar y niferoedd a oedd yn ei ddewis yng Nghyfnod Allweddol 4.'*

Ar y cyfan, roedd yr ysgolion a ymatebodd nad ydynt yn cael disgyblion â rhywfaint o brofiad blaenorol o ddysgu ieithoedd yn dweud bod yr hyn roedd y disgyblion wedi'i gael yn yr ysgol gynradd yn *'dameidiog'*, yn *'anghyson'*, a bod ganddynt *'lond llaw o ymadroddion mewn Almaeneg/Ffrangeg/Sbaeneg ond dim byd arwyddocaol'.* Tynnodd un ymatebwr sylw at y problemau i ysgolion uwchradd wrth geisio adeiladu ar ITM yng Nghyfnod Allweddol 2, ac mae'n crynhoi'r sefyllfa fel hyn:

> *'Mae gennym 40+ o ysgolion sy'n ein bwydo felly mae pontio'n hunllef. Rydym yn dueddol o ddechrau o'r dechrau a mynd cyn gyflymed ag y gallwn. Byddai ieithoedd cynradd yn seiliedig ar y sgiliau sydd eu hangen i ddysgu unrhyw iaith yn help mawr.'*

**Pa gysylltiadau sydd gan ysgolion uwchradd â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo o ran ITM?**

O gofio'r nifer fechan o ysgolion cynradd sy'n dysgu ITM ar hyn o bryd, mae'n ddiddorol nodi bod gan nifer cymharol uchel – bron i hanner – o'r ysgolion uwchradd o leiaf rywfaint o gysylltiad o ran ITM ag un neu fwy o'u hysgolion cynradd lleol (gweler Ffigur 20). Dywed cymaint â 13 y cant bod ganddynt gysylltiad da, rheolaidd â'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo ar faterion iaith; mae gan y gweddill rywfaint o gysylltiad. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ysgolion cynradd am eu cysylltiadau ag ysgolion uwchradd ar ITM.

O gofio'r nifer fechan o ysgolion cynradd sy'n dysgu ITM ar hyn o bryd, mae'n ddiddorol nodi bod gan nifer cymharol uchel – bron i hanner – o'r ysgolion uwchradd o leiaf rywfaint o gysylltiad o ran ITM ag un neu fwy o'u hysgolion cynradd lleol

FFIGUR 20: GRADDFA CYSYLLTIAD YSGOLION UWCHRADD AG YSGOLION CYNRADD LLEOL AR ITM



Cafwyd disgrifiad gan nifer fach o ymatebwyr o gydweithio llwyddiannus sy'n digwydd rhwng eu hysgol ac ysgolion cynradd lleol sy'n eu bwydo:

> *'Rwyf yn mynd i bump neu chwech o ysgolion cynradd sy'n ein bwydo unwaith bob pythefnos i roi gwers 45 munud ac mae hynny'n braf iawn ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn eithriadol o frwd ac yn hapus bob amser i gael eu gwers Ffrangeg.'*

> *'Mae rhai o'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo'n cynnig rhywfaint o Ffrangeg mewn clwb ar hyn o bryd. Mae galw am Ffrangeg  Cyfnod Allweddol 2. Rwyf wedi siarad eisoes â phenaethiaid cynradd. Rydym eisoes wedi trefnu Tsieinëeg mewn dwy ysgol gynradd. Mae hyn yn digwydd yn awr ac mae wedi cael croeso cynnes. Mae ein hathrawes Ladin hefyd yn rhedeg dau glwb Lladin yn yr ysgolion cynradd.'*

> *'Rydym yn cynnal "Diwrnod Ieithoedd" blynyddol gyda'r holl ysgolion cynradd. Mae pob un o'r ysgolion sy'n ein bwydo'n dod ar yr un diwrnod ac rydym yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau carwsél i ddysgu ieithoedd trwy gemau. Mae hyn wedi bod yn rhan lwyddiannus o galendr yr ysgol ers sawl blwyddyn.'*

Fodd bynnag, mae mwyafrif yr athrawon yn cyfeirio at gyfyngiadau cyllidebol a phwysau ar amser y cwricwlwm fel rhesymau pam na allant helpu ysgolion cynradd ag ieithoedd, er enghraifft:

> *'Roeddem yn arfer mynd i ddwy o'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo unwaith yr wythnos i gyflwyno gwersi Sbaeneg ond daeth hyn i ben oherwydd prinder arian.'*

> *'Roeddem yn meithrin cysylltiadau yn y gorffennol, ac roedd ysgolion cynradd a oedd â diddordeb yn cael gwersi iaith wedi'u cyflwyno gan staff yr ysgol uwchradd. Nid yw cyllidebau'n awr yn caniatáu i athrawon iaith "deithio" o amgylch ysgolion bwydo ac mae'r dalgylch yn rhy fawr.'*

Mae'r rhai sy'n gallu rhoi rhywfaint o gymorth i ysgolion cynradd fel arfer yn cynnig cyfnod byr o addysgu cychwynnol mewn iaith dramor i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 fel rhan o raglen bontio, fel y dengys y sylwadau canlynol:

> 'Rydym wedi ail-lansio ein Prosiect Ysgolion Cynradd eleni ac mae hynny'n fy ngalluogi i ddysgu Ffrangeg i bob dosbarth Blwyddyn 6 yn ein dalgylch am un wers bob pythefnos. Bu hyn y llwyddiant mawr.'

> 'Rydym wedi rhedeg gweithdy pontio i Flwyddyn 6 gyda dwy o'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Does dim cysylltiad arall.'

> 'Fel rhan o weithgarwch pontio yn nhymor yr hydref, mae un athro ITM yn ymweld â'r holl ysgolion cynradd sy'n ein bwydo i ddysgu Ffrangeg am sesiwn.'

> 'Tair awr pob pythefnos. Am y pedair blynedd diwethaf nid yw'r disgyblion ym Mlwyddyn 9 wedi cael dim Ffrangeg gan fod Cyfnod Allweddol 3 wedi bod yn ddwy flynedd yn unig.'

**Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn crybwyll cyfyngiadau ar gyllidebau a phwysau ar amser cwricwlwm fel rhesymau pam nad allant gefnogi ysgolion cynradd gydag ieithoedd**

## Ôl -16

O'r 119 ysgol a ymatebodd i'r adran hon, mae gan 86 ddisgyblion ôl-16 ac mae 69 yn cynnig cyrsiau ôl-16 mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. Mae hyn yn dangos nad yw cyfran gymharol uchel – un o bob pump (sy'n uwch na'r llynedd) – o ysgolion â darpariaeth ôl-16 yn rhedeg cyrsiau UG nac SU mewn ITM.

**Faint o ddisgyblion sydd gan ysgolion sy'n astudio cyrsiau ôl-16 mewn ITM?**

Mae ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos, mewn ysgolion sy'n cynnig cyrsiau ôl-16 mewn ITM, bod y niferoedd sy'n astudio'r pwnc yn dueddol o fod yn isel. Ym mwyafrif yr ysgolion (58 y cant) pump neu lai o ddisgyblion sydd ganddynt yn A2, ac mae gan gymaint â 41 y cant bump neu lai ar gyfer UG. Mae gan y mwyafrif llethol (90 y cant neu fwy) lai na deg disgybl yn astudio ITM ar gyfer UG neu SU; mae hyn yn golygu bod y grwpiau ar gyfer pob iaith yn fychan iawn. Nid oes gan tua un o bob pum ysgol sy'n cynnig cyrsiau ôl-16 mewn ITM unrhyw ddisgyblion o gwbl yn eu dilyn. Dwy ysgol yn unig yn sampl eleni sydd ag 20 neu fwy o ddisgyblion sy'n astudio cyrsiau UG mewn ITM, a dim un â chymaint â hyn ar gyfer A2 (gweler Ffigur 21).

FIGURE 21: NUMBERS OF PUPILS STUDYING MFL POST-16 IN EACH SCHOOL




Gyda niferoedd mor fach yn dewis astudio iaith ar ôl 16, mae rhai ysgolion wedi dod at ei gilydd i gynnig cyrsiau UG a Lefel A ar un campws. Fodd bynnag, gall hyn cael effaith andwyol ar y niferoedd sy'n eu dilyn, fel y dengys y sylwadau isod:

> *'Cafodd disgyblion o ddwy ysgol arall eu hanfon atom ar gyfer ITM – felly nid oedd cymhelliad wedyn i'r ysgolion hyn i annog eu disgyblion ôl-16 i astudio ieithoedd. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle nad oes neb yn gwneud UG eleni (o'i gymharu â naw o ddisgyblion y llynedd).'*

> *'Mae meddwl am gael eu cludo i ysgol arall i gael eu dysgu gan athro nad ydynt yn ei adnabod yn siŵr o fod wedi darbwyllo llawer o ddisgyblion i beidio ag astudio Ffrangeg lefel A. Mae'n bolisi hurt sy'n siŵr o fod yn costio mwy mewn costau tacsi nag y byddai ei ddysgu yn eu hysgol eu hunain!'*

Gyda niferoedd mor fach yn dewis astudio iaith ar ôl 16, mae rhai ysgolion wedi dod at ei gilydd i gynnig cyrsiau UG a Lefel A ar un campws

**A yw'r niferoedd sy'n astudio cyrsiau ôl-16 wedi cynyddu ynteu wedi gostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf?**

Mae dros hanner (58 y cant) yr ysgolion wedi gweld y niferoedd sy'n astudio ITM ôl-16 yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod 6 y cant yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd (gweler Ffigur 22). Dywed y gweddill (36 y cant) na fu dim newid arwyddocaol. Yn 2014/15, dywedodd 68 y cant eu bod wedi profi gostyngiad, roedd 7 y cant wedi gweld cynnydd ac ni fu newid yn y lleill. Nifer bach yr ysgolion a oedd yn rhan o'r astudiaeth oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth rhwng ffigurau 2014/15 a 2015/16; ac nid yw'n debygol o fod yn arwydd o unrhyw newid cenedlaethol.

Mae dros hanner (58 y cant) yr ysgolion wedi gweld y niferoedd sy'n astudio ITM ôl-16 yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf

FFIGUR 22: NEWIDIADAU A BROFWYD GAN YSGOLION YN Y NIFEROEDD SY'N ASTUDIO CYRSIAU ITM ÔL-16




Crynhodd un ymatebwr yr hyn sy'n wynebu ieithoedd ôl-16 fel hyn:

> *'Mae Ffrangeg wedi ei chael yn anodd ceisio recriwtio myfyrwyr chweched dosbarth er mai dyna brif iaith yr ysgol. Mae gan ieithoedd yr enw o fod yn bynciau anodd ac mae disgyblion yn dewis pynciau maent yn credu bod ganddynt well siawns o gael graddau da. Mae'r disgyblion gorau'n fwy tueddol o ddewis mathemateg, y gwyddorau a Saesneg.'*

Pan ofynnwyd am sylwadau am y rhesymau am y dirywiad yn y niferoedd sy'n astudio ITM ôl-16, nododd ymatebwyr y ffactorau canlynol:

> *'Arholiadau anodd o'u cymharu â phynciau eraill.*

> *'Mae gormod o ddisgyblion yn astudio'r gwyddorau – hyd yn oed os nad oes ganddynt dalentau gwyddonol.'*

> *'Blychau dewis a phrinder amser addysgu o ganlyniad i brofion yng Nghyfnod Allweddol 3.'*

Cyfeiriodd ymatebwyr o ysgolion sydd wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio ITM ôl-16 at *'ganlyniadau rhagorol TGAU'*, *'cymhelliant athrawon'* a *'chydweithredu ag ysgol arall'* fel rhesymau am y gwelliannau a welwyd.

Gofynnwyd i'r 17 o ysgolion yn arolwg eleni sydd â disgyblion ôl-16 ond nad ydynt yn cynnig cyrsiau iaith ôl-16 beth oedd y rheswm am hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn am fod yr ysgol wedi ymuno â chonsortiwm a bod ysgol arall yn cynnig cyrsiau iaith lefel A. Yr unig reswm arall a roddwyd gan ymatebwyr oedd *'diffyg niferoedd yn dewis y pwnc'*. Os yw disgyblion yn yr ysgolion hyn yn dymuno astudio ITM ar ôl-16, rhaid iddynt deithio i sefydliad addysgol arall, fel ysgol bartner, ysgol arall sy'n rhan o gonsortiwm lleol neu weithiau i goleg lleol. Wrth sôn am ei hachos hi, dywedodd un ymatebwr, bod hyn yn golygu bod disgyblion yn teithio 20 milltir – a bod hynny'n amlwg yn gwneud iddynt feddwl ddwywaith.

**Beth yw'r pryderon mwyaf i athrawon ITM mewn ysgolion uwchradd?**
Mae'r adran hon yn dwyn at ei gilydd y pwyntiau a godwyd gan athrawon mewn ymateb i'r cwestiwn agored 'A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am ieithoedd yn eich ysgol neu'n genedlaethol?'

Mae mwyafrif bychan o ymatebwyr yn bositif a / neu'n obeithiol wrth edrych i'r dyfodol. Roedd un neu ddau'n rhoi croeso mawr i'r cynllun Dyfodol Byd-eang a'r hyn y gallai ei gyflawni:

> *'Mae'r gyfadran yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo dysgu ieithoedd yn gyffredinol, ac mae agwedd bositif iawn tuag at ddysgu ieithoedd ar y cyfan. Mae pob disgybl yn dysgu Mandarin, Ffrangeg ac Almaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3 heb ddim eithriadau, am fwy na phum mlynedd. Mae gan ddisgyblion agwedd 'mi fedraf'. Rydym yn cynnig cymhwyster NVQ Ieithoedd Busnes ac mae hynny wedi ennyn mwy fyth o ddiddordeb. Gall myfyriwr ddewis rhoi'r gorau i ieithoedd yn gyfan gwbl ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, ond rydym wedi cadw 60 y cant a mwy ar gyfartaledd yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mae hynny'n galonogol iawn. Mae'r disgyblion yn cydnabod buddiannau dysgu iaith. Rydym yn gwneud llawer i'w hyrwyddo ymhlith rhieni a disgyblion.'*

> *'Mae'n teimlo o'r diwedd bod pethau'n dechrau symud yn genedlaethol. Mae llawer i'w wneud eto a rhaid aros i weld pa effaith a gaiff y TGAU newydd ar addysgu ac ar ddiddordeb.'*

> *'Yn fy ysgol i, mae ieithoedd ar i fyny – rydym wedi mynd o ganol y 40au i bron i 70 ar gyfer Blwyddyn 10 y flwyddyn nesaf. Mae Dyfodol Byd-eang yn bendant yn cael effaith bositif iawn ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n ddoeth a deheuig mewn ffordd na welwyd o'r blaen mewn polisi addysg – gan ddod â'r rhanddeiliaid at ei gilydd o amgylch bwrdd a rhoi strwythurau lleol ar waith a fydd yn rhoi sylw i broblemau lleol. Mae'r dyfodol yn edrych yn addawol!'*

> *'Mae'n gyffrous iawn bod cynllun Dyfodol Byd-eang yn symud ymlaen mor gyflym. Mae staff ITM yn fy rhanbarth i'n hapus bod gennym ganolbwynt newydd. Mae sawl rhwystr gan fod adrannau ITM fel arfer yn fach, yn enwedig mewn ysgolion 11–16 oed. Y prif rwystrau yw: amserlenni/staffio, y TGAU newydd, manylebau lefel A, a blociau dewisiadau.*

Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr athrawon yn mynegi ymdeimlad o rwystredigaeth ac o fod o dan warchae. Roedd eu sylwadau'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion y maent yn credu sy'n atal eu disgyblion rhag astudio ieithoedd yn eu hysgolion. Rhoddir y rhesymau sy'n peri'r pryderon mwyaf i'r nifer fwyaf o athrawon a ymatebodd isod, gyda detholiad o sylwadau gan ymatebwyr ym mhob achos:

- **Cystadleuaeth o gyfeiriad pynciau eraill a Bagloriaeth Cymru**

> *'Rwy'n ofni y bydd gwneud TGAU Cymraeg yn orfodol yn rhoi diwedd ar astudio ITM yng Nghymru. Rwyf yn gryf o blaid y Gymraeg ond gallaf ragweld y bydd llawer o fyfyrwyr yn amharod i wneud y ddau.'*

> *'Bydd cwrs Cymraeg llawn gorfodol yn debygol o arwain at ddirywiad mawr mewn ITM TGAU mewn ysgolion lle mae'r niferoedd eisoes yn isel. Ni fydd y TGAU newydd mewn ITM yn gwneud dim i annog mwy i astudio'r pwnc – y gwrthwyneb fydd yn digwydd.'*

Mae mwyafrif bychan o ymatebwyr yn bositif a / neu'n obeithiol wrth edrych i'r dyfodol

*'Rhaid stopio gwneud y Welsh Bac, sy'n cymryd cyfleoedd oddi wrth blant Cymru. Yn lle gwario arian ar Centres of Excellence, angen Estyn ofyn I ysgolion 'Pa strategaethau sydd ganddynt mewn lle I sicrhau fod disgyblion yn cael eu hannog I gymryd ieithoedd? Na'i gyd sydd angen I ddigwydd a byddai pob Prifathro yn ceisio sicrhau bod modd I ddisgyblion barhau I astudio ieithoedd wedyn yn hytrach na rhwystro hynny I ddigwydd fel sy'n digwydd nawr - efallai ddim yn fwriadol ond drwy gyfyngu dewisiadau a thrwy wneud y Welsh Bac yn orfodol...'*

*'Mae Bagloriaeth Cymru wedi effeithio ar y niferoedd sy'n dilyn yr holl bynciau sylfaen lle mae ysgolion wedi dilyn y trywydd o golli colofn ddewisiadau er mwyn diogelu mathemateg / Saesneg. Bydd y fanyleb newydd yn effeithio ymhellach ar niferoedd a bydd yn atal disgyblion llai galluog rhag manteisio ar y maes llafur.'*

- **Agweddau cyffredinol tuag at ieithoedd / plwyfoldeb**

*'Mae'r disgyblion yn ein hysgol ni'n blwyfol IAWN ac maent yn dod o gefndiroedd heb ddyheadau. Maent yn casáu gwneud Cymraeg ar y cyfan ac maent yn teimlo ei bod yn anodd iawn. Gan fod hyn yn orfodol i lawer yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'n golygu bod ITM arall yn ormod iddynt ymdopi â hi gan eu bod yn edrych ar y Gymraeg fel iaith dramor mewn gwirionedd. Ni fydd nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i fod yn "ddwyieithog + 1" BYTH yn cael ei wireddu tra bydd y Gymraeg yn parhau fel opsiwn IAITH gorfodol (o'i gymharu ag Astudiaethau Cymreig efallai). Wrth gyflwyno'r cwrs llawn bydd pethau'n waeth byth. Mae gan ein disgyblion RA a lefelau llythrennedd isel iawn. Nid yw ieithoedd yn ein hysgol yn cael eu cefnogi a dweud y gwir – cawsom ein torri o bedair i dair awr yng Nghyfnod Allweddol 3 i roi mwy o amser i'r dyniaethau am eu bod yn "cyfrannu mwy at lythrennedd"!! Pwyntiau TGAU yw hyn i GYD a dod o hyd i bynciau y gall y disgyblion eu "pasio".'*

*'Mae angen gwneud i ddisgyblion ddeall bod ieithoedd yn rhan annatod o'r natur ddynol. Mae angen eu hatgoffa bod o leiaf ddwy iaith dramor yn cael eu dysgu ym mhob man yn Ewrop, hyd yn oed yn Lloegr, ac y byddant ar eu colled o ran cyfleoedd gyrfaol os nad ydynt yn astudio o leiaf un iaith dramor trwy gydol eu bywydau ysgol.'*

- **Y system arholiadau**

*'Mae fy ysgol yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ym mhob rhan o Gymru o ran ITM mewn addysg gyhoeddus. Mae'n mynd yn fwy a mwy ELITAIDD. Bydd canlyniadau'r TGAU newydd yn 2018 yn dangos hynny. Mae'n rhy anodd ar gyfer faint o addysgu mae'r plant hyn wedi'i gael! Mae'r niferoedd yn tystio hyn dro ar ôl tro! Mae'r ateb yn syml: cynyddu nifer yr oriau statudol o ITM sy'n cael eu dysgu yng Nghyfnod Allweddol 3! Gwneud hynny'n fwy na dim ond argymhelliad. Ei gwneud yn statudol i gael 2–3 awr yr wythnos a gallwch weld beth fydd yn digwydd!'*

*'I am very concerned that the new GCSE will put even more pupils off languages as it is 100 per cent exam. I would welcome a level 2 alternative for my less able pupils who love learning languages but wouldn't/can't cope with exams.'*

*'Rwyf yn bryderus am y ffordd mae TGAU Ffrangeg yn cael ei farcio (CBAC). Mae ffiniau'r graddau ar gyfer ysgrifennu a siarad yn newid drwy'r amser. Rhaid i ddisgyblion yn awr gael 14/20 i gael C mewn siarad ac ysgrifennu. Mewn Cymraeg, yn ôl yr hyn rwyf yn ei ddeall dim ond 9/20 sy'n rhaid i ddisgyblion ei gael i gael C mewn siarad yn yr hyn sy'n arholiad tebyg iawn. Rwyf yn teimlo ei bod bellach yn frwydr barhaus. Mae disgyblion yn colli calon gyda'u graddau. Rwyf wedi bod yn dysgu am 26 o flynyddoedd ac mae'r marcio / ffiniau graddau'n awr yn fwy llym. Roeddem yn arfer cyflawni tua 80 y cant A*-C yn gyson ond yn awr mae'n nes at 58 y cant. Mae hyn yn naturiol yn cael effaith ar y niferoedd sy'n dewis astudio lefel A. Roedd rhwng 12–18 o ddisgyblion yn arferol ar gyfer lefel A. Mae'n awr yn frwydr i gael pump.'*

- **Diffyg cefnogaeth systemaidd a chadarnhad o werth ieithoedd**

*'Wrth i ni gael ein gwthio fwy a mwy gan dablau perfformiad a dibyniaeth ar ganlyniadau, rwyf yn teimlo bod ysgolion yn gwthio / hyrwyddo rhai pynciau, i wella perfformiad yr ysgol yn y rhain. Oherwydd y niferoedd isel rydym ni'n darged hawdd yn ystod cyfnodau o galedi economaidd, pan rydym yn gweld nad ydym yn "hyfyw'n ariannol" oni bai bod gennym 10–12 o ddisgyblion ar gyfer lefel A / TGAU. Yn sicr mae prinder cyngor / arweiniad gyrfaol cyfoes o safon uchel sy'n pwysleisio pwysigrwydd ieithoedd yn gyson trwy'r ysgol.'*

*'Dywedir wrthym drwy'r amser nad ydym yn cynnig gwerth am arian gan fod ein dosbarthiadau'n fach iawn yng Nghyfnod Allweddol 4 ac nid yw'r canlyniadau'n wych yn ôl yr Uwch Dîm Arwain. Nid yw disgyblion yn teimlo bod ITM yn berthnasol i'w bywydau.'*

*'Mae dysgu ieithoedd mewn ysgol lle mae'r ymddygiad yn aml yn wael a lle mae'r etheg gwaith yr un mor wael yn gallu bod yn anodd iawn. Mae gen i athrawon cryf, profiadol a thalentog yn fy adran ac maent i gyd wedi cael llond bol ar frwydro i gynllunio gwersi diddorol nad yw disgyblion yn eu gwerthfawrogi. Mae ein hadnoddau'n brin o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb. Mae'r cwrs TGAU newydd yn un caled iawn o'i gymharu â phynciau eraill "haws", felly unwaith eto rydym yn cael ein cosbi. Bydd disgyblion yn siarad â'i gilydd yn ddigon i wneud iddynt beidio ag astudio Ffrangeg pan fyddant yn sylweddoli y gallant wneud hanner y gwaith mewn pwnc arall a bod yn sicr o gael gradd uchel. Ar ôl 31 mlynedd o ddysgu ITM, rwyf wedi cael llond bol ac wedi torri fy nghalon ac yn bwriadu gadael y proffesiwn yn fuan iawn.'*

*'Mae ITM yn cael eu diddymu gan Lywodraeth Cymru. Mae gormod o ymyrraeth wleidyddol wedi creu ymagwedd blwyfol ym mholisi addysg Cymru. Mae sgoriau Pisa isel a gyflawnwyd gan ddisgyblion Cymru yn y prawf Pisa diwethaf wedi creu sefyllfa lle cafodd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ei orfodi ar ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 3. Ymatebodd y penaethiaid yn ein hawdurdod ni trwy leihau'r amser oedd ar gael i ITM o bedair neu pum gwers pob pythefnos i dair er mwyn gallu dysgu'r Fframwaith. Ym mis Medi 2015 roedd dewisiadau opsiwn Blwyddyn 10 ar gyfer pynciau sylfaen wedi'u lleihau yn ein hysgol ni o bedwar pwnc i dri er mwyn ateb gofynion Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y graddau A/A* mewn TGAU. Roedd llawer o ddisgyblion a fyddai wedi dewis ITM pe baent wedi cael y cyfle yn dweud nad oedd ganddynt ddigon o ddewisiadau opsiwn i ddewis iaith fodern. Mae ITM yn isel iawn ar flaenoriaethau Llywodraeth bresennol Cymru.'*

## Prif bwyntiau

- Dim ond ychydig o amser sy'n cael ei neilltuo i ddysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 3 – yr unig gyfnod lle mae'r pwnc yn orfodol. Mae tua 40 y cant o ysgolion yn cynnig llai na'r isafswm o ddwy awr yr wythnos sy'n cael ei argymell gan Estyn
- Mewn mwy na dau draean o ysgolion, mae'r niferoedd sy'n dewis ITM yng Nghyfnod Allweddol 4 yn is na 25 y cant, a dywed 60 y cant o ysgolion eu bod wedi profi gostyngiad.
- Bagloriaeth Cymru a'r lleihad mewn opsiynau dewis yw'r prif resymau am y gostyngiadau mwyaf diweddar yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc hyd at TGAU.
- Mae athrawon yn credu mai gwella cyngor ar yrfaoedd, newid asesiad a marcio'r arholiad TGAU, cynyddu nifer y dewisiadau rhydd, a sicrhau bod ITM yn ymddangos ym mhob opsiwn fyddai'r ffordd orau o gynyddu'r niferoedd sy'n astudio ITM.
- Mae llawer wedi cyfrannu at yr ymdrechion i hyrwyddo ITM: mae 69 y cant o'r ysgolion a ymatebodd wedi bod yn gysylltiedig â'r cynllun Llwybrau at Ieithoedd. Fodd bynnag, er bod y rhain wedi cael effaith bositif ar agweddau, nid ydynt wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n astudio.
- Mae cydberthynas rhwng niferoedd isel sy'n astudio ITM ac ysgolion gyda chyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ysgolion sy'n gweithio mewn amgylchiadau mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ddweud nad yw eu disgyblion yn gwerthfawrogi dysgu ieithoedd, ac yn llai tebygol o fod wedi bod yn gysylltiedig ag ymdrechion i hyrwyddo ITM ymhlith disgyblion.
- Mae lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r Canolfannau Rhagoriaeth newydd, ac mae 62 y cant o'r ysgolion a ymatebodd eisoes mewn cysylltiad â'u canolfan leol. Mae athrawon yn gobeithio y byddant yn cynnig cyfle i rwydweithio, ac i rannu arferion gweithio ac adnoddau.
- Mae lefel uchel o gyfranogi mewn DPP a ddarperir gan fyrddau arholi (82 y cant) ac mewn digwyddiadau rhwydweithio a ddarperir gan awdurdodau lleol (67 y cant).
- Er nad yw mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn cael disgyblion sydd wedi astudio iaith yn barod yn eu hysgol gynradd, mae lefel gymharol uchel o gysylltiad ag ysgolion cynradd ar faterion ITM.
- Mae grwpiau ITM ôl-16 yn fychan iawn ac mae'r niferoedd yn gostwng. O ganlyniad, mae ITM ôl-16 yn mynd yn fwy a mwy anhyfyw o safbwynt ariannol.
- Mae ITM ar ei golled oherwydd y pwyslais ar y Gymraeg, rhifedd, STEM ac ymagwedd gul tuag at lythrennedd.

Bagloriaeth Cymru a'r lleihad mewn opsiynau dewis yw'r prif resymau am y gostyngiadau mwyaf diweddar yn y niferoedd sy'n astudio'r pwnc hyd at TGAU



Pennod 5

# Astudiaethau achos a chyfweliadau â disgyblion, athrawon a phenaethiaid

# Bu i'r ymchwilwyr gyfweld aelodau o Dimoedd Uwch-reolwyr ysgolion ynghyd â Phenaethiaid Ieithoedd, yn ogystal ag arwain grwpiau ffocws gyda disgyblion.

Bu ymchwilwyr yn cyfweld ag aelodau o Uwch Dimau Rheoli a Phenaethiaid Ieithoedd ysgolion yn ogystal â chynnal grwpiau ffocws â disgyblion. Roedd pob ysgol yr ymwelwyd â hi wedi cael canlyniadau cyrhaeddiad yn uwch na'r cyfartaledd mewn ITM ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, ac roedd pob un â chyraeddiadau uwch yn gyffredinol, yn seiliedig ar ganran y disgyblion sy'n ennill o leiaf pum gradd TGAU dda ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 gan gynnwys Mathemateg a naill ai Cymraeg neu Saesneg. Dyma feini prawf 'Trothwy Lefel 2' a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan bob un niferoedd is na'r cyfartaledd o disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac nid oes gan yr un niferoedd sylweddol o ddisgyblion sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) .[21]

Mae'r tudalennau canlynol yn darparu pedair astudiaeth achos wedi'u dilyn gan fanylion ein cyfweliadau gyda disgyblion, athrawon a phenaethiaid.

[21] Daw'r data o www.fyysgolleol.gov.cymru. Ffigurau 2015 yw'r rhain oni nodir yn wahanol.

# Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg, y Barri

**Canolig:** Cymraeg

**Nifer y disgyblion:** 819 (Cymysg)

**Ystod oedran:** 11–18

**% y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:**[22] 7.6%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 3 sydd yn cyrraedd lefel 5 mewn ITM:**[23] 96%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n cyflawni trothwy lefel 2 mewn Cymraeg/ Saesneg a mathemateg:**[24] 67.6%

**% Disgyblion SIY:**[25] Amh (3% lleiafrifoedd ethnig)[26]

**Ysgol Gymraeg sy'n tyfu yw Bro Morgannwg, a hithau wedi'i lleoli yn y Barri, mae disgwyl iddi ddyblu mewn maint yn ystod y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae 120 o ddisgyblion ym mlwyddyn 9 a 180 ym mlwyddyn 7.**

Bu ieithoedd yn cael eu haddysgu mewn ysgol gynradd sy'n bwydo'r Ysgol ond daeth yr arian ar gyfer hyn i ben. Mae'r grŵp cyntaf a brofodd hyn bellach yn y chweched dosbarth ac mae'r athro'n dweud y ceir gwahaniaeth amlwg yn eu canlyniadau mewn ieithoedd, a'r rheini'n dda iawn.

Bellach mae pawb ym mlwyddyn 7 yn dechrau *Ffrangeg ab initio*. Maent yn derbyn tair awr bob pythefnos ym mlynyddoedd 7 a 8. Ym mlwyddyn 9 maent yn derbyn dwy awr bob pythefnos o Ffrangeg a dwy awr bob pythefnos o Sbaeneg. Mae hyn yn galluogi pob disgybl i gael rhagflas o'r Sbaeneg ac i benderfynu pa iaith i'w chymryd, os o gwbl, ar gyfer TGAU. Ar hyn o bryd mae 35 disgybl yn cymryd Ffrangeg ym mlwyddyn 11, a 26 yn cymryd Sbaeneg, sef tua hanner y garfan. Mae'r pennaeth ieithoedd yn disgrifio perswadio disgyblion i gymryd ieithoedd fel *'brwydr'* gan eu bod am wneud pynciau sy'n haws. Dywed hefyd ei bod yn *'frwydr yn erbyn y gwyddorau'.*

Fodd bynnag, mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei chyfraddau cadw o TGAU i Safon Uwch. Ym Mlwyddyn 12 ar hyn o bryd mae wyth yn Ffrangeg a phump yn gwneud Sbaeneg. Ym mlwyddyn 13 mae 15 wrthi'n gwneud Ffrangeg a phump arall yn gwneud Sbaeneg. Mae blwyddyn 12 y flwyddyn nesaf yn edrych yn iach hefyd. Dyma'r hyn y mae pennaeth yr adran yn ei nodi'n rheswm dros hyn *'Trylwyredd! Maen nhw'n gwybod ein bod yn gofalu a'n bod ni am iddyn nhw wneud yn dda.'*

Ceir teithiau i Ffrainc a Sbaen yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth, er bod yn rhaid canslo taith eleni i Baris oherwydd yr ymosodiadau terfysgol yno. Byddai'r ysgol wrth ei bodd yn cyflogi FLA ond nid oes cyllideb i wneud.

Er mai Ysgol Gymraeg ydyw, mae 95 y cant o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith; mae rhieni wedi dewis addysg Gymraeg i'w plant o oedran cynnar, ac maent yn agored iawn i ieithoedd eraill hefyd. Ystyrir hyn yn fantais 'lwyr', yn ôl pennaeth ieithoedd yr Ysgol, gan fod dysgu dwy iaith o oedran cynnar yn galluogi plant 'i feddwl mewn dwy ffordd' ac yn 'agor y meddwl'. Er bod rhieni yn gefnogol ar y cyfan, mae'r dalgylch wedi'i 'begynnu' ac mae tuedd i blant disglair gael mwy o gymorth gan eu rhieni. Mae'r athro yn teimlo bod hyn yn rhoi i ieithoedd ddelwedd 'elitaidd' anffodus.

Dysgir Ffrangeg a Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg, a rhoddir pwyslais mawr ar 'lythrennedd triphlyg'. Roedd yr ysgol yn astudiaeth achos yn y prosiect Llythrennedd Triphlyg a ariannwyd gan y Llywodraeth ac a ddarparwyd gan CILT Cymru. Anogir plant i symud rhwng ieithoedd a gweld patrymau yn hytrach na *'phentwr o eirfa ddatgysylltiedig'.* Mae'r ysgol yn defnyddio dull sy'n cyffredin â'r Saesneg mewn ysgolion cynradd a elwir yn 'ysgrifennu mawr', lle adeiledir brawddegau drwy ganolbwyntio ar strwythurau.

[22] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 17.5%
[23] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 84.1%
[24] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 57.9%
[25] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 2.8%
[26] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 8.4%

# Astudiaeth Achos 2: Ysgol Gyfun Trefynwy, Sir Fynwy

**Canolig:** Saesneg

**Nifer y disgyblion:** 1,638 (Cymysg)

**Ystod oedran:** 11–18

**% y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:**[27] 7.8%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 3 sydd yn cyrraedd lefel 5 mewn ITM:**[28] 88%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n cyflawni trothwy lefel 2 mewn Cymraeg/ Saesneg a mathemateg:**[29] 68.4%

**% Disgyblion SIY:**[30] 0.5% (ffigur 2014)

**Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn ysgol fawr, Saesneg ei chyfrwng yng nghanol Trefynwy. Mae oddeutu 26 y cant o ddisgyblion yn dod o Loegr ac yn teithio bob dydd, a'r rheini wedi eu denu gan enw rhagorol yr ysgol. Mae wyth prif ysgol gynradd yn bwydo'r ysgol ac mae'n derbyn disgyblion gan 30 ysgol arall. Ychydig iawn o ddisgyblion SIY sydd ganddi. Mae pob disgybl sy'n ymuno â'r ysgol o ysgolion cynradd yn Lloegr yn dechrau dysgu Cymraeg ym mlwyddyn 7, gan gymryd naill ai cwrs TGAU 'byr' neu 'lawn' yn Gymraeg. Mae maint mawr yr ysgol yn hwyluso hyblygrwydd yn y cwricwlwm, sy'n golygu y gellir diwallu anghenion disgyblion unigol a hefyd bod modd darparu o hyd ar gyfer grwpiau bach (llai na phum disgybl ar lefel Safon Uwch a llai na 14 ar lefel TGAU). Mae'r ysgol yn gefnogol iawn i ieithoedd tramor ac yn cynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg er mai'r disgyblion mwy galluog sy'n tueddu i ddewis astudio ieithoedd. Mae'r ysgol yn gallu cynnig ieithoedd tramor ar lefel Safon Uwch drwy ddefnyddio'r cyfnod allgyrsiol a adwaenir fel 'Cyfnod 6'i'r perwyl hwn.**

Mae pob disgybl yn astudio Ffrangeg o flynyddoedd 7 i 9 ac yn cael pedair gwers bob pythefnos, er hyn nid yw'r rhain wedi eu dosbarthu'n gyfartal bob amser a gall amlder gwael gael effaith ar gofio'r iaith. Cynigir Sbaeneg ac Almaeneg i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dilyn sesiynau blasu yng Nghyfnod Allweddol 3 i gyflwyno disgyblion i ieithoedd newydd. Mae'r dosbarthiadau iaith ym mlwyddyn 7 yn rhai gallu cymysg. Ym mlynyddoedd 8 a 9 mae disgyblion yn cael eu grwpio yn ôl gallu, yn sgil eu sgorau yn Gymraeg a Ffrangeg. Gwneir hyn fel bo modd cefnogi disgyblion sy'n profi heriau mewn un iaith gan athrawon Ffrangeg a'r Gymraeg yn gweithio gyda'i gilydd, gan ei bod yn bosibl bod yr anawsterau yn amlwg yn y ddwy iaith.

Dim ond un myfyriwr sydd wedi'i ddatgymhwyso rhag astudio ieithoedd. Mae ychydig o fyfyrwyr yng Nghyfnod Allweddol 3, sydd â sgoriau gwybyddiaeth isel ac yn ei chael yn anodd caffael pob iaith am nifer o resymau, yn astudio ieithoedd drwy raglen iaith bwrpasol sy'n eu helpu i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol.

Er gwaethaf y ffaith bod ychydig dros chwarter o ddisgyblion blwyddyn 7 yn cyrraedd o ysgolion cynradd yn Lloegr lle maent wedi astudio iaith dramor yng Nghyfnod Allweddol 2, nid yw'r ysgol yn sylwi ar unrhyw wahaniaeth mewn gallu ITM rhwng y disgyblion hyn a'u cyfoedion o ysgolion yng Nghymru nad ydynt wedi astudio iaith dramor o'r blaen. Mae'r ysgol yn credu bod a wnelo hyn efallai â'r ffaith bod dysgu iaith mewn ysgolion cynradd yn seiliedig ar gynnwys yn hytrach na sgiliau.

Yn y gorffennol bu 40% yn astudio ieithoedd o flwyddyn 9 ymlaen, ac er bod hyn wedi llithro yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwneir ymdrechion i ddychwelyd i'r ffigur hwn. O ran y flwyddyn gyfredol (2015/16) cyfradd astudio ITM ar draws Cyfnod Allweddol 4 (tua 250 o ddisgyblion) yw 82 o ddisgyblion (33 y cant) ym mlwyddyn 9, 80 o ddisgyblion (32 y cant) ym mlwyddyn 10 a 70 o ddisgyblion (28 y cant) ym mlwyddyn 11.

Mae'r ysgol yn ystyried y Fagloriaeth Gymreig yn gyfle newydd sy'n cydnabod pwysigrwydd astudio'r byd ehangach; mae'n credu bod polisi Llywodraeth Cymru 'dwyieithog + 1' yn ysgogi ac yn annog datblygu sgiliau iaith. Fodd bynnag, yr her yw creu cwricwlwm amrywiol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr heb leihau'r mesurau atebolrwydd allweddol – Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, a Chymraeg.

Er gwaethaf ymarferwyr ITM rhagorol ac ymroddedig, mae recriwtio athrawon ieithoedd tramor modern da yn her i'r ysgol. Mae'r pennaeth yn credu bod angen i'r sefyllfa hon newid yn yr holl ysgolion os yw'r wlad i wella ei pherfformiad mewn ITM. ym mhrofiad yr ysgol hon, nid oes digon o ddynion yn hyfforddi i fod yn athrawon ieithoedd tramor modern, ac mae athrawon yn gadael y proffesiwn oherwydd cynnydd systemig mewn pwysau ac atebolrwydd, ac oherwydd y bod y pwyslais ar gynllun arholi penodol yn amharu ar eu creadigrwydd.

[27] Cyfartaledd Cenedlaethol Cymru 17.5%
[28] Cyfartaledd Cenedlaethol Cymru 84.1%
[29] Cyfartaledd Cenedlaethol Cymru 57.9%
[30] Cyfartaledd Cenedlaethol Cymru 2.8%

## Astudiaeth Achos 3: Ysgol Alun, yr Wyddgrug, Sir y Fflint

**Canolig:** Saesneg

**Nifer y disgyblion:** 1,661 (Cymysg)

**Ystod oedran:** 11–18

**% y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:**[31] 9.3%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 3 sydd yn cyrraedd lefel 5 mewn ITM:**[32] 91%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n cyflawni trothwy lefel 2 mewn Cymraeg/ Saesneg a mathemateg:**[33] 78.9%

**% Disgyblion SIY:**[34] 0.5

**Mae Ysgol Alun yn ysgol gyfun gydaddysgol cyfrwng Saesneg sy'n darparu ar gyfer disgyblion sy'n dod o ddalgylch economaidd-gymdeithasol amrywiol sy'n cynnwys yr Wyddgrug a'r pentrefi cyfagos. Mae'n derbyn 244 disgybl bob blwyddyn a chaiff disgyblion eu rhannu'n naw grŵp tiwtor ar wahân.**

O flwyddyn 7 i 9, bydd disgyblion yn dysgu Ffrangeg neu Almaeneg (neilltuir pum grŵp i Ffrangeg a phedwar i Almaeneg). Trwy gydol Cyfnod Allweddol 3, mae disgyblion yn derbyn dwy awr yr wythnos o ddysgu naill ai yn Ffrangeg neu Almaeneg. Ym mlwyddyn 9, mae'r disgyblion mwy galluog hefyd yn cael y cyfle i ddechrau iaith nad ydynt wedi ei dysgu o'r cychwyn o'r blaen. Prin iawn yw'r ieithyddion deuol er bod modd i ddisgyblion gymryd dwy iaith.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfnewidfeydd rheolaidd gydag ysgolion yn yr Almaen a Ffrainc; mae hefyd yn rheoli cynllun 'ffrindiau gohebol'. Yn 2014 fe wnaeth yr ysgol ennill gwobr am ei gwaith mewn ieithoedd (Almaeneg, yn benodol) gan yr Academi Brydeinig ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio iaith ar lefel TGAU. Yn y gorffennol bu oddeutu 90 yn astudio ieithoedd tramor, ond mae hyn wedi gostwng i 60 ers lleihau llinellau opsiwn TGAU o bump i dri. Fodd bynnag, mae ymdrechion yr uwch dîm arwain i gefnogi ITM wedi cael effaith gadarnhaol o ran perswadio mwy o ddisgyblion i gymryd iaith dramor i lefel TGAU. Caiff unrhyw ddisgybl sydd am gymryd iaith i lefel TGAU wneud hynny; fodd bynnag, gellid annog nifer fach iawn o ddisgyblion i astudio pynciau eraill yn lle hynny, os bydd hyn yn golygu eu bod yn debygol o fod yn llwyddiannus yn yr arholiadau.

Yn y flwyddyn academaidd 2015/16, mae wyth disgybl yn gwneud cymhwyster Uwch Atodol mewn Almaeneg a saith yn gwneud A2. O ran Ffrangeg, 15 sydd yn astudio am gymhwyster uwch atodol a thri ar lefel A2. Er bod y grwpiau Safon Uwch ar gyfer ieithoedd yn fach ac yn aml iawn yn is na maint y garfan sydd ei hangen i'r dosbarth fod yn hyfyw yn ariannol, mae'r pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain wedi ymrwymo i ieithoedd ac wedi neilltuo amser i fynd ati i annog disgyblion i ddewis ieithoedd ar lefel TGAU a Safon Uwch. Eglurir i ddisgyblion y bydd angen iddynt gystadlu â disgyblion o Loegr ar gyfer lleoedd mewn prifysgolion, ac mae'n bwysig nad ydynt o dan anfantais.

Yn Ysgol Alun y ceir y ganolfan Safon Uwch fwyaf yng Nghymru, gyda 80 y cant o'r disgyblion yn cyflawni A i C mewn Safonau Uwch (94 y cant yn achos y fanyleb cyn-2009). Yn gyffredinol, mae canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Mae niferoedd ar gyfer ieithoedd yn dirywio, ac mae athrawon yn teimlo bod ITM yn bwnc mwyfwy elitaidd.

[31] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 17.5%
[32] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 84.1%
[33] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 57.9%
[34] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 2.8%



## Astudiaeth Achos 4: Ysgol Bro Dinefwr, Llandeilo

**Canolig:** Dwyieithog

**Nifer y disgyblion:** 1,185 (Cymysg)

**Ystod oedran:** 11–18

**% y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:**[35] 11.2%

**% o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn cyrraedd lefel 5 mewn ITM:**[36] 87.8%

**% y disgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n cyflawni trothwy lefel 2 mewn Cymraeg/ Saesneg a mathemateg:**[37] 63.3%

**% Disgyblion SIY:**[38] Amh Lleiafrifoedd ethnig 3.1%

**Mae Ysgol Bro Dinefwr yn ysgol gyfun ddwyieithog Saesneg/Cymraeg sy'n darparu ar gyfer disgyblion sy'n dod o ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg. O'r saith grŵp addysgu prif ffrwd ymhob blwyddyn, mae dau yn gyfrwng Saesneg ac mae pump yn gyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog.**

Mae pob grŵp yn dysgu Ffrangeg yng Nghyfnod Allweddol 3 (dwy awr yr wythnos). Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag AAA, sydd dim ond yn cael eu datgymhwyso os ydynt yn destun datganiad; mae'r disgyblion hyn yn cael awr o Ffrangeg yr wythnos. O flwyddyn 8, mae pedwar o'r saith grŵp (yn seiliedig ar allu) yn gallu dewis gwneud Sbaeneg yn ogystal. Mae'r tri grŵp sy'n weddill yn gwneud gwaith ychwanegol ar lythrennedd. Ym mlwyddyn 8, mae disgyblion yn cael tair awr o hyfforddiant bob pythefnos o Ffrangeg a dwy awr bob pythefnos o Sbaeneg. Dysgir Ffrangeg a Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg, gan ddibynnu ar y grŵp. Cynigir y cyfle i ddysgu Eidaleg fel pwnc cyfoethogi i'r 25 y cant uchaf ym mlwyddyn 10.

Yn ychwanegol at y pynciau craidd y mae pob disgybl yn eu cymryd i lefel TGAU, mae pob disgybl yn gwneud eu dewisiadau ym mlwyddyn 9 o ddewislen o 32 o bynciau gwahanol. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd sy'n dewis Ffrangeg wedi lleihau, tra bo'r Sbaeneg yn gweld cynnydd. Cyrhaeddwyd y lefel isaf erioed dair blynedd yn ôl, a dim ond 10 y cant o'r garfan yn dewis Ffrangeg, gyda 16 y cant yn dewis Sbaeneg. Fodd bynnag, gan fod cronfa lai o ddisgyblion a all ddewis Sbaeneg, byddai disgwyl niferoedd is ar gyfer Sbaeneg na Ffrangeg.

Bu codi niferoedd yn flaenoriaeth adrannol ac mae llawer o fentrau wedi'u rhoi ar waith. O ganlyniad, y llynedd fe wnaeth nifer y disgyblion sy'n dewis Ffrangeg gynyddu o 10 i 28 y cant. Mae Sbaeneg (ac Eidaleg) wedi aros yn sefydlog. Mae cynifer â 46 y cant o garfan gyfredol Blwyddyn 10 yn cymryd iaith dramor ar lefel TGAU, o gymharu â 23 y cant cyffredinol o flwyddyn 11.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau TGAU yr ysgol yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ar gyfer Ffrangeg a Sbaeneg. Gallai carfan dda gynhyrchu 75-80 y cant o raddau A* i C mewn ieithoedd tramor, a gall fod mor uchel â 100 y cant ar gyfer Sbaeneg ac Eidaleg.

Yn ddiweddar, mae'r Pennaeth ieithoedd wedi cynnal arolwg o'r holl ddisgyblion sydd yn astudio iaith ym mlwyddyn 10 gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r hyn sy'n cymell disgyblion i gynnwys iaith wrth dewis cyrsiau TGAU. Datgelodd yr arolwg fod gwella eu gyrfaoedd yn y dyfodol yn sbardun o bwys sy'n dylanwadu ar ddisgyblion. Mae ffactorau eraill yn cynnwys mwynhau ieithoedd ac awydd i deithio. Dywedodd y disgyblion hefyd fod y gweithgareddau ysgol a oedd wedi cael yr effaith gadarnhaol fwyaf arnynt oedd yr uned waith ar yrfaoedd a theithiau i wledydd eraill lle y gallent ymarfer yr iaith roeddent yn ei dysgu.

Mae'r ysgol wedi penodi nifer o disgyblion llysgenhadon ar gyfer ieithoedd. Mae'r syniad yn estyniad o'r prosiect Llwybrau i Ieithoedd sydd wedi gweithio â myfyrwyr israddedig mewn Prifysgolion. Mae llysgenhadon disgybl yn gyfrifol am hyrwyddo'r ieithoedd i ddisgyblion iau yn yr ysgol ac am drefnu amrywiaeth o weithgareddau i roi proffil uwch i ieithoedd o fewn yr ysgol.

Mae'r gyfradd trosi o TGAU i Safon Uwch yn isel iawn. Mae'r chweched dosbarth yn cynnwys 120 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 12 ac 80 i 90 ym Mlwyddyn 13. Mae'r ysgol yn cynnig Safonau Uwch mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg, ond dim ond tri sy'n gwneud pob iaith dramor i lefel Uwch Atodol, un yn unig yn gwneud A2 Ffrangeg ac Eidaleg, a thri yn gwneud A2 mewn Sbaeneg. Mae Pennaeth yr adran o'r farn, pan fyddant yn y chweched dosbarth, bod y disgyblion yn canolbwyntio ar gyrsiau Prifysgol y maent yn gweithio tuag atynt. Adeg astudio at Safon Uwch, maent yn debygol o ddewis astudio iaith dim ond os ydynt yn cynllunio i wneud hynny yn y brifysgol. Mae'r ysgol yn credu ei bod yn eithriadol o bwysig i gynnig ieithoedd i Safon Uwch ond mae maint bach iawn y grwpiau yn her ariannol go iawn. Hefyd mae cyfyngiadau ariannol yn golygu nad yw'r yr ysgol bellach yn gallu cyflogi FLA.

[35] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 17.5%
[36] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 84.1%
[37] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 57.9%
[38] Cyfartaledd cenedlaethol Cymru 2.8%

## Tystiolaeth o gyfweliadau a grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r ymweliadau astudiaeth achos ag ysgolion

Roedd llawer o gyfweliadau a grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan ymchwilwyr yn ystod ymweliadau ysgol yn darparu cyfle ar gyfer trafodaethau manwl am addysgu a dysgu ieithoedd tramor ag arweinwyr ysgolion a disgyblion yn ogystal ag athrawon a rhieni hyd yn oed. Mae llawer o safbwyntiau a fynegwyd yn ychwanegu manylion pellach at y dystiolaeth ansoddol a meintiol a gasglwyd drwy arolwg ar-lein i bob ysgol.

**Arweinwyr ysgol**

Roedd yr arweinwyr yr ysgol y cyfwelwyd â hwy yn gefnogol iawn i ieithoedd ac yn amlwg yn deall gwerth disgyblion eu hysgolion yn dysgu iaith dramor. Fe wnaeth un pennaeth grynhoi manteision lawer ITM fel a ganlyn:

> *'Ieithoedd tramor modern yw'r pwnc gorau ar gyfer hyfforddi'r ymennydd – fersiwn llafar o Sudoko. Mae'n darparu hyfforddiant i'r cof a galw i gof, trefnu, prosesu a dadadeiladu.'*

Er gwaethaf yr heriau sy'n codi o amrywiaeth eang o fentrau cenedlaethol, rhyddid disgyblion i ddewis o ystod eang o bynciau, gofynion y Fagloriaeth Gymreig a'r cyfyngiadau cyllidebol, mynegodd arweinwyr yr ysgol y cyfwelwyd â hwy eu hymrwymiad i ddod o hyd i ddulliau o sicrhau bod ieithoedd tramor modern yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r cwricwlwm eu hysgol, yn arbennig ar lefel lle mae niferoedd y disgyblion yn gyffredinol fach iawn:

> *'Rydym yn benderfynol o gadw ein dosbarthiadau iaith Safon Uwch yn mynd er eu bod yn fach iawn. Er mwyn rhoi cynnig ar eu gwneud yn fwy hyfyw bu'n rhaid lleihau amser cyswllt (pump awr yr wythnos ar hyn o bryd) ar gyfer pob blwyddyn 12 ac 13 o 20 y cant. Gallwn wneud hyn drwy amserlennu un awr yr wythnos pan fydd ddau grŵp blwyddyn yn gweithio gyda'i gilydd ar ryw agwedd ar y cwrs. Mae hyn hefyd yn annog cefnogaeth a dysgu rhwng cymheiriaid.'*

**Athrawon**

Yn ddieithriad, mae athrawon ieithoedd tramor modern, yn ogystal ag addysgu eu pwnc arbenigol yn yr ystafell ddosbarth, yn gorfod mynd ati i hyrwyddo manteision ieithoedd yn egnïol i ddisgyblion nad ydynt yn aml yn argyhoeddedig am bwnc sy'n ymddangos yn anos na'r pynciau eraill sydd ar gael ac nad ydynt yn ei weld yn berthnasol i'w dyfodol. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan athrawon mae'r canlynol:

> *'Un rhwystr i ddisgyblion yw bod angen iddynt wybod mwy am fanteision ieithoedd – nid yn unig gan yn yr ysgol ond o'r tu allan hefyd...'*

> *'Rhaid inni weithio'n galed i hyrwyddo ieithoedd i'n disgyblion.'*

Mae llawer o athrawon ITM yn teimlo bod ieithoedd yn dod yn bwnc 'elitaidd', dim ond i'r disgyblion hynny sydd â gallu uchel neu rai o gefndiroedd mwy cefnog y mae eu rhieni wedi teithio ac sydd efallai'n cymryd gwyliau rheolaidd dramor. Fodd bynnag, yng ngeiriau un athro:

> *'Dwi'n meddwl bod pawb yn gallu gwneud yn dda mewn iaith, ond mae a wnelo'r peth ag amser a chymorth.'*

Mae llawer o athrawon ITM yn teimlo bod ieithoedd yn dod yn bwnc 'elitaidd', dim ond i'r disgyblion hynny sydd â gallu uchel neu rai o gefndiroedd mwy cefnog

Cyfleoedd a heriau'r TGAU newydd oedd y pwnc mwyaf cyffredin ym meddyliau athrawon yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos. Mae llawer yn credu y bydd yr arholiad newydd yn fwy anodd na'r un cyfredol, ac maent yn ymrafael â sut y byddant yn gallu ymestyn eu disgyblion hyd yn oed ymhellach. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r athrawon y cyfwelwyd â hwy yn gadarnhaol ynghylch y manylebau newydd fel y dengys y sylwadau canlynol:

> *'Bydd y TGAU newydd yn ei gwneud yn bosibl i ddisgyblion astudio pwnc naill ai ar lefel uwch neu sylfaen. Bydd hyn yn gwneud ieithoedd yn hygyrch i fwy o ddisgyblion.'*

> *'A bod yn realistig, mae'r newidiadau ar lefel TGAU yn anodd – nid yw'n faes chwarae gwastad. Mae'r arholiad newydd yn agosach i lefel Uwch Atodol. Yr her a wynebwn yw sut mae sicrhau bod disgyblion a allai gyflawni C yn yr arholiad cyfredol yn mynd hyd yn oed ymhellach. Mae ieithoedd eisoes yn cael eu hystyried yn anos na phynciau eraill.'*

> *'Dwi ddim yn hoffi'r TGAU cyfredol a dwi'n falch bod yr asesiadau dan reolaeth yn mynd, ond dwi'n credu y gallai'r un newydd fod yn naid fawr iawn. Rwy'n hoffi'r ffaith bod y cwbl yn mynd i fod ar ffurf arholiad terfynol. Bydd disgyblion yn dysgu i gymryd y peth o ddifrif ac yn cynyddu ymdrech. Gall disgyblion brofi her o orfod sefyll tri arholiad ysgrifennu. Ymddengys fod bloc meddwl ganddynt am ramadeg – dwi ddim yn siŵr os bydd hynny'n newid pan ddaw'r yr arholiad newydd i mewn.'*

**Disgyblion**

Cynhaliwyd grwpiau ffocws yn yr holl ysgolion yr ymwelwyd â hwy a oedd yn cynnwys detholiad eang o ddisgyblion o flynyddoedd 7-10. Mynegodd rhai yng Nghyfnod Allweddol 3 rai safbwyntiau diddorol am iaith a dysgu yn gyffredinol, gydag un disgybl sydd yn amlwg yn rhyfeddu at ieithoedd gan ddweud:

> *'Dwi'n hoffi ieithoedd gyda gwyddor wahanol oherwydd mae fel cod cyfrinachol.'*

Dywedodd un arall:

> *'Dwi'n hoffi dysgu ieithoedd oherwydd maen nhw'n caniatáu i chi gael profiad o wahanol ddiwylliannau a deall gwledydd eraill yn well.'*

Roedd llawer o ddisgyblion yn chwim i gyfleu manteision medru siarad iaith heblaw am y Gymraeg neu Saesneg, ond yn realistig am yr ymdrech sydd ynghlwm wrth hyn:

> *'Mae'n cymryd amser hir i ddysgu iaith fel nethon ni ddysgu Cymraeg (yn naturiol) ond licen i ddysgu ieithoedd eraill yn yr un modd.'*

> *'Mae dysgu ieithoedd yn cymryd amser, ond mae werth yr ymdrech. Dyw ieithoedd ddim yn anos na phynciau eraill.'*

> *'Doedd pobl eraill yn fy mlwyddyn ddim yn cymryd iaith oherwydd bod rhai yn meddwl ei bod yn fygythiol a doedd rhai eraill ddim yn ei gweld yn berthnasol. Dydy perthnasedd iaith bob amser yn amlwg ac mae rhai pobl yn credu ei bod yn anos o lawer na phynciau eraill. MAE'N her ond mae hefyd yn hwyl ac yn borth i hanes a diwylliant.'*

Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion hynny a gafodd eu cyfweld sydd wedi dewis astudio iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 hefyd yn argyhoeddedig o'r manteision tymor hir o ddysgu iaith arall yn ychwanegol at y Gymraeg a Saesneg. Roedd rhai yn ystyried bod ieithoedd yn ddefnyddiol ar gyfer Prifysgol yn ogystal â bywyd yn gyffredinol, er enghraifft:

Roedd llawer o ddisgyblion yn chwim i gyfleu manteision medru siarad iaith heblaw am y Gymraeg neu Saesneg, ond yn realistig am yr ymdrech sydd ynghlwm wrth hyn

*'Mae ieithoedd yn caniatáu mwy o gyfleoedd i ddewis beth i'w wneud â'ch bywyd.'*

*'Ro'n i'n ben set ar wneud Drama yn y Brifysgol ond dwi'n credu y bydden i'n hoffi gwneud Ffrangeg a chael blwyddyn dramor. Mae fy nghyfnither wedi gwneud hynny a chafodd hi amser gwych.'*

*'Dwi'n cynllunio gwneud Lefel A Almaeneg oherwydd bod llawer o brifysgolion yn hoffi ieithoedd – mae siarad iaith yn rhoi mantais i chi pan fyddwch yn gwneud cais i brifysgol.'*

*'Mae siarad iaith yn fantais bendant a dwi'n credu bod rhai o'm cyfoedion yn dymuno siarad ieithoedd eraill.'*

Disgrifiodd eraill fanteision tymor hir sgiliau iaith ochr yn ochr ag arbenigeddau eraill, fel y dengys y sylw canlynol:

*'Dwi am fod yn ffisegydd ond dwi am gadw iaith dramor hefyd gan y bydd yn ddefnyddiol iawn i mi, er enghraifft, os oes bydd cyfle i weithio yn Cern gyda gwyddonwyr eraill.'*

Fodd bynnag, mae un disgybl sydd yn amlwg yn mwynhau dysgu Almaeneg ac a oedd disgwyl i wneud yn dda yn ei TGAU, yn teimlo bod arbenigo mewn pynciau eraill yn golygu na allai hi barhau â'r iaith:

*'Dwi ddim yn credu bydda i'n astudio Almaeneg ar ôl TGAU oherwydd dwi am astudio meddygaeth ac mae angen imi ddewis pynciau eraill Lefel A. Hoffwn i barhau i wella fy Almaeneg, ond dwi'n teimlo bod rhaid i mi ddewis.'*

Un o'r prif resymau am beidio â pharhau gydag iaith yw eu bod yn cael ieithoedd yn anodd

Bu'r ymchwilwyr hefyd yn cyfweld â nifer o ddisgyblion a oedd wedi dewis PEIDIO ag astudio iaith dramor ar ôl cael y cyfle i ddewis peidio â gwneud. Fel y dengys rhai o sylwadau'r disgyblion hyn, un o'r prif resymau dros beidio â pharhau ag iaith yw eu bod yn cael ieithoedd anodd, er enghraifft:

*'Dwi'n ei chael hi'n anodd i ddysgu ieithoedd. Dyw e ddim yn glynu yn fy mhen. Mae angen mwy o amser arna i'*

*'Rwy'n credu mod i'di gael e, ond mewn arholiad, mae'n diflannu.'*

*'Dwi wedi dewis gwneud Tecstilau/Cyfrifiadureg ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dwi ddim yn dda yn Gymraeg felly dwi ddim am ddysgu iaith arall ar ben. Mae angen imi ganolbwyntio ar y Gymraeg.'*

*'Bydden i'n dod nôl i Ffrangeg pe bawn yn well yn Gymraeg.'*

Fodd bynnag, i rai disgyblion nid yw ieithoedd mor ddifyr, fel y dengys y sylwadau canlynol gan ddau o'r disgyblion y cyfwelwyd â hwy:

*'Dwi ddim yn hoffi'r ffordd mae'n rhaid i mi ynganu geiriau. Nid jyst Ffrangeg yw e– dwi'di gwneud y cwbl (Ffrangeg/Almaeneg/Cymraeg a Sbaeneg) – dwi ddim yn hoffi unrhyw un ohonyn nhw. Fyddwn i ddim yn hoffi Tsieineeg chwaith oherwydd allwn i ddim hyd yn oed yn ysgrifennu pethau i lawr.'*

*'Dwi ddim yn ei hoffi. Dwi'n credu oherwydd ein bod ni'n gwneud Cymraeg hefyd. Mae'n ddryslyd. Mae gormod o ieithoedd a dwi'n ei anghofio ar ôl y wers. Dwi jyst ddim yn gallu cofio geiriau.'*

**Rhieni**

Gall rhieni ddylanwadu'n sylweddol ar eu plant yn y penderfyniadau ynghylch a ddylid parhau i astudio iaith ar ôl Cyfnod Allweddol 3. Dywedodd un disgybl a oedd yn awyddus iawn i barhau â'i astudiaethau iaith dramor:

> *'Baswn i wir yn hoffi gwneud gradd ag iaith. Byddai gwneud Erasmus + yn fy ngwneud yn fwy rhugl. Dyna wnaeth fy nhad – blwyddyn ym Mecsico.'*

Mae llawer o athrawon hefyd yn mynegi bod rhieni cefnog yn fwy tebygol o fod yn gefnogol i'w plant ddysgu ieithoedd na'r rhai o dan amgylchiadau economaidd-gymdeithasol mwy heriol. Yng ngeiriau un athro:

> *'Mae teuluoedd dosbarth canol yn deall y peth, ond mae'n frwydr erbyn ynysigrwydd.'*

Fodd bynnag, fe wnaeth un rhiant o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol llai cefnog y datganiad canlynol a ddatgelodd ymrwymiad cryf at ei blant yn dysgu ieithoedd yn yr ysgol:

> *'Mae fy nau blentyn wrthi'n dysgu Cymraeg a Ffrangeg a dwi'n falch iawn oherwydd ei bod yn bwysig iddyn fedru ieithoedd eraill a fydd yn eu helpu i gael swyddi gwell. Rŷn ni'n byw yn Lloegr, ond byddwn i wedi symud yma er mwyn i'm plant fynd i'r ysgol hon.'*

## Pwyntiau Allweddol

- Mae rôl y pennaeth ac uwch reolwyr yn hollbwysig ar gyfer creu amgylchedd lle mae ieithoedd tramor modern â lle gwerthfawr ochr yn ochr â Saesneg a Chymraeg.
- Nid yw'r profiad o ddysgu Cymraeg, mewn sawl achos, wedi creu dysgwyr iaith hyderus sy'n cofleidio trydedd iaith yn hawdd. Mae llawer o ddisgyblion, yn enwedig rhai o allu academaidd is, yn ei chael yn anodd dysgu iaith ac yn ei gweld fel 'cofio geiriau' yn unig.
- Er bod athrawon a phenaethiaid yn credu bod disgyblion o bob gallu yn ymelwa ar ddysgu iaith dramor, mae pwysau ar opsiynau yn tueddu i waethygu'r teimlad bod cymryd ieithoedd tramor modern i TGAU neu'n uwch dim ond ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni'n uchel.
- Mae hyd yn oed athrawon ITM ymroddedig a dawnus sy'n buddsoddi amser ac egni mawr iawn i hyrwyddo manteision eu pwnc yn ei chael yn her aruthrol i atal y dirywiad yn y niferoedd.
- Mae cynlluniau peilot blaenorol ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 a Llythrennedd Triphlyg a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn darparu modelau o arfer da ac yn dal i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol.
- Ceir cyfleoedd o fewn y Fagloriaeth Gymreig ac wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd ail-greu cysyniad ITM o fewn un ardal iaith a llythrennedd, a felly oresgyn y canfyddiad bod ITM yn gwrthdaro â gyriant ar gyfer safonau uwch mewn Cymraeg a Saesneg.

Nid yw'r profiad o ddysgu Cymraeg, mewn sawl achos, wedi creu dysgwyr iaith hyderus sy'n cofleidio trydedd iaith yn hawdd.



Pennod 6

# Canfyddiadau'r arolwg o ysgolion cynradd



# Mae canfyddiadau'r arolwg cyntaf hwn o ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd wedi'u seilio ar ymatebion gan 190 ysgol.

**A yw ysgolion cynradd eisoes yn cynnig addysgu iaith dramor i ddisgyblion?**
Mae mwy na chwarter yr ysgolion cynradd a ymatebodd (28 y cant, neu 53 allan o 190) yn nodi eu bod yn darparu addysgu mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a Saesneg (gweler Ffigur 23).

Ffrangeg a Sbaeneg yw ieithoedd mwyaf cyffredin ysgolion sy'n addysgu ieithoedd ar lefel gynradd (gweler Tabl 3).

FFIGUR 23: YSGOLION SY'N CYNNIG ADDYSGU MEWN IEITHOEDD HEBLAW AM SAESNEG A CYMRAEG




**Pa ieithoedd a pha grwpiau blwyddyn mae hyn yn ei gynnwys?**
Ffrangeg a Sbaeneg yw ieithoedd mwyaf cyffredin ysgolion sy'n addysgu ieithoedd ar lefel gynradd (gweler Tabl 3). Pa iaith bynnag maent yn ei chynnig, maent yn fwy tebygol o wneud hynny tua diwedd yr ysgol gynradd, er bod nifer fach o ysgolion hefyd yn darparu addysgu yng Nghyfnod Allweddol 1.

TABL 3: IEITHOEDD A ADDYSGIR I GRWPIAU GWAHANOL (SYLFAEN = 53)

| Iaith | Cyfnod Allweddol 1 | Blynyddoedd 3 a/neu 4 | Blynyddoedd 5 a/neu 6 |
|---|---|---|---|
| Ffrangeg | 11 | 16 | 42 |
| Almaeneg | 0 | 0 | 2 |
| Sbaeneg | 2 | 5 | 10 |
| Eraill | 0 | 4 | 7 |

**Pa mor systematig mae'r addysgu a gynigir?**
Gofynnwyd i ysgolion i ddewis, o gyfres o opsiynau, ddatganiad sy'n disgrifio orau eu darpariaeth addysgu iaith (gweler Ffigur 24).

FFIGUR 24: MATHAU O DDARPARIAETH IAITH A GYNIGIR GAN YSGOLION (SYLFAEN = 53, CANIATEIR YMATEBION LLUOSOG)




Y ffurf fwyaf cyffredin ar addysgu iaith a gynigiwyd, a hynny gan 23 o'r 53 ysgol sy'n darparu addysgu iaith, yw dosbarthiadau gwirfoddol ar ffurf opsiynau allgyrsiol. Tua thraean o'r ysgolion hyn (19) sy'n cynnig addysgu systematig mewn un neu fwy o grwpiau blwyddyn, a hynny mewn Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg neu Fandarin. Pe bai 'r gyfran hon yn cynrychioli pob ysgol gynradd yng Nghymru, byddai'n cyfateb i 10 y cant. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn bod ysgolion sy'n addysgu iaith yn fwy tebygol o gwblhau'r arolwg hwn, ac felly mae'r gyfran ar draws y wlad yn debygol o fod yn llai na hyn.

Dim ond dwy ysgol yn y sampl sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion ddatblygu ieithoedd cartref heblaw am y Gymraeg neu Saesneg. Mae ysgolion eraill yn cynnig cyflwyniadau mwy anffurfiol i ieithoedd, un ai fel rhan o gynlluniau gwaith neu fel rhan o'r gwaith pontio ag ysgolion uwchradd. Darperir sylwadau gan chwech o ysgolion a ddewisodd 'Arall' isod:

> *'Athrawes Ffrangeg o'r ysgol uwchradd leol yn dod i roi gwersi i Flwyddyn 6 unwaith bob pythefnos'*
>
> *'Prosiect pontio gyda'r ysgol fwydo uwchradd.'*
>
> *'Gwersi Ffrangeg wythnosol Blwyddyn 6 gyda'r athro/athrawes pontio uwchradd. Gwersi Ffrangeg preifat yn yr ysgol am hanner awr bob wythnos.'*
>
> *'Gweithdai iaith blynyddol sy'n cynnwys rhieni a disgyblion sy'n dysgu ieithoedd Ewropeaidd. Mae pob dosbarth yn dathlu diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd drwy ddysgu iaith a diwylliant gwlad a ddewisir. Ailadroddir hyn yn ystod Wythnos Un Byd i gynnwys ieithoedd a diwylliannau o'r tu hwnt i Ewrop.'*
>
> *'Mae ein dosbarth Blwyddyn 6 yn cael bloc o wyth wythnos (un awr yr wythnos) o wersi Ffrangeg cyn ymweliad chwe diwrnod â Normandi lle maen nhw'n treulio tri diwrnod yn yr ysgol gyda eu ffrindiau gohebol. Maen nhw'n cyfathrebu â'u ffrindiau gohebol o flynyddoedd 3 i 6 gyda rhywfaint o ryngweithio mewn Ffrangeg syml drwy'r cyfan.'*

Y ffurf fwyaf cyffredin ar addysgu iaith a gynigiwyd, a hynny gan 23 o'r 53 ysgol sy'n darparu addysgu iaith, yw dosbarthiadau gwirfoddol ar ffurf opsiynau allgyrsiol.

**Pwy sy'n darparu'r addysgu iaith?**

Y ffordd fwyaf cyffredin i ysgolion ddarparu addysgu iaith yw drwy athrawon dosbarth sydd â sgiliau iaith. Mae gan chwe ysgol athrawon iaith dramor arbenigol wedi eu lleoli yn yr ysgol, ac mae pump arall yn defnyddio arbenigwyr peripatetig. Mae deg yn defnyddio cysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol. Mae ysgolion hefyd yn defnyddio cynorthwywyr ieithoedd tramor (FLA), athrawon a ddarperir gan sefydliadau diwylliannol tramor (crybwyllwyd Conswl yr Eidal, Goethe-Institut ac Ystafelloedd Dosbarth Confucius a nifer o gyd-destunau eraill yn yr arolwg hwn), neu rhieni a llywodraethwyr sy'n gwirfoddoli.

Y ffordd fwyaf cyffredin i ysgolion ddarparu addysgu iaith yw drwy athrawon dosbarth sydd â sgiliau iaith.

TABL 4: PWY SY'N DARPARU'R ADDYSGU IAITH YN YR YSGOL? (SYLFAEN = 52)

| | Yn bennaf | Yn achlysurol |
|---|---|---|
| Athro/athrawes arbenigol wedi'i seilio yn yr ysgol | 6 | 2 |
| Athro/athrawes arbenigol cylchynol | 5 | 1 |
| Athro(athrawon) dosbarth | 16 | 1 |
| Athro (athrawon) o'r ysgol uwchradd leol | 10 | 4 |
| Cynorthwy-ydd Iaith Dramor | 2 | 1 |
| Athro/athrawes a ddarparir gan sefydliad diwylliannol tramor | 2 | 3 |
| Rhiant neu lywodraethwr gwirfoddol | 5 | 3 |
| Arall | 4 | 0 |

**Os nad yw ysgolion yn darparu addysgu ieithoedd tramor, pam mae hyn?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nad ydynt yn darparu addysgu iaith i ddewis o'r ddewislen o opsiynau y prif reswm dros beidio â gwneud hynny (gweler Ffigur 25). Nododd traean o'r rhain (44 o 135) nad yw addysgu iaith dramor yn flaenoriaeth gan fod disgyblion eisoes yn dysgu Cymraeg a Saesneg. Dywed bron yr un faint (38, neu 28 y cant) nad oeddent yn gwneud oherwydd nad yw iaith dramor yn rhan o'r cwricwlwm cynradd yng Nghymru, tra bod bron i chwarter (31 neu 23 y cant) yn dweud bod hyn oherwydd nad oes ganddynt arbenigedd o fewn yr ysgol. Dim ond dwy ysgol a nododd fod hyn oherwydd nad oes galw gan rieni.

FFIGUR 25: PRIF RESYMAU YSGOLION CYNRADD DROS BEIDIO Â CHYNNIG ADDYSGU IAITH DRAMOR (SYLFAEN = 135)



Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud sylwadau yn eu geiriau eu hunain am reswm yr ysgol dros beidio â chynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu iaith dramor. Gellir eu grwpio fel a ganlyn:

- Mae gan ddisgyblion ddigonedd i'w wneud wrth ddysgu Saesneg a Chymraeg i safon uchel

  *'Mae rhai disgyblion ail-iaith ei chael yn anodd dysgu Cymraeg i safon briodol, a byddai trydedd iaith yn eu drysu'n fwy. Yn yr un modd, mae gennym disgyblion Cymraeg iaith gyntaf sydd angen gwella eu sgiliau Saesneg.'*

  *'Mae cymaint o bwyslais ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a Saesneg mewn ardal ddifreintiedig mae codi safonau'r ieithoedd yma yn arwain y rhaglen yn anffodus'*

- Mae'r cwricwlwm cynradd yn orlawn yn barod, nid oes lle ar gyfer ieithoedd tramor modern, ac ni wneir y cyswllt rhwng iaith a llythrennedd yn amlwg yn y cwricwlwm

  *'Mae'r cwricwlwm yn llawn dop yn barod. A ninnau'n ysgol gynradd, byddai'n well gyda ni ddefnyddio amser cwricwlwm i sicrhau bod gan y disgyblion sgiliau priodol o ran llythrennedd, rhifedd a TG i ddysgu'n llwyddiannus yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Byddai'n fuddiol rhoi blas o ieithoedd eraill. Fodd bynnag, mae angen inni ei chael yn iawn gyda'r Gymraeg ac yn Saesneg yn gyntaf yn yr ysgol gynradd cyn symud ymlaen i ieithoedd eraill.'*

  *'Does gyda ni ddim o'r sgiliau, y gyllideb neu'r amser. Nes i fynychu cynhadledd ychydig wythnosau yn ôl a chytuno y byddai'n "neis iawn" i allu cynnig hwn, ond mae'r cwricwlwm yn fwy na llawn ar hyn o bryd.'*

  *'Anodd yw ddod o hyd i amser i wneud hyn gyda chwricwlwm mor llawn.'*

- Nid oes gan yr ysgol unrhyw arbenigedd mewn ITM y gallai ei ddefnyddio

  *'Diffyg amser i gydlynu a diffyg athrawon o ansawdd i ddysgu.'*

  *'Byddai o fudd i'r disgyblion ddysgu iaith dramor ond yn anffodus nid yw'r amser o fewn y cwricwlwm nag arbenigedd ar gael o fewn y staff.'*

  *'Lack of skills and expertise amongst staff would be an issue. Curriculum is already very weighty.'*

- Mae ysgolion cynradd eisoes wedi eu gorlwytho â mentrau a newidiadau sy'n dod o'r canol

  *'Yn anffodus mae'r cwricwlwm yn orlawn yn barod ac mae llawer gormod o alwadau eraill - cyngor Eco, Cyngor ysgol, ysgolion iach ac yn y blaen ac yn y blaen.'*

  *'Diffyg amser – mae'n frwydr i ffitio cwricwlwm gofynnol ym mhob wythnos heb fenter arall i roi mwy o bwysau arnom.'*

  *'Cyn cyflwyno mwy eto fyth o ofynion cwricwlwm mewn amgylchedd sylfaenol drwmlwythog, yn sicr rhaid i'r ffocws cychwynnol fod ar sortio'r hyn sydd gyda ni eisoes nad yw, yn ôl cytundeb, yn addas i'r diben. Mae gormod o newidiadau wedi eu cyflwyno heb dalu digon o sylw i'r darlun ehangach. Mae angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy strategol.'*

Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr wneud sylwadau yn eu geiriau eu hunain am reswm yr ysgol dros beidio â chynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu iaith dramor.

- Pwysau ar gyllidebau ysgol

> *'Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol buon ni'n rhannu athro o'r ysgol gyfun gyda'n hysgolion clwstwr a oedd yn rhoi gwers Ffrangeg bob pythefnos i'n disgyblion blwyddyn 6. Yn anffodus, mae'r cyllid ar gyfer hyn wedi dod i ben.'*

Mae un ymatebydd yn rhoi crynodeb da o'r sefyllfa ar ran llawer o gydweithwyr addysgu fel a ganlyn:

> *'Mae nifer o resymau: 1. Mae'r cwricwlwm yn llawn iawn yn barod. 2. Mae canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd yn gadael ond ychydig o amser ar gyfer unrhyw beth arall. 3. Dim arbenigedd o fewn yr ysgol. 4. Mae pwysau i gyrraedd targedau yn golygu nad yw iaith dramor yn flaenoriaeth.'*

**A yw ysgolion cynradd yn ymwybodol o'r cynllun Dyfodol Byd-eang?**
Mae mwy na dwy ran o dair o ysgolion a ymatebodd (133 = 71 y cant) yn ymwybodol o gynllun Llywodraeth Cymru Dyfodol Byd-eang a'r dyhead i wneud Cymru'n 'ddwyieithog + 1'. Fodd bynnag, o'r rhain, dim ond 15 (8 y cant o'r cyfanswm) sy'n dilyn y datblygiadau'n fanwl (gweler Ffigur 26). Mae'r mwyafrif yn ymwybodol o'r fenter ond ei manylion, ac ychydig dros chwarter o ysgolion a ymatebodd heb glywed am y fenter o gwbl.

Mae mwy na dwy ran o dair o ysgolion a ymatebodd (133 = 71 y cant) yn ymwybodol o gynllun Llywodraeth Cymru Dyfodol Byd-eang a'r dyhead i wneud Cymru'n 'ddwyieithog + 1'.

FFIGUR 26: YMWYBYDDIAETH O'R DYFODOL BYD-EANG




Fodd bynnag, er gwaethaf y lefel uchel o ymwybyddiaeth, roedd bron yr holl ymatebwyr a roddodd sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn feirniadol o'r fenter, fel y dengys y sampl canlynol:

> *'Ar hyn o bryd, mae cynifer o fentrau, mae'n anodd cadw i fyny â'r cwbl yn fanwl. Gall fod yn llethol.'*

*'Does dim ots gyda fi o ran gwybod. Mae Llywodraeth Cymru wedi gadael i ITM farw ar ôl torri ar asiantaethau cymorth fel CILT Cymru. Ar un adeg, roedd gyda ni raglen effeithiol ar draws ein clwstwr ysgolion. Does gan y Llywodraeth ddim diddordeb gwirioneddol – nid yw'r pwyslais ar siarad iaith ac rŷn ni filltiroedd y tu ôl i weddill Ewrop. Mae cyrsiau ieithoedd tramor modern mewn addysg uwchradd yn fwy am yr arholiadau penodol a dim byd i'w wneud â defnyddio ieithoedd mewn cyd-destunau go iawn.'*

*'Yn unol â'i harfer, mae gan Lywodraeth Cymru ddelfrydau aruchel. Fodd bynnag, maen nhw mor brysur yn rhoi mwy a mwy o bethau i ni eu gwneud a llai a llai o gyllid nes bod athrawon eisoes ar ben eu tennyn ac mae hyn yn debygol o fod yn "ffon" arall i'w curo nhw.'*

*'Mae'n ddyhead a fydd naill yn amhosibl oherwydd gorlwytho enfawr o fewn y cwricwlwm cynradd neu'n arwain at straen pellach ar weithlu na all gymryd llawer mwy o bwysau gan wleidyddion.'*

Maent yn dangos cefnogaeth eang, ond amodol i'r cynnig.

**A fyddai ysgolion cynradd yn croesawu camau i gefnogi cyflwyno addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd?**

Byddai mwy na thri chwarter o ysgolion cynradd a ymatebodd (76 y cant) yn croesawu cyflwyno addysgu ITM (gweler Ffigur 27). Fodd bynnag, byddai dim ond cyfran fach yn gwneud hynny'n galonnog, gyda'r mwyafrif yn cefnogi mewn egwyddor yn unig. Ychydig o dan chwarter yr ysgolion yn y sampl (24 y cant) fyddai'n croesawu addysgu ITM o gwbl. Mae'r canfyddiadau hyn yn debygol o fod â thuedd o blaid y rhai sydd yn fwy cefnogol i addysgu ieithoedd tramor modern, gan y byddent wedi ymddiddori'n fwy mewn llenwi'r arolwg. Serch hynny, maent yn dangos cefnogaeth eang, ond amodol i'r cynnig.

FFIGUR 27: A FYDDAI YSGOLION CYNRADD YN CROESAWU CYFLWYNO ADDYSGU ITM



O ddadansoddi'r atebion hyn yn ôl p'un a yw ysgolion eisoes yn addysgu iaith, byddai cyfran uwch o'r rheini sydd eisoes yn addysgu iaith yn ei chroesawu, ac ni fyddai cyfran uwch o'r rhai nad ydynt eisoes yn addysgu iaith ei chroesawu (gweler Tabl 5). Fodd bynnag, nid oes dilysrwydd ystadegol i'r canfyddiad hwn oherwydd y nifer fach o ysgolion.

TABL 5: A FYDDAI YSGOLION CYNRADD YN CROESAWU CYFLWYNO ADDYSGU ITM YN ÔL CYNNIG ITM EISOES AI PEIDIO

| Cynnig ITM | Byddwn, yn galonnog | Byddwn, mewn egwyddor | Na fyddwn |
|---|---|---|---|
| Le | 12 | 35 | 5 |
| Na | 22 | 73 | 39 |

**Pa adnoddau y gallai ysgolion eu defnyddio i ddatblygu darpariaeth addysgu ITM?**
Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd ysgolion yn gallu ticio faint bynnag o ymatebion yn ôl eu perthnasedd iddynt. Ateb mwyafrif yr ysgolion (143 o 184 a atebodd y cwestiwn hwn, neu 78 y cant) oedd y byddent yn gallu manteisio ar gysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol er mwyn datblygu addysgu ITM (gweler Ffigur 28). Nododd nifer fawr o ysgolion, (llai na hanner  - 42 y cant), fod ganddynt staff a oedd â gallu ac â pharodrwydd i gael eu hyfforddi i addysgu iaith dramor, tra bod cynifer (38 y cant) wedi ymateb fod ganddynt un neu fwy o aelodau staff eisoes â chymhwysedd mewn iaith dramor. Eisoes mae gan nifer llai o ysgolion gysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd tramor, neu rieni/llywodraethwyr a chanddynt gymhwysedd iaith.

Ateb mwyafrif yr ysgolion (143 o 184 a atebodd y cwestiwn hwn, neu 78 y cant) oedd y byddent yn gallu manteisio ar gysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol er mwyn datblygu addysgu ITM

FFIGUR 28: ADNODDAU Y GALLAI YSGOLION EU DEFNYDDIO I DDATBLYGU DARPARIAETH ADDYSGU ITM (CANIATAWYD YMATEBION LLUOSOG)



Dengys Tabl 6 o ddadansoddi ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl p'un a yw ysgolion eisoes yn addysgu ITM, mae'r rheini nad ydynt yn gwneud hynny yn:

- Llai tebygol o fod â staff â cymhwysedd mewn ITM
- Llai tebygol o ddweud y byddai modd iddynt ddibynnu ar gysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol
- Llai tebygol o ddweud y byddent yn dibynnu ar FLAs
- Llai tebygol o ddweud y byddent yn gallu manteisio ar gysylltiadau ag ysgolion dramor
- Mwy tebygol o ddweud y byddent yn dibynnu ar staff a fyddai'n fodlon ac yn abl i gael eu hyfforddi i addysgu iaith dramor
- Mwy tebygol o ddweud nad oes unrhyw adnoddau y byddent yn gallu eu defnyddio

TABL 6: ADNODDAU Y GALLAI YSGOLION EU DEFNYDDIO I DDATBLYGU DARPARIAETH ADDYSGU ITM YN ÔL P'UN A YDYNT EISOES YN ADDYSGU ITM CANIATAWYD YMATEBION LLUOSOG

| | Already teaching MFL | Not already |
|---|---|---|
| Un aelod o'r staff neu fwy â chymhwysedd mewn ieithoedd tramor | 30 | 40 |
| Cysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol | 40 | 103 |
| Cysylltiadau â phrifysgolion neu golegau lleol | 6 | 21 |
| Rhieni neu lywodraethwyr â chymhwysedd mewn ieithoedd tramor | 13 | 30 |
| Cynorthwywyr ieithoedd modern | 13 | 18 |
| Arbenigedd ymgynghorwyr awdurdod lleol | 5 | 19 |
| Cysylltiadau sy'n bodoli eisoes gyda sefydliadau diwylliannol tramor | 8 | 12 |
| Cysylltiadau gydag ysgolion cynradd lleol eraill sy'n addysgu ieithoedd tramor | 6 | 18 |
| Cysylltiadau gydag ysgolion tramor | 17 | 34 |
| Staff sydd yn alluog ac yn fodlon cael eu hyfforddi i addysgu iaith dramor | 18 | 59 |
| Arall | 3 | 4 |
| Dim un o'r uchod | 2 | 12 |

Cafwyd sylwadau gan yr athrawon a ddarparodd dystiolaeth ansoddol mewn ymateb i'r cwestiwn dim ond ynghylch yr her o geisio cynnwys pwnc newydd mewn cwricwlwm sydd eisoes yn orlawn ac ynghylch problem gorlwytho ymhellach athrawon ysgol gynradd. Mae'r sylw canlynol yn nodi'r glir iawn yr hyn y mae un ymatebwr yn ei deimlo sydd ei angen os bydd ITM yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd:

> *'Er mwyn gallu ymgorffori iaith dramor byddai angen y canlynol: 1. Byddai angen athrawon gan ddarparwyr allanol ar yr ysgol. 2. Byddai angen newid ffocws Llywodraeth Cymru ac Estyn o'r data a thargedau i dderbyn na ellir bob amser gyrru cwricwlwm eang a chytbwys ar sail data.'*

Cafwyd sylwadau gan yr athrawon a ddarparodd dystiolaeth ansoddol mewn ymateb i'r cwestiwn dim ond ynghylch yr her o geisio cynnwys pwnc newydd mewn cwricwlwm

**Beth arall mae'r arolwg yn ei ddarogan ar gyfer ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd?**

Yn ogystal â darparu atebion meintiol ac ansoddol i amrywiaeth o gwestiynau penodol, rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ar unrhyw bwnc a oedd yn gysylltiedig ag addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd. Cwympodd yr ymatebion yn gyffredinol i bedair thema eang:

**1.** Manteision dysgu ieithoedd tramor modern i blant oed ysgol gynradd

**2.** Pwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei dysgu'n gyntaf, ac i safon uchel

**3.** Perygl gorlwytho cwricwlwm sydd eisoes yn orlawn

**4.** Yr angen am arian ac arbenigedd ychwanegol pe bai ITM yn cael eu cyflwyno i ysgolion cynradd

Darperir detholiad o sylwadau ar bob un o'r themâu hyn isod:

- Manteision dysgu ieithoedd tramor modern i blant oed ysgol gynradd

  *'Mae'r ysgol wedi elwa o gyflwyno ITM ar draws cyfnod allweddol 2. Defnydd ardderchog o amser CPA – mae'n cynnig ehangder darpariaeth ac mae llawer o fanteision y tu hwnt i ddysgu iaith newydd yn unig.'*

  *'Rwy'n credu bod dysgu ITM mewn ysgol gynradd yn rhoi plant ar y blaen wrth ddatblygu ymhellach o ran dysgu iaith wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd a gweithio dramor nes ymlaen mewn bywyd.'*

  *'Syniad da ac rwyf yn ei groesawy i raddau. Ond fel Pennaeth sy'n ceisio ateb HOLL ofynion sydd ar y plant bach ma y realiti ydy mae yna gymaint o bwysau cwriclwaidd i gael safonau y plant mor uchel yn y cynradd. Mae yn gymaint o bethau ychwanegol e.e. datblygu'r plant yn bobl busnes drwy Fentergarwch, Ysgol Iach, Ysgol Werdd- a does dim digon o amser yn y dydd! Rhaid cofio weithiau mai Plant Cynradd ydynt sydd eisiau bod yn blant!!'*

- Pwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei dysgu'n gyntaf, ac i safon uchel

  *'Mae angen sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn cael sylw blaengar yn ein holl ysgolion ynghyd a ieithoedd tramor.'*

  *'Credaf fod her eithriadol yn wynebu Ysgolion Cynradd Cymru i sicrhau fod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd Blwyddyn 6. Fel ysgol cyfrwng Gymraeg, rydym yn gorfod gweithio'n galed i sicrhau fod y disgyblion yn ddwyieithog a hynny i safon uchel. Credaf y byddai'n well sianelu'r arian / egni'r prosiect yma i sicrhau cefnogaeth i ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i godi safonau'r Gymraeg o'u mewn.'*

  *'Rwy'n poeni bod ymdrech fawr i sicrhau bod gan fwy o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r Gymraeg – h.y. i ddod yn gwbl ddwyieithog – ac ni fydd hyn yn digwydd os daw iaith arall yn orfodol. Mae angen inni sortio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyntaf.'*

  *'Mae angen i blant sy'n dysgu Cymraeg feddu ar afael dda ar yr iaith cyn rhoi cynnig ar drydedd.'*

Rhoddwyd y cyfle i ymatebwyr roi sylwadau ar unrhyw bwnc a oedd yn gysylltiedig ag addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd.

Fodd bynnag, nid yw'r holl ymatebwyr yn teimlo bod rhieni yn cefnogi'r pwyslais ar y Gymraeg ar draul ITM:

> *'Rhaid taclo p'un ai'r Gymraeg yw'r ail iaith y byddai llawer o rieni yn dewis mynd i'r afael â hi o safbwynt byd-eang. Mae'r Gymraeg yn iaith y mae'n rhaid inni ei meithrin a'i hannog a pheidio byth â chaniatáu iddi farw. Ond iaith leiafrifol ydy, ac felly y bydd yn parhau. Po fwyaf y bydd yn cael ei gorfodi ar bobl, po leiaf o gefnogaeth y bydd yn ei derbyn. Pe bawn yn holi'r rhieni yn fy ysgol, byddai'r mwyafrif llethol yn dewis nid Ffrangeg fel ail iaith, nid Cymraeg.'*

- Perygl gorlwytho cwricwlwm sydd eisoes yn orlawn

> *'Rwy'n credu y byddai cyflwyno ITM mewn ysgolion cynradd ond yn gweithio pe bai'r Gymraeg yn cael ei gwneud yn ddewisol. Mae'r cwricwlwm eisoes yn orlawn nes ei fod yn byrstio.'*

> *'Mae'r cwricwlwm wedi'i bwysoli'n fawr, ac er y byddai'n iawn mewn egwyddor i ddysgu iaith arall byddai'n anodd iawn ei chynnwys a chynnal safonau mewn meysydd eraill.'*

> *'Mae'r cwricwlwm wedi'i orlwytho eisoes a does dim modd inni gyflawni'r cyfan o'r gwaith statudol o ran llythrennedd/rhifedd. Tra ein bod yn croesawu'r syniad o addysgu ieithoedd tramor, does dim modd inni wneud mwy.'*

- Yr angen am arian ac arbenigedd ychwanegol pe bai ITM yn cael eu cyflwyno i ysgolion cynradd

> *'Mae angen cefnogi ysgolion yn llawn ac mae angen meddwl am y fenter hon yn ddwys cyn ei chyflwyno er mwyn osgoi mân drafferthion sydd fel arfer yn gysylltiedig â mentrau newydd.'*

> *'Mae angen inni fod yn glir beth yw ein blaenoriaethau addysgol a chaniatáu amser i ysgolion dyfu a datblygu. Does dim digon o arbenigedd yn y sector cynradd i addysgu ieithoedd tramor modern yn iawn.'*

> *'Yn amlwg, byddai angen mynd i'r afael â datblygu arbenigedd i ddarparu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd. Byddai i hyn oblygiadau ar gyfer hyfforddiant athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus, ac ati.'*

> *'Byddwch yn wyliadwrus o gwricwlwm drwmlwythog ac o oblygiadau o ran hyfforddiant ar gyfer athrawon os ydym o ddifrif ynghylch sicrhau darpariaeth ardderchog.'*

Gwnaeth un ymatebydd hefyd sylw am y diffyg gwerth a roddir i ITM yng Nghymru:

> *'Mae fy mab wedi cael cynigion gan bum prifysgol – does na'r un yn cydnabod neu â diddordeb fod ganddo ITM ochr yn ochr â'i bynciau gwyddoniaeth. Gwastraff amser yw ITM yn y DU.'*

## Pwyntiau Allweddol

- Ychydig dros chwarter o ysgolion a wnaeth ymatebodd sydd eisoes yn darparu rhywfaint o addysgu iaith, er bod hyn ar ffurf allgyrsiol neu anffurfiol nag yn amlach nag ar ffurf addysgu strwythuredig yn systematig.
- Ffrangeg yw'r iaith a addysgir fwyaf mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, wedyn Sbaeneg.
- Dysgir ieithoedd yn amlach i ddisgyblion cynradd hŷn, er bod nifer fach o ysgolion yn cynnig Ffrangeg neu Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 1.
- Mae'r ysgolion sy'n addysgu ieithoedd yn tueddu i dynnu ar aelodau presennol o staff a chanddynt sgiliau angenrheidiol.
- Mae ysgolion cynradd yn edrych bennaf i'w hysgolion uwchradd lleol fel ffynhonnell o gymorth ar gyfer addysgu ieithoedd tramor modern.
- Er bod mwy na thri chwarter o ysgolion cynradd a arolygwyd yn cefnogi, o leiaf mewn egwyddor, cyflwyno addysgu ITM, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am arian a hyfforddiant ychwanegol. Mae llawer o benaethiaid ysgolion cynradd eisoes yn teimlo pwysau gormodol cwricwlwm gorlawn ac yn gweld ITM â'r potensial i gystadlu â blaenoriaethau ar gyfer gwella addysgu'r Gymraeg.

Er bod mwy na thri chwarter o ysgolion cynradd a arolygwyd yn cefnogi, o leiaf mewn egwyddor, cyflwyno addysgu ITM, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am arian a hyfforddiant ychwanegol.

Pennod 7

# Casgliadau



# Nodir prif gasgliadau ymchwil 2015/16 isod, ynghyd â chynnig ar gyfer gweithredu a fydd yn cynorthwyo i gryfhau safle ITM mewn ysgolion ac i sicrhau llwyddiant cynllun Dyfodol Byd-eang a gyhoeddwyd y llynedd.

*Mae Adroddiad Tueddiadau Iaith Cymru* 2015/16 yn ganlyniad yr ail ymarfer ymchwil blynyddol sydd yn siartio pa mor iach y mae addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru. Arolygwyd ysgolion cynradd yng Nghymru am y tro cyntaf eleni hefyd er mwyn mesur i ba raddau y dysgir ieithoedd tramor i blant ifanc yn ogystal â Chymraeg a Saesneg, ac i ba raddau y byddai ysgolion cynradd yng Nghymru yn croesawu'r cyfle i ddysgu iaith dramor i'w disgyblion pe cyflwynid hyn yn genedlaethol – fel a wnaed yn Lloegr yn 2014.

Ar hyn o bryd, ceir llu o newidiadau polisi sy'n effeithio ar addysg mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau i arholiadau lefel TGAU a Safon Uwch, datblygir cwricwlwm newydd yn sgil Adroddiad Donaldson, crëir Canolfannau Rhagoriaeth rhanbarthol ar gyfer addysgu ieithoedd tramor fel rhan o gynllun *Dyfodol Byd-eang* pum mlynedd y Llywodraeth a datblygir ymhellach ar y Fagloriaeth Gymreig. Mae ymchwil Tueddiadau Iaith eleni yn adeiladu ar ymchwil y llynedd ac yn ymchwilio i effaith mentrau cenedlaethol a newidiadau diweddar mewn polisi ar addysgu ITM mewn ysgolion yng Nghymru. Mae tystiolaeth feintiol ac ansoddol gyfoethog gan ymatebion yr athrawon yn sylfaen werthfawr ar gyfer trafodaeth rhwng addysgwyr, gwneuthurwyr polisi, ac academyddion. Nodir prif gasgliadau ymchwil 2015/16 isod, ynghyd â chynnig ar gyfer gweithredu a fydd yn cynorthwyo i gryfhau safle ITM mewn ysgolion ac i sicrhau llwyddiant cynllun *Dyfodol Byd-eang* a gyhoeddwyd y llynedd.

Y casgliad cyntaf ar lefel uwchradd, felly, yw na fydd ffocws ar agweddau disgyblion yn unig yn ddigonol i wella'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern, cyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn un dewis ymysg llawer – a dewis a ystyrir yn anodd.

## Uwchradd

Mae'n amlwg bod llawer o ysgolion uwchradd yn gweithio'n galed iawn i geisio newid agweddau disgyblion tuag at ITM er mwyn cynyddu'r niferoedd yng Nghyfnod Allweddol 4, ond mae hyd yn oed athrawon ymroddedig a thalentog yn cael hyn yn her enfawr. Ceir llawer o enghreifftiau o gyfnewid rhwng ysgolion, dathlu ieithoedd a diwylliannau amrywiol, cynlluniau llysgenhadon myfyrwyr, cystadlaethau a sgyrsiau gyrfa sy'n tynnu sylw at y fanteision ieithoedd, ac mae'n amlwg bod menter Llwybrau i Ieithoedd wedi cael croeso mewn llawer o ysgolion. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth bod y mentrau hyn yn effeithiol wrth wella agweddau disgyblion tuag at ieithoedd, bach yw eu heffaith ar y niferoedd sy'n dewis ieithoedd adeg dewisiadau opsiwn. Mae cyflwyno'r Fagloriaeth Gymreig a mwy o ffocws ar bynciau craidd yn golygu bod gan ddisgyblion lai o slotiau opsiwn i'w llenwi, ac yn anffodus, mae ITM yn dioddef o herwydd y newid hwn. Y casgliad cyntaf ar lefel uwchradd, felly, yw na fydd ffocws ar agweddau disgyblion yn unig yn ddigonol i wella'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern, cyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn un dewis ymysg llawer – a dewis a ystyrir yn anodd.

Un rheswm pam y gall disgyblion is eu gallu yn benodol fod yn amharod i ddewis ITM fel pwnc TGAU yw eu profiad o'r pwnc yng Nghyfnod Allweddol 3, sydd yn aml yn arwynebol. Mae Estyn wedi dweud mai dwy awr o addysgu ITM yr wythnos yw'r lleiafswm posibl i ddisgyblion wneud cynnydd yn llwyddiannus, ac eto mae cymaint â 40 y cant o ysgolion yn neilltuo llai o amser na hyn at ITM. Yn Lloegr, lle ceir pryderon ynghylch yr amser sydd ar gael ar gyfer ieithoedd hefyd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn neilltuo rhwng 2.5 a 3 awr yr wythnos. Mae'n bosibl felly mai ffactor sy'n cyfrannu at y niferoedd isel sy'n astudio ITM ar lefel TGAU yw bod llawer o ddisgyblion nad ydynt yn teimlo'n ddigon parod i ddechrau ar gwrs TGAU ac nad ydynt yn teimlo'n hyderus y gallant fod yn llwyddiannus.

Canfu arolwg Tueddiadau Iaith y llynedd fod cyfleoedd yn cael eu colli i adeiladu ar brofiad disgyblion o ddwyieithrwydd i wella addysgu ITM. Canfu mai anaml y deuir ag addysgu Cymraeg ac ITM at ei gilydd mewn ysgolion uwchradd fel bo modd i ddysgu yn y naill iaith gefnogi dysgu newydd yn y llall.

Mae arolwg eleni wedi canfod tystiolaeth bellach bod canfyddiadau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, bod ITM a'r Gymraeg yn cystadlu– yn hytrach nag yn ategu – ei gilydd, ac bod canfyddiadau gwael disgyblion o'r Gymraeg fel ail iaith yn effeithio'n negyddol wedyn ar eu profiad o ITM. Er nad oedd ymchwil Tueddiadau Iaith yn canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg, mae'r materion wedi eu dogfennu mewn mannau eraill.[39]

> bod ITM a'r Gymraeg yn cystadlu– yn hytrach nag yn ategu –ei gilydd, ac bod canfyddiadau gwael disgyblion o'r Gymraeg fel ail iaith yn effeithio'n negyddol wedyn ar eu profiad o ITM.

Mae tystiolaeth athrawon a disgyblion lawer yn nodi ymhellach nad yw caffael y Gymraeg yn yr ysgol, mewn llawer o achosion, yn darparu dealltwriaeth gyffredinol i ddisgyblion ynglŷn â sut mae iaith yn gweithio, neu yn eu harfogi â sgiliau dysgu iaith y gellir eu trosglwyddo i ieithoedd eraill. Dylai plant sydd wedi cael profiad helaeth o ddwy iaith yn gynnar yn eu haddysg ei chael yn weddol rwydd i gaffael trydedd iaith gan eu bod eisoes yn meddu ar flociau adeiladu sylfaenol yr iaith y mae ei hangen arnynt. Fodd bynnag, yn yr ymchwil hon, mae ysgolion a disgyblion fel ei gilydd yn nodi nad dyma'r achos.

I lawer o ddisgyblion, mae diffyg sgiliau generig dysgu iaith yn aml yn cael ei waethygu gan un o ddau ffactor pellach. Yn gyntaf, gall profiad gwael o ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd ddigalonni disgyblion am ddysgu iaith arall. Yn ail, efallai y bydd disgyblion yn credu bod ganddynt eisoes ail iaith (h.y. naill ai Cymraeg neu Saesneg), felly nid oes angen iddynt ystyried trydedd iaith.

Mae ymchwil Tueddiadau Iaith yng Nghymru a Lloegr wedi dangos bod arweinyddiaeth ysgol yn ffactor allweddol er mwyn cynyddu'r niferoedd sydd yn astudio ieithoedd tramor modern, felly hefyd atgyfnerthu negeseuon gan lunwyr polisi, prifysgolion a ffynonellau dylanwadol eraill. Lle mae ysgolion wedi bod yn llwyddiannus o ran cynyddu niferoedd, cafwyd dull ysgol-gyfan sy'n cynnwys ymdrechion ar y cyd a llu o fesurau yn ogystal â chymhellion

Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd mwyafrif arweinwyr ysgolion yn awyddus i ddilyn y rhai sydd wedi dangos bod modd gwneud gwahaniaeth oni bai bod y Llywodraeth yn canfod dull o gynyddu'r pwysau a'u dwyn i gyfrif o ran gwella sut mae plant Cymru yn dysgu yn y maes cwricwlwm hwn sydd wedi'i esgeuluso. Dylid rhoi sylw penodol i ysgolion sy'n gweithio o dan amgylchiadau economaidd-gymdeithasol mwy heriol; eu disgyblion yw'r lleiaf tebygol i gydnabod gwerth dysgu iaith, a'r lleiaf tebygol o fod yn gysylltiedig â mentrau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo ieithoedd tramor modern.

[39] Llywodraeth Cymru (2013)

## Cynradd

Mae'r arolwg cyntaf hwn o addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn rhoi darlun o'r sefyllfa sydd ohoni wrth i gynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru gael ei roi ar waith. Mae'n asesu i ba raddau y mae ysgolion ar dir i ddechrau 'i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen' yn unol â dyhead Dyfodol Byd-eang.

Dangosodd yr ymchwil hon fod tua chwarter o ysgolion cynradd Cymru eisoes yn darparu o leiaf rhywfaint o addysgu ieithoedd tramor modern, er bod hynny mewn llawer o achosion o natur gyfyngedig iawn. Yn gyffredinol, darperir yr addysg i ddisgyblion ym mlwyddyn 6 ac fel rhan o raglen ehangach o bontio i'r ysgol uwchradd. Prin y bydd y fath addysgu wedi'i strwythuro'n systematig; mae'n dibynnu ar sgiliau athrawon cyfredol neu gymorth achlysurol gan ysgolion uwchradd lleol.

Mae'r lefel hon o ddarpariaeth yn gyfwerth yn fras â'r gwaelodlin a nodwyd yn Lloegr yn 2000, cyn lansio o degawd o hyfforddiant a datblygiad wedi'i gynllunio i ddarparu 'hawl' i bob disgybl ddysgu iaith drwy'r ysgol gynradd.[40]

Yn yr un modd, bu ar fentrau tebyg yn yr Alban ac mewn mannau eraill yn y byd angen chwistrelliad sylweddol o adnoddau dros gyfnod amser realistig.[41] Mae'n amlwg, felly, y byddai angen cynllun gweledigaeth a gweithredu clir i gyflwyno addysgu iaith-dramor yn ysgolion cynradd Cymru. Byddai'r fath gynllun yn cynnwys cyllideb, hyfforddiant, a chefnogaeth o ran blaenoriaethau ac adnoddau.

Mae'r arolwg Tueddiadau Iaith yn dangos bod cefnogaeth eang gan ymatebwyr o'r ysgolion cynradd, o leiaf mewn egwyddor, i gyflwyno addysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn amodol: mae llawer yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol, neu'n credu y dylai'r Gymraeg gymryd blaenoriaeth yn y cyfnod cynradd.

Mae ysgolion cynradd yn edrych tua'r ysgolion uwchradd am gymorth angenrheidiol ar gyfer addysgu ieithoedd tramor, ond mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu na fyddai llawer o ysgolion uwchradd ar dir i weithredu fel asgwrn cefn menter genedlaethol fawr.

Ac eto, mae ymatebwyr i'r arolwg Tueddiadau Iaith yn cefnogi'r syniad o gyflwyno addysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2: mae bron 80 y cant yn credu y byddai dechrau addysgu iaith dramor yn yr ysgol gynradd 'yn bendant' neu 'yn debyg' o wella'r niferoedd sy'n astudio ITM pan fydd disgyblion yn gwneud dewisiadau ym mlwyddyn 9.

Cefnogir y farn hon gan dystiolaeth o'r un ysgol uwchradd sy'n ymddangos fel astudiaeth achos yn yr ymchwil hon oherwydd ei chryfderau cymharol mewn ITM. Cymerodd yr ysgol ran yn y rhaglen beilot a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru o ITM yng Nghyfnod Allweddol 2, y mae effaith yn dal i'w deimlo wrth i ddisgyblion a gymerodd ran yn yr ysgol gynradd wneud eu dewisiadau Safon Uwch. Bu'r un ysgol hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect llythrennedd triphlyg a ariannwyd gan y Llywodraeth, ac yn priodoli peth o'i llwyddiant mewn ITM i'r fenter hon. Felly, mae'n bwysig cofio bod Llywodraeth Cymru eisoes yn meddu ar fodelau o arfer da y gellir adeiladu arnynt, gan ei bod eisoes wedi buddsoddi mewn rhaglen sylweddol o brosiectau peilot.

> Mae'n amlwg, felly, y byddai angen cynllun gweledigaeth a gweithredu clir i gyflwyno addysgu iaith-dramor yn ysgolion cynradd Cymru. Byddai'r fath gynllun yn cynnwys cyllideb, hyfforddiant, a chefnogaeth o ran blaenoriaethau ac adnoddau.

[40] Rhwng 2001 a 2006, dosbarthodd Llywodraeth yr Alban £18.6 miliwn i awdurdodau lleol i weithredu ei chynllun 'Dinasyddion byd amlieithog' (Cymdeithas Frenhinol Caeredin 2006).

## Edrych tua'r dyfodol

Mae athrawon ysgolion cynradd yn pryderu am yr hyn a welant fel cwricwlwm trwmlwythog ac ni fyddent o reidrwydd yn croesawu gosod ITM fel pwnc arall yn y cwricwlwm, yn arbennig heb ddigon o gyllid ac adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, mae datblygu cwricwlwm newydd gyda'r Gymraeg, Saesneg ac ITM wedi'u lleoli mewn man dysgu cyffredin, fel yr argymhellwyd gan yr Athro Donaldson, yn creu cyfle unigryw a hanfodol i ddatrys y pryderon hyn mewn ffordd sydd o fudd i sawl cymhwysedd llythrennedd ac iaith.

Felly dylai'r Llywodraeth ail-gysyniadu'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgu ieithoedd tramor yng Nghymru drwy ddatblygu dull llythrennedd triphlyg ar gyfer ysgolion cynradd sy'n adeiladu ar brofiadau presennol ac argymhellion sy'n deillio o brosiectau blaenorol. Byddai ailgynllunio addysgu Cymraeg (a Saesneg) mewn ysgolion cynradd er mwyn darparu gwybodaeth fwy penodol i blant am sgiliau generig iaith a dysgu iaith, ac chyfuno hyn â chyflwyniad i ieithoedd a diwylliannau tramor yn rhoi sylfaen gadarnach i ddisgyblion i wneud cynnydd cyflym mewn ITM yng Nghyfnod Allweddol 3. Dylai dull o'r fath hefyd, lle y bo'n berthnasol, ddefnyddio gwybodaeth gyfredol disgyblion am ieithoedd eraill a siaredir yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Byddai angen rhagor o waith datblygu ar ymagwedd o'r fath, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer athrawon cynradd, ond byddai hyn yn llai beichus na'r lefel o hyfforddiant a datblygiad a fyddai'n ofynnol i gyflwyno addysgu ITM fel pwnc ychwanegol unigryw yn y cwricwlwm.

Ar y lefel uwchradd, dylai cyfuno addysgu ITM, Cymraeg a Saesneg mewn un maes cwricwlwm greu mwy o gyfleoedd ar gyfer ymyraethau a fydd o fudd i bob pwnc iaith, fel y dangosir yn yr astudiaethau achos; dylai hefyd ostwng ymdeimlad o gystadleuaeth rhwng yr ieithoedd. Ar yr un pryd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o amser addysgu/dysgu ar gyfer ITM ar gael yng Nghyfnod Allweddol 3, a bod cymhellion ychwanegol o blaid ITM ar gyfer ysgolion a disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Byddai integreiddio ITM mewn dull llythrennedd triphlyg ar y lefelau cynradd ac uwchradd yn darparu negeseuon y mae mawr o'u hangen gan y Llywodraeth a chyrff cenedlaethol dylanwadol eraill am werth ieithoedd. Byddai hyn, yn ei dro, yn helpu'r pwnc i gael ei ystyried yn fwy difrifol pan fydd disgyblion yn gwneud eu dewisiadau ym Mlwyddyn 9.

Fodd bynnag, mae datblygu cwricwlwm newydd gyda'r Gymraeg, Saesneg ac ITM wedi'u lleoli mewn man dysgu cyffredin, fel yr argymhellwyd gan yr Athro Donaldson, yn creu cyfle unigryw a hanfodol i ddatrys y pryderon hyn mewn ffordd sydd o fudd i sawl cymhwysedd llythrennedd ac iaith.



# Cyfeiriadau


Beadle, S., Humburg, M., Smith, R. a Vale, P. (2015) *Study on foreign language proficiency and employability.* Brwsel: Comisiwn Ewropeaidd.

Board, K. a Tinsley, T. (2014) *Language Trends 2013/14. The state of language learning in primary and secondary schools in England.* Reading: Cyngor Prydeinig/Ymddiriedolaeth Addysg CfBT.

Board, K. a Tinsley, T. (2015) *Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: Canfyddiadau o arolwg Tueddiadau Ieithoedd 2014/15.* Reading a Llundain: Ymddiriedolaeth Addysg CfBT a'r Cyngor Prydeinig.

Cymdeithas Frenhinol Caeredin (2006) *Languages in Scotland. What's the problem?*

Denholm, A. (2015) 'Experts: pupils missing out on language skills because of lack of qualified staff', *Herald Scotland*, 9 November. [Ar-lein: **http://www.heraldscotland.com/news/13953170.Experts__pupils_missing_out_on_language_skills_because_of_lack_of_qualified_staff/]**

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llewyrchus. Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Holmes, B. (2016) *Born global: A British Academy project on Languages and Employability* [Online: **http://www.britac.ac.uk/policy/Born_Global.cfm**]

Llywodraeth Cymru (2013) *Un Iaith i Bawb. Adolygiad o Gymraeg Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.*

Llywodraeth Cymru (2015) *Dyfodol byd-eang. Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, 2015 – 2020.*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) *Children and Young People's Committee. Inquiry into the implementation of the Learning and Skills (Wales) Measure*, 2009.

Sefydliad Nuffield (2000) *Languages: the next generation. Final report and recommendations of the Nuffield Languages Inquiry.*

Mae'r Cwmni Ieithoedd (2003) *Overview of the National Languages Strategy,* 2003-2011

Tinsley, T. a Board, K. (2016) *Language trends 2015/16: the state of language learning in primary and secondary schools in England.* Llundain a Reading: Cyngor Prydeinig/Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg

# Atodiadb 1: Proffiliau ymateb Ysgolion Uwchradd

**Y boblogaeth darged oedd pob ysgol a chanddi ddisgyblion oedran Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys:**

| Ystod oedran | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion canol (3-16 oed) | 2 | 0.9% | 0 | 0.0% |
| Ysgolion canol (3-19 oed) | 4 | 1.9% | 2 | 1.6% |
| Ysgolion canol (4-19 oed) | 1 | 0.5% | 1 | 0.8% |
| Uwchradd (11-16 oed) | 56 | 26.4% | 33 | 26.6% |
| Uwchradd (11-19 oed) | 149 | 70.3% | 88 | 71.0% |

**CYFRADDAU YMATEB**

| | Sylfaen | Ymatebion | Cyfradd (%) |
|---|---|---|---|
| Uwchradd | 212 | 124 | 58.5% |

| Consortia Addysg | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 55 | 25.9% | 30 | 24.2% |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | 64 | 30.2% | 55 | 44.4% |
| Canol De Cymru | 57 | 26.9% | 25 | 20.2% |
| De Ddwyrain Cymru | 36 | 17.0% | 14 | 11.3% |

| Math o Ysgol | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cymuned | 183 | 86.3% | 108 | 87.1% |
| Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir | 19 | 9.0% | 10 | 8.1% |
| Ysgol wirfoddol a reolir | 2 | 0.9% | 2 | 1.6% |
| Sylfaen | 8 | 3.8% | 4 | 3.2% |

| Iaith | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg - Cymraeg | 25 | 11.8% | 15 | 12.1% |
| Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math A) | 8 | 3.8% | 4 | 3.2% |
| Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math B) | 15 | 7.1% | 10 | 8.1% |
| Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math C) | 3 | 1.4% | 3 | 2.4% |
| Cyfrwng Cymraeg - Dwyieithog (Math Ch) | 3 | 1.4% | 2 | 1.6% |
| Cyfrwng Saesneg - Cyfrwng Saesneg | 149 | 70.3% | 81 | 65.3% |
| Cyfrwng Saesneg – Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg | 9 | 4.2% | 9 | 7.3% |

# Atodiadb 2: Proffiliau ymateb, Ysgolion cynradd

**Y boblogaeth darged oedd pob ysgol a chanddynt ddisgyblion oedran cynradd, gan gynnwys:**

| Ystod Oedran | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd – meithrinfa, babanod & iau | 1,057 | 82.7% | 162 | 85.3% |
| Ysgol Gynradd - babanod & iau | 180 | 14.1% | 22 | 11.6% |
| Ysgol Gynradd - iau | 34 | 2.7% | 5 | 2.6% |
| Ysgolion canol (3-16 oed) | 2 | 0.2% | 1 | 0.5% |
| Ysgolion canol (3-19 oed) | 4 | 0.3% | 0 | 0.0% |
| Ysgolion canol (4-19 oed) | 1 | 0.1% | 0 | 0.0% |

**CYFRADDAU YMATEB**

| | Sylfaen | Ymatebion | Cyfradd (%) |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd | 1,278 | 190 | 14.9% |

| Consortia Addysg | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 359 | 28.1% | 69 | 36.3% |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | 421 | 32.9% | 53 | 27.9% |
| Canol De Cymru | 307 | 24.0% | 40 | 21.1% |
| De Ddwyrain Cymru | 191 | 14.9% | 28 | 14.7% |

| Math | Cyfanswm | (%) | Ymatebion | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cymuned | 1,059 | 82.9% | 150 | 78.9% |
| Ysgol Wirfoddol a gynorthwyir | 135 | 10.6% | 26 | 13.7% |
| Ysgol wirfoddol a reolir | 80 | 6.3% | 13 | 6.8% |
| Sylfaen | 4 | 0.3% | 1 | 0.5% |

| Iaith | Total | (%) | Responses | (%) |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng-Cymraeg Cymraeg | 386 | 30.2% | 66 | 34.7% |
| Cyfrwng Cymraeg – dwy ffrwd | 34 | 2.7% | 11 | 5.8% |
| Cyfrwng Cymraeg – darpariaethau trosiannol | 6 | 0.5% | 1 | 0.5% |
| Cyfrwng Cymraeg – Dwyieithog (Math B) | 3 | 0.2% | 1 | 0.5% |
| Cyfrwng Saesneg – Cyfrwng Saesneg | 814 | 63.7% | 107 | 56.3% |
| Cyfrwng Saesneg - Saesneg gyda Chymraeg sylweddol | 35 | 2.7% | 4 | 2.1% |

**Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg (Education Development Trust) ...**
**Rydym ni wedi hepgor y teitl CagAP (CfBT).**

Fe wnaethom ni newid ein henw o Ymddiriedolaeth Addysg CagAP ym mis Ionawr 2016. Ein bwriad yw trawsffurfio bywydau drwy wella addysg o amgylch y byd, ac i helpu tuag at gyflawni hynny, rydym ni'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd mewn amryw leoliadau.

Sefydlwyd CagAP bron hanner can mlynedd yn ôl; ond ers hynny mae ein gwaith ni'n naturiol wedi amrywio a dwysáu, ac felly dydyw'r enw CagAP (CfBT) a arferai olygu Canolfan ar gyfer Athrawon (Centre for British Teachers) ddim bellach yn cynrychioli pwy ydym ni na'r hyn rydym ni'n ei wneud. Yn ein tyb ni, mae enw newydd ein cwmni, sef Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg (Education Development Trust) - tra ei fod megis llofnod yn hytrach na hunangofiant - yn cynrychioli'n well yr hyn rydym ni mewn gwirionedd yn ei wneud, fel 'sefydliad ddim er elw' sy'n cael ei arwain yn gryf gan ein gwerthoedd creiddiol; sef y deilliannau hynny rydym ni'n dymuno eu sicrhau ar gyfer pobl ifainc o amgylch y byd yn grwn.

**British Council** 10 Spring Gardens, London SW1A 2BN
**T** +44 (0)161 957 7755 **E** general.enquiries@britishcouncil.org **W** www.britishcouncil.org
The British Council is the United Kingdom's international organisation for cultural relations and educational opportunities • A registered charity: 209131 (England and Wales) SC037733 (Scotland)

**Education Development Trust** Highbridge House, 16–18 Duke Street, Reading, Berkshire RG1 4RU
**T** +44 (0) 118 902 1000 **E** enquiries@educationdevelopmenttrust.com **W** www.educationdevelopmenttrust.com
Education Development Trust is a registered charity (No. 270901) and company limited by guarantee (No. 867944) • Registered in England and Wales • Registered office as above